



# Datganiad o Gyfrifon 2017/18



## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

### Datganiad o Gyfrifon 2017/18

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
Adroddiad Naratif	4
Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon	15
Tystysgrif Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen CBS Rhondda Cynon Taf	16
Tystysgrif Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf	17
Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn	18
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	25
Y Fantolen	27
Datganiad Llif Arian	30
Dadansoddiad o Wariant a Chyllid	32
<i>Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol Craidd</i>	
1 Polisiau Cyfrifyddu Sylweddol	34
2 Safonau Cyfrifyddu wedi'u Cyflwyno, ond heb eu Mabwysiadu	47
3 Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisiau Cyfrifyddu	48
4 Rhagdybiaethau sy wedi'u Gwneud am y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif	49
5 Eitemau Materol Incwm a Threuliau	50
6 Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen	50
7 Eiddo, Gwaith ac Offer	50
8 Asedau Anniriaethol Hirdymor	52
9 Offerynnau Ariannol	53
10 Dyledwyr Tymor Byr	59

11	Arian Parod a Chyferwerth	60
12	Asedau sydd wedi'u Dal i'w Gwerthu	60
13	Credydwyr Tymor Byr	60
14	Darpariaethau	61
15	Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill	61
16	Cronfeydd wrth Gefn mae modd eu Defnyddio	62
17	Cronfeydd wrth Gefn nad oes modd eu Defnyddio	65
18	Datganiad Llif Arian – Addasiadau i Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau sydd ddim yn Arian Parod	69
19	Datganiad Llif Arian – Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd wedi'u Cynnwys yn y Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu	69
20	Datganiad Llif Arian – Llog o fewn Gweithgareddau Gweithre gweithredol	69
21	Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi	70
22	Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Ariannu	70
23	Nodiadau ynglŷn â'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid	70
24	Gweithrediadau sydd wedi'u Caffael a'u Diddymu	72
25	Gwasanaethau Asiantaethau	72
26	Cynlluniau Codi Tâl Ffyrdd	72
27	Lwfansau Aelodau	72
28	Tâl Swyddogion	72
29	Costau Diswyddo	76
30	Costau Archwilio Allanol	76
31	Ardrethi Annomestig	77
32	Treth y Cyngor	77
33	Incwm Grant	78
34	Partïon Cysylltiedig	78

---

35	Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf	84
36	Prydlesi	85
37	Colledion Amharu	87
38	Buddion Ymddeol – Cynlluniau Budd Diffiniedig	88
39	Buddion Ymddeol – Cynlluniau Cyfraniad Diffiniedig	94
40	Rhwymedigaethau Amodol	94
41	Cronfeydd Ymddiriedolaeth	96
	Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	97
	Cyfrifon Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf	140
	Adroddiad Archwilio Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer CBS Rhondda Cynon Taf	157
	Adroddiad Archwilio Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y Gronfa Bensiwn	160
	Geirfa	163

## Adroddiad Naratif

### 1. Cyflwyniad

Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei sefydlu ar 1 Ebrill 1996 o ganlyniad i ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

Rhondda Cynon Taf yw'r trydydd Cyngor mwyaf yng Nghymru â phoblogaeth o 238,306 (Cyfrifiad Canol Blwyddyn 2016), sy'n gwasanaethu ardal yng Nghymoedd De Cymru sy'n cwmpasu 424 cilomedr sgwâr, yn ymestyn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd i Brifddinas Caerdydd yn y de.

Mae'r cyfrifon ar gyfer 2017/18 wedi'u paratoi yn unol â:

- Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017/18 yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd)

Mae'r cyfrifon sy'n cael eu trafod ar dudalennau 1 i 148 yn cydymffurfio â'r uchod.

### 2. Effaith yr Hinsawdd Economaidd Gyfredol

Mae'r hinsawdd economaidd yn parhau i fod yn her sylweddol i'r awdurdod lleol yma a phob un arall. Yn ei lythyr ar 21 Rhagfyr 2016 i awdurdodau lleol yn rhoi manylion am setliadau refeniw a chyfalaf llywodraeth leol 2017/18, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ar faterion Cyllid a Llywodraeth Leol (Mark Drakeford, AC) gynnydd yn y cyllid cyfartalog ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn 2017/18, gyda chynnydd cymedrol ar gyfer Rhondda Cynon Taf o 0.4%. Mae Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor yn parhau i gymryd eu dyletswydd ymddiriedol yn hynod o ddifrifol ac mae hyn i'w weld wrth osod cyllidebau darbodus, cyfiawn a theg. Mae'r canlyniadau a'r sefyllfa ariannol sy'n cael eu trafod yn y Datganiad Cyfrifon yma yn adlewyrchu stiwardiaeth ariannol gadarn er gwaethaf pwysau ariannol parhaus.

O ystyried y pwysau ariannol parhaus sydd ar y Cyngor, mae'r Swyddog Adran 151 yn dal i fod o'r farn y dylai'r Cyngor gadw lleiafswm o £10 miliwn ym Malans y Gronfa Gyffredinol (sef ei falans digonol). Mae'r lefel yma'n cael ei phennu yng nghyd-destun yr angen am reolaeth ariannol gadarn barhaus sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cynnal sefydlogrwydd a hyblygrwydd ariannol yn y dyfodol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y Fantolen sy'n dangos Balansau Cronfa'r Cyngor o £10.720m.

### 3. Cynllun Ariannol y Tymor Canolig 2017/18 tan 2020/21

Fel y cafodd ei adrodd wrth y Cabinet ar 18 Gorffennaf 2017, mae'r Cyngor wedi nodi rhagdybiaethau o fewn ei [Gynllun Ariannol Tymor Canolig 2017/18 i 2020/21](#). Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gonglfaen i lywodraethu da ac mae'n ein galluogi i ddarparu gwasanaethau a gwella gwasanaethau o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Sector Cyhoeddus yn parhau i fynd trwy gyfnod hir o



lymder ariannol. Mae'r rhagolygon cenedlaethol yn dangos cyfnod heriol ar gyfer gwasanaethau ar draws Llywodraeth

Leol. Ar ben hyn oll, mae llawer o wasanaethau'n wynebu pwysau cynyddol a chostau cysylltiedig, yn enwedig ym maes Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

Yn lleol, mae'r Cyngor yma wedi dangos ei allu a'i barodrwydd i fuddsoddi mewn gwasanaethau, y rheiny sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol er mwyn bodloni gofynion newidiol ein pobl a'n cymunedau ni. Mae buddsoddiad ychwanegol sylweddol o £16miliwn a gafodd ei gytuno gan yr Aelodau yn 2017/18 yn darparu gwelliannau go iawn ar draws nifer o feysydd gan gynnwys hamdden, priffyrdd a thechnoleg gwybodaeth.

Er bod defnyddio cronfeydd 'untro' ar gyfer buddsoddi wedi bod yn beth cadarnhaol, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod rhaid iddo fynd i'r afael â'r diffygion yn y gyllideb graidd, a gwneud penderfyniadau anodd i fantoli'i gyllideb referniw parhaus dros y tymor canolig.

Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar fwllch cyllidebol sy wedi'i amcangyfrif dros y tymor canolig ac wedi gweithredu yn llwyddiannus strategaeth o nodi a chyflwyno mesurau i leihau cyllideb sylfaenol yn gynnar yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gyflawni arbedion ariannol yn gynnar ac i ailgyflenwi Cronfa Wrth Gefn Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Thrawsnewid Gwasanaeth sy wedi'i defnyddio yn rhagweithiol fel rhan o strategaeth y gyllideb ers nifer o flynyddoedd.

#### **4. Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2016–2020**

Ar gyfer 2017/18 [Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2016-2020](#) oedd y cynllun strategol allweddol, gan ganolbwyntio ar 3 blaenoriaeth:

- Economi – adeiladu economi gref;
- Pobl – hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb.
- Lleoedd – creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw.

Er mwyn bodloni'r blaenoriaethau hyn, cafodd 4 egwyddor allweddol eu gosod:

- Darparu gwasanaethau hanfodol yn dda – Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd llai o arian ar gael a bydd rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn gwario'r arian lle mae'r angen fwyaf.
- Helpu pobl a chymunedau i helpu eu hunain – Rhoi'r cymorth sydd ei angen i bobl a chymunedau i reoli eu hasedau cymunedol a chael rhagor o reolaeth dros y gwasanaethau yn eu cymuned.
- Adeiladu Bwrdeistref Sirol gynaliadwy, cefnogi mentrau sy'n ysgogi twf economaidd a chreu swyddi yn y Fwrdeistref.
- Byw yn unol â'r hyn y gallwn ei fforddio – Mae angen i'n blaenoriaethau ganolbwyntio ar leihau costau rhedeg heb effeithio ar wasanaethau rheng

flaen. Yn ariannol, mae rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd er mwyn rheoli'r gyllideb a sicrhau gwerth am arian i'n trigolion.



Amlinellodd [Adroddiad Perfformiad Corfforaethol y Cyngor 2018/19](#) y cynnydd sy wedi'i wneud ar ein blaenoriaethau ar gyfer 2017/18 ac mae'n nodi'r cynlluniau strategol 2018/19 ar gyfer ECONOMI, POBL, a LLE.

Bob chwarter, derbyniodd y Cabinet yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a oedd wedi'i wneud yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a gafodd eu cytuno, i gadarnhau a oedden nhw'n fodlon â'r cynnydd a oedd wedi'i wneud. Yn dilyn hyn, cafodd y newyddion diweddaraf eu hadrodd i Bwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad y Cyngor i'w hadolygu a'u herio. Aeth adroddiad cyflawniad y Cyngor ar gyfer Chwarter 4 hyd at 31 Mawrth 2018 i'r Cabinet ar 17 Gorffennaf 2018 [Adroddiad Cyflawniad y Cyngor 31 Mawrth 2018 \(Chwarter 4\)](#)

Cafodd blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor eu mabwysiadu'n ffurfiol hefyd fel amcanion Lles y Cyngor ar gyfer 2017/18 mewn cyfarfod o'r Cabinet ar 9 Mawrth 2017, [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Amcanion Lles y Cyngor](#)

Ym Medi 2017 cytunodd y Cabinet y bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar bum ffrwd waith i wella'r gwasanaethau hanfodol sy'n cael eu darparu:

- Digiddeiddio – yn unol â Chynllun Digidol y Cyngor a gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 22 Mehefin 2017:
  - Gweithio gyda phreswylwyr i wella eu sgiliau digidol a'u mynediad at dechnoleg i alluogi rhagor o bobl i ryngweithio'n ddigidol â'r Cyngor; a
  - Galluogi rhagor o weithlu'r Cyngor i fod yn hyblyg i helpu i gynyddu cynhyrchiant ymhellach a lleihau'r angen am ofod swyddfa.
- Masnacheiddio – datblygu'r amodau o fewn y Cyngor o ran capasiti a gallu i ehangu cyfleoedd i fasnachu â sefydliadau allanol.
- Ymyrraeth Gynnar ac Atal – buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol i gefnogi cyflawni arbedion yn y tymor canolig, yn arbennig:
  - Datblygu canolfannau cymunedol i ddod â gwasanaethau tebyg at ei gilydd a chreu arbedion maint o safbwynt costau staffio ac adeiladau, a

fydd yn galluogi'r Cyngor i barhau i ddarparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau o fewn cymunedau allweddol; a

- Cyflwyno ymagweddau newydd sy'n cefnogi teuluoedd cydnerth fydd dim angen ymyrraeth statudol arnyn nhw a hefyd agwedd newydd tuag at leihau nifer y bobl sy'n dioddef cam-drin yn y cartref, a'r rheiny sy'n ei gyflawni.
- Annibyniaeth – hyrwyddo moderneiddio ac ail-lunio gwasanaethau i sicrhau annibyniaeth ar gyfer trigolion sy'n agored i niwed; mae hyn yn cynnwys adeiladu cyfleusterau gofal ychwanegol a chysylltu â darpariaeth canolfannau cymunedol.
- Trefniadau Effeithlon ac Effeithiol – herio darpariaeth barhaus gwasanaethau a chynyddu effeithlonrwydd trwy ddod â swyddogaethau ôl-swyddfa tebyg at ei gilydd, lleihau costau gweinyddu a hefyd maint y portffolio eiddo.

Yn ychwanegol at y newidiadau moderneiddio hyn, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i raglen buddsoddi cyfalaf strategol, a bydd nifer ohonyn nhw'n cysylltu â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac yn ei hategu, sef:

- Seilwaith Priffyrdd a Thrafnidiaeth
- Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif;
- Tai Newydd e.e. byw'n annibynnol a defnyddio eiddo gwag unwaith eto;
- Asedau Cymunedol e.e. canolfannau cymunedol, parciau a meysydd chwarae, canolfannau hamdden a chyfleusterau llyfrgell; a
- Prosiectau Canol Tref a Phrosiectau Adfywio Economaidd e.e. Datblygu Canolfan Bro Taf

Mae'r Cyngor hefyd yn bartner allweddol ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (PSB) a chytunodd ar [Gynllun Lles Cwm Taf](#) ar gyfer ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful am y cyfnod 2018-2023 yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018 (Nodyn: mae'r Cynllun hefyd yn destun cymeradwyaeth trwy drefniadau llywodraethu partneriaid statudol unigol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus). Roedd y cynllun yma yn disodli'r Cynllun Integredig Sengl a chyflwynodd bedwar Amcan Lles. Bydd y bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd ar yr amcanion hyn er mwyn gwella Lles Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol pobl a chymunedau Cwm Taf.

Dyma'r Amcanion Lles ar gyfer Cwm Taf:

- Cymunedau sy'n Ffynnu
- Pobl Iachus
- Economi Gref; a
- Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Unigedd

Bydd yr amcanion sy wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor a Chynllun Lles Cwm Taf yn helpu'r Cyngor a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i gyfrannu at y saith nod Lles cenedlaethol, sy wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang;
- Cymru lewyrchus;



- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynol; a
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## 5. **Esboniad o'r Datganiadau Ariannol Craidd**

Mae'r Datganiad o Gyfrifon sy'n dilyn yr Adroddiad Naratif yma yn cynnwys y Datganiadau Ariannol Craidd canlynol:

- **Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn (MiRS)** – yn dadansoddi'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio a chronfeydd wrth gefn nad oes modd eu defnyddio.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CI&ES)** – yn adlewyrchu incwm a gwariant yn unol ag IFRS ac yn eu dadansoddi fesul maes gwasanaeth sy'n adlewyrchu'r modd y mae gwasanaethau'n gweithredu a'r modd y mae cyflawniad yn cael ei reoli.
- **Y Fantolen** – yn adlewyrchu holl asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- **Datganiad Llif Arian** – yn dadansoddi symudiad arian parod a chyferwerth ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Mae'r datganiad yma yn manylu ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn adolygu eu heffeithiolrwydd.

Yn y datganiadau ariannol ar gyfer 2017/18, mae dau gydbwyllgor yn cael eu cyfuno:

- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES); a
- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD).

## 6. **Incwm a Gwariant Refeniw 2017/18**

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dadansoddi gwariant ac incwm refeniw gros y Cyngor yn unol ag IFRS.

Amcanion eang [Strategaeth Cyllideb Refeniw 2017/2018 y Cyngor](#) oedd:

- Cefnogi'r gwaith o ran cyflawni ein blaenoriaethau strategol allweddol, yn enwedig ynglŷn â'r angen i adeiladu economi gref, hyrwyddo annibyniaeth pobl a chreu Bwrdeistref Sirol y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddi.
- Cadw cefnogaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y dull mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn.
- Parhau i ddarparu ein gwasanaethau allweddol ac i ddiogelu cynifer o swyddi lleol ag sy'n bosibl, hyd yn oed wrth i adnoddau ariannol leihau.

- Cymryd agwedd gyfrifol tuag at gytuno ar lefel Treth y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn monitro cyflawniad ar draws y meysydd gwasanaeth canlynol:

- **Addysg a Dysgu Gydol Oes** sy'n cynnal Addysg yn yr Ysgolion a'r Gymuned; Gwasanaethau Llyfrgelloedd; Uned Gwasanaethau Cymraeg; Gwasanaethau Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant; Rheoli Asedau; a Gwasanaethau Arlwy.
- **Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant** sy'n cynnal Gwasanaethau Gofal Cymuned; Gwasanaethau Tai Cymunedol; Gofal Cymdeithasol ac Iechyd; Gwasanaethau i Blant; Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd; Gwasanaethau Hamdden; Parciau a Chefn Gwlad; a Gwasanaethau Treftadaeth ac Amgueddfeydd.
- **Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen** sy'n cynnal gwasanaethau rheng flaen ar gyfer Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol; Gwasanaethau Gofal y Strydoedd (gan gynnwys Gwastraff a Glanhau Strydoedd); Gofal i Gwsmeriaid; gweinyddu Budd-daliadau Tai a Threth y Cyngor ynghyd â gwasanaethau cymorth allweddol y Gwasanaethau Cyllid, TGCh, Rheoli Eiddo'r Cyngor a Chaffael.
- **Cyfadran y Prif Weithredwr** sy'n cynnal gwasanaethau Adnoddau Dynol ar draws yr awdurdod; y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus; Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol; a Gwasanaethau Adfywio a Chynllunio.

Mae'r tabl canlynol yn manylu ar wariant net gwirioneddol a chyllideb y Cyfadranau yn ystod 2017/18. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan y Cyngor (o fis Gorffennaf 2018) yn Adroddiad Cyflawniad y Cyngor. Mae hyn yn cynrychioli gwariant refeniw net y Cyngor yn unol â'r darpariaethau statudol y mae angen eu hystyried wrth osod trethi lleol.

Mae'r amrywiant yn erbyn y gyllideb yn cyfrannu at y symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor:

Cyfadran	Cyllideb	Gwariant	Amrywiant
	£'000	£'000	£'000
Addysg a Dysgu Gydol Oes	177,855	178,078	223
Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	137,904	138,233	329
Uwchadran y Prif Weithredwr	11,872	11,881	9
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen	61,123	60,807	(316)
Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan	70,186	69,555	(631)
<b>Total</b>	<b>458,940</b>	<b>458,554</b>	<b>(386)</b>
Tanwariant Net wedi'i neilltuo i gyllido Buddsoddiad mewn gwaith Cynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf	0	386	386
<b>Total</b>	<b>458,940</b>	<b>458,940</b>	<b>0</b>

	£'000
<b>Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>10,720</b>
Alldro Cyllideb Refeniw (Amrywiad fel uchod)	0
<b>Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>10,720</b>

Cyfanswm y gwariant ar wasanaethau oedd £704 miliwn, mae modd dadansoddi hyn dros y categorïau gwariant canlynol:

<b>Math o Wariant</b>	<b>£'m</b>	<b>%</b>
Gweithwyr	305	43
Eiddo/Safle	28	4
Trafnidiaeth	19	3
Nwyddau a Gwasanaethau	76	11
Taliadau i Drydydd Partïon	115	16
Taliadau Trosglwyddo	98	14
Costau cyfalaf	59	8
Costau Gweithredu Eraill (e.e. Gwasanaethau Cynnal)	4	1
<b>Cyfanswm y Gwariant Gros</b>	<b>704</b>	<b>100</b>

Cyfanswm yr incwm yn ystod y flwyddyn oedd £757 miliwn a ddaeth o'r ffynonellau canlynol:

<b>Dadansoddiad Incwm</b>	<b>£'m</b>	<b>%</b>
<u>Incwm Gwasanaeth Uniongyrchol</u>		
Grantiau Penodol	161	21
Gwerthu, Ffioedd a Thaliadau	43	6
Incwm arall	45	6
<b>Is-Gyfanswm Incwm Gwasanaeth Uniongyrchol</b>	<b>249</b>	<b>33</b>
<u>Incwm arall</u>		
Treth y Cyngor	124	16
Ardrethi Annomestig	76	10
Grantiau Llywodraeth heb eu Gwarchod	279	37
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	29	4
<b>Cyfanswm yr incwm</b>	<b>757</b>	<b>100</b>

## 7. Gwariant Cyfalaf ac Incwm 2017/18

Yn ystod y flwyddyn, gwariant cyfalaf y Cyngor oedd £101.8 miliwn, fel sy wedi'i grynhoi isod:

<b>Cyfadran</b>	<b>£'000</b>
Mentrau Corfforaethol	1,175
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen	24,532
Uwchadran y Prif Weithredwr	7,474
Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes	54,921
Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	13,659
<b>Total</b>	<b>101,761</b>

Mae'r math o wariant cyfalaf a gododd yn ystod y flwyddyn wedi'i grynhoi isod:

<b>Gwariant Cyfalaf</b>	<b>£'000</b>
Asedau Hirdymor Diriaethol	88,033
Asedau Hirdymor Anniriaethol	1,267
Gwariant Refeniw wedi'i Gyllido o	12,461
Gyfalaf o dan Statud	
<b>Total</b>	<b>101,761</b>

Cafodd y gwariant yma ei ariannu fel a ganlyn:

<b>Ariannu Cyfalaf</b>	<b>£'000</b>
Cyllid Refeniw	28,235
Derbyniadau Cyfalaf	1,068
Cronfa Datblygu Cyfalaf	1,562
Benthyca	35,567
Grantiau	30,572
Cyfraniadau Trydydd Parti	4,757
<b>Total</b>	<b>101,761</b>

Roedd gwariant sylweddol ar:

- Ysgol a Chanolfan Hamdden Aberdâr;
- Ysgol Gynradd Gymuned Cwmaman;
- Ysgol Gymuned y Porth;
- Moderneiddio Ysgol Gymuned Tonypandy (Ysgol Nantgwyn);
- Moderneiddio Ysgol Gymuned Tonyrefail; a
- Moderneiddio Ysgol Gyfun Treorci.

## **8. Crynodeb o Gynlluniau Cyfalaf a Refeniw'r Dyfodol**

Mae angen rheolaeth ariannol gadarn i ddiogelu'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae trefniadau cynllunio ariannol a chynllunio blaengar yn hanfodol wrth sicrhau bod blaenoriaethau'r Cyngor yn fforddiadwy ac yn arwain y gwaith o ddod yn fwy effeithlon, trawsnewid gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau buddsoddi.

Mae cyllidebau cyfalaf a refeniw yn cael eu cymeradwyo bob blwyddyn gan y Cyngor llawn. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei gymeradwyo ar gyfer cyfnod treigl 3 blynedd a'i diweddarau'n flynyddol. Mae cyllidebau refeniw yn cael eu pennu'n flynyddol yn unol â chyhoeddiadau setliad Llywodraeth Cymru.

Mae crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf ddiweddaraf a gafodd ei chytuno gan y Cyngor ym mis Chwefror 2018 fel a ganlyn:

<b>Gwariant y Gyfadran</b>	<b>2018/19</b>	<b>2019/20</b>	<b>2020/21</b>	<b>Total</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Uwchadran y Prif Weithredwr	39,368	24,509	6,128	<b>70,005</b>
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen	27,914	8,136	5,560	<b>41,610</b>
Mentrau Corfforaethol	1,044	850	850	<b>2,744</b>
Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes	43,209	8,391	5,046	<b>56,646</b>
Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	7,043	1,100	1,100	<b>9,243</b>
<b>Total</b>	<b>118,578</b>	<b>42,986</b>	<b>18,684</b>	<b>180,248</b>

Amcangyfrif o'r Adnoddau sydd eu hangen i Gyllido Rhaglen Gyfalaf	2018/19	2019/20	2020/21	Total
	£'000	£'000	£'000	£'000
Benthyca wedi'i Gynnal	6,972	6,972	6,972	20,916
Benthyca heb ei Gynnal	41,928	17,962	0	59,890
Grantiau Cyfalaf	21,074	8,006	4,242	33,322
Cyfraniadau Trydydd Parti	1,261	0	0	1,261
Adnoddau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol	11,595	4,817	4,720	21,132
Cyfraniadau Refeniw	35,748	5,229	2,750	43,727
<b>Total</b>	<b>118,578</b>	<b>42,986</b>	<b>18,684</b>	<b>180,248</b>

O 31 Mawrth 2018, mae ymrwymadau cyfalaf mawr dros y tair blynedd nesaf (yn unol â Rhaglen Gyfalaf 2018-2021) yn cynnwys y cynlluniau canlynol:

Cynllun	£'000
Grantiau/Addasiadau ar gyfer Cyfleusterau i'r Anabl	12,000
Ailddatblygu Canolfan Dyffryn Taf	46,825
Cerbydau'r Fflyd	10,156
Gwella'r Priffyrdd	6,408
Strwythurau	8,094
Rhwydwaith Trafnidiaeth	10,772
Moderneiddio Ysgolion Rhondda a Thonyrefail	29,765

Mae crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2018/19 (a gafodd ei chytuno ym mis Chwefror 2018) wedi'i amlinellu isod:

Adran	£'000
Yr Awdurdod Cyfan	69,850
Cyllidebau Ysgolion Unigol	148,950
Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	144,930
Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen ac Uwchadran y Prif Weithredwr	76,013
Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes	31,857
<b>Total</b>	<b>471,600</b>

## 9. Trefniadau Benthyca a Ffynonellau Cyllid

Bob blwyddyn, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003 a'r Cod Darbodus, mae'n ofynnol i'r Cyngor osod terfynau mewn perthynas â:

- Cyfyngiad awdurdodedig ar gyfer benthyg.
- Cyfyngiadau ar risg cyfraddau llog sefydlog ac amrywiol.
- Amrywiol ddangosyddion darbodus a thrysorlys eraill.

Roedd y terfynau a gafodd eu gosod ar ddechrau'r flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

**Cyfyngiad benthyca awdurdodedig** £440.0 miliwn  
(Cafodd hyn ei gynyddu i £460.0m yn Adroddiad Strategaeth Canol y Flwyddyn)

**Risg Cyfradd Llog – Benthyca** **Ystod**  
Cyfyngiadau ar % cyfanswm y benthyciadau ar gyfraddau llog sefydlog 45% – 100%  
Cyfyngiadau ar % cyfanswm y benthyciadau ar gyfraddau llog amrywiol 0% – 55%



**Risg Cyfradd Llog – Buddsoddiadau**

Cyfyngiadau ar % cyfanswm y benthyciadau ar gyfraddau llog sefydlog  
Cyfyngiadau ar % cyfanswm y benthyciadau ar gyfraddau llog amrywiol

**Ystod**

0% – 25%  
75% – 100%

Cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yw £272.8 miliwn, ac mae £193.9 miliwn yn fenthyciad hirdymor a £78.9 miliwn yn un byrdymor. Mae'r benthyciadau allanol o £111.0 miliwn yn dod o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), a £161.8 miliwn o fenthyciadau'r farchnad a ffynonellau eraill.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor yn caniatáu i'r Cyngor godi arian o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y PWLB a'r farchnad arian. Mae Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen wedi ei awdurdodi i wneud y math mwyaf priodol o fenthyciadau o ffynonellau cymeradwy o fewn y terfynau benthycia cyffredinol sy wedi'u pennu gan y Cyngor.

**10. Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau**

O ganlyniad i Safon Gyfrifo Ryngwladol (IAS) 19 "Buddion Gweithwyr", mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyfrifo rhwymedigaethau pensiwn mewn perthynas â chost penderfyniadau a gafodd eu gwneud hyd at ddyddiad y Fantolen. Cyfeiriwch at nodiadau 17.4 a 38.0 y Datganiadau Ariannol Craidd am ragor o fanylion. Mae effaith IAS 19 ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor fel a ganlyn:

	<b>£'000</b>
Asedau Net heb gynnwys Cronfa Bensiwn Wrth Gefn	798,822
Asedau Net yn ôl y Fantolen	186,964

**11. Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Ar 15 Mawrth 2016, arwyddodd Arweinwyr y deg Cyngor yn Ne Ddwyrain Cymru, Prif Weinidog Cymru, Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, cytundeb rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r deg arweinydd. Mae hyn yn cynnwys:

- Buddsoddiad o £1.2 biliwn yn isadeiledd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd trwy Gronfa Fuddsoddi 20 mlynedd;
- Creu Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol anstatudol i gydlynu cynllunio a buddsoddi ym maes trafndiaeth, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru;
- Datblygu gallu o safbwynt Cymhwyso Lled-ddargludyddion Cyfansawdd;
- Creu Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
- Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau o 2017 i gyd-gynllunio cymorth cyflogaeth yn y dyfodol i bobl â chyflwr iechyd neu anabledd a/neu sy'n ddi-waith ers amser hir;
- Bydd Sefydliad Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei sefydlu i sicrhau bod un llais i fusnesau weithio gydag arweinwyr awdurdodau lleol; a

- Mae Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymrwmo i ddull partneriaeth newydd ym maes datblygu tai ac adfywio. Bydd hyn yn sicrhau bod cymunedau cynaliadwy yn cael eu cynnal, trwy ddefnyddio ac aildefnyddio eiddo a safleoedd.

Cafodd cwmni Cerbydau Pwrpas Arbennig ei sefydlu, CSC Foundry Ltd, gan y 10 awdurdod partner er mwyn gweithredu a chontractio gyda IQE Silicon Compounds Ltd i gyflwyno'r prosiect Lled-ddargludyddion Cyfansawdd (CSC). Ar gyfer 2017/18 mae cyfrifon cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (sy'n cynnwys yr is-gwmni CSC Foundry Ltd) wedi'u cyfuno i gyfrifon y Cyngor yn seiliedig ar y ffigurau poblogaeth fel sy wedi'u nodi yn y Cytundeb Gweithio ar y Cyd a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 25 Ionawr 2017. Cymeradwywyd y Cynllun Busnes Cytundeb Gwaith ar y Cyd (Cynllun Busnes Strategol Rhanbarth Cyfalaf Caerdydd) gan y Cyngor ar 28 Mawrth 2018.

## 12. **Partneriaeth Pensiynau Cymru (WPP)**

Ar 15 Mawrth 2017 Cymeradwyodd y Cyngor sefydlu Cyd-bwyllgor Llywodraethu i oruchwylio cyfuno buddsoddiadau'r cronfeydd yr wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yng Nghymru. Mae'r ddolen i'r adroddiad i'w weld yma: [Rhannu Buddsoddiad Cronfa Pensiwn Cymru Gyfan – Cyd-bwyllgor Llywodraethu a Chytundeb Rhwng yr Awdurdodau](#). Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penodi Link Fund Solutions Ltd (Link) i sefydlu a rhedeg cyfrwng buddsoddi ar y cyd at ddefnydd cronfeydd CPLIL Cymru yn unig. Bydd hyn yn galluogi cydrannu asedau ar draws ystod o fathau o asedau. Bydd cronfeydd y CPLIL yn cadw rheolaeth lawn dros benderfyniadau dyrannu asedau strategol. Hyd at 31 Mawrth 2018, nid oes unrhyw asedau wedi'u trosglwyddo eto i'r cyfrwng buddsoddi ar y cyd newydd.

## Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon

### Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- Gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol ac i sicrhau bod un o'i Swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn, y Swyddog hwnnw yw Cyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.
- Rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Rwy'n cadarnhau bod y cyfrifon hyn wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 19 Medi 2018.

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

### y Cynghorydd Steve Powderhill

#### Maer

Swyddfeydd Dinesig, Adeiladau Bwrdeistrefol  
Heol Gelliwastad  
Pontypridd  
CF37 2DP

### Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mae Cyfarwyddwr y Gyfadran yn gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor sydd, o ran Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, yn ofynnol i gyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddyddiad y cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon yma, mae Cyfarwyddwr y Gyfadran wedi:

- Dewis a dethol polisïau cyfrifyddu addas, a'u chymhwysu'n gyson.
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth.
- Cydymffurfio â'r cod.

Mae Cyfarwyddwr y Gyfadran hefyd trwy gydol y flwyddyn ariannol wedi:

- Cynnal a chadw cofnodion cyfrifyddu priodol, a'u diweddarau'n gyson.
- Cymryd camau rhesymol i atal twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra, neu eu darganfod.

**Tystysgrif Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen ar Gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn 2017/18.**

Rwy'n tystio fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 31 Mawrth 2018 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

**Christopher D. Lee**

**Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen**  
Tŷ Bronwydd  
Y Porth  
CF39 9DL

## **Tystysgrif Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen ar Gyfrifon Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn 2017/18.**

Rwy'n tystio fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar 31 Mawrth 2018 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

**Christopher D. Lee**

**Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen**  
Tŷ Bronwydd  
Y Porth  
CF39 9DL



## **Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn (MiRS)**

Mae'r Datganiad yma'n dangos y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw gan y Cyngor, wedi'u dadansoddi i "gronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio" (h.y. y rhai y mae modd eu cymhwyso i gyllido gwariant neu ostwng trethi lleol) a "chronfeydd wrth gefn nad oes modd eu defnyddio". Mae'r llinell Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos cost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, ac mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sydd angen eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor ar gyfer gosod Treth y Cyngor. Mae'r Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r llinell Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi yn dangos Balans Cronfa'r Cyngor statudol cyn i'r Cyngor ymgymryd ag unrhyw drosglwyddiadau dewisol i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

## Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

	Balans Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: Cyfalaf, Trysorlys ac Yswiriant	Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: Perthnasol I Refeniw Arall	Cronfa Wrth Gefn Ysgolion Dirprwyedig	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf y mae modd eu defnyddio	Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	Cronfa wrth Gefn Yswiriant MGCC	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn y mae modd eu defnyddio	Cronfeydd Wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Nodiadau:</b>	16.1	16.2	16.2		16.3	16.4			17	
<b>Balans ar 1 Ebrill 2016</b>	10,720	59,868	60,504	3,587	485	6,623	344	<b>142,131</b>	141,565	<b>283,696</b>
<b>Symudiad yn y cronfeydd wrth gefn yn ystod 2016/17:</b>										
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(18,366)	0	(3,146)	0	0	0	0	<b>(21,512)</b>	(55,920)	<b>(77,432)</b>
<b>Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a chyllid o dan reoliadau:</b>										
<b>Addasiadau yn ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf:</b>										
<b>Gwrthdroi eitemau sy wedi'u debydu / credydu i'r CI&amp;ES:</b>										
Taliadau wedi'u codi ar gyfer dibrisiant ac amhariad asedau hirdymor	44,575	0	0	0	0	0	0	<b>44,575</b>	(44,575)	<b>0</b>
Colledion ailbrisiio ar eiddo, gwaith ac offer	13,982	0	1,773	0	0	0	0	<b>15,755</b>	(15,755)	<b>0</b>
Amortiddio asedau anniriaethol	1,385	0	0	0	0	0	0	<b>1,385</b>	(1,385)	<b>0</b>
Symudiad yng Nghyfrif Asedau wedi'u Rhoi	(254)	0	0	0	0	0	0	<b>(254)</b>	254	<b>0</b>
Gwariant refeniw wedi'i ariannu o gyfalaf o dan statud	8,476	0	0	0	0	0	0	<b>8,476</b>	(8,476)	<b>0</b>
<b>Parhad trosodd...</b>										

Symiau asedau hirdymor wedi'u dileu ar waredu neu werthu fel rhan o'r enillion / colledion ar waredu i'r CI&ES	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Mewnosod eitemau heb eu debydu / credydu eu CI&amp;ES:</b>										
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf	(11,732)	0	0	0	0	0	0	(11,732)	11,732	0
Gwariant cyfalaf wedi'i godi yn erbyn Balansau Cronfa'r Cyngor	(28,777)	0	0	0	0	0	0	(28,777)	28,777	0
<b>Addasiadau yn ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso:</b>										
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau heb eu cymhwyso wedi'u credydu i CI&ES	(22,637)	0	0	0	0	22,637	0	0	0	0
Cymhwyso grantiau i ariannu cyfalaf sy wedi'u trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf	0	0	0	0	0	(20,688)	0	(20,688)	20,688	0
<b>Addasiadau sy'n cynnwys y Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:</b>										
Elw o drosglwyddo gwerthiant wedi'u credydu yn rhan o'r enillion / colledion ar waredu i'r CI&ES	(1,824)	0	0	0	4,347	0	0	2,523	(2,523)	0
Defnyddio Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	0	0	0	(3,401)	0	0	(3,401)	3,401	0
Trosglwyddo o'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig ar ôl derbyn arian parod	0	0	0	0	12	0	0	12	(12)	0
<b>Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:</b>										
Beth yw swm y gwahaniaeth yn y costau ariannu sy'n cael eu codi ar y CI&ES a chostau ariannu y mae modd eu codi yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(47)	0	0	0	0	0	0	(47)	47	0
<b>Addasiadau sy'n cynnwys y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn:</b>										
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a gafodd eu debydu neu eu credydu i'r CI&ES	49,730	0	10	0	0	0	0	49,740	(49,740)	0
<b>Parhad trosodd...</b>										

Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	(30,700)	0	(132)	0	0	0	0	(30,832)	30,832	0
<b>Addasiad sy'n cynnwys y Cyfrif Addasu Ad-dalu Tâl Anghyfartal:</b>										
Y gwahaniaeth yn y symiau sy'n cael eu codi ar gyfer hawliadau Tâl Cyfartal i'r CI&ES a chost y setliadau y mae modd eu codi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	31	0	0	0	0	0	0	31	(31)	0
<b>Addasiad yn cynnwys y Cyfrif Absenoldebau wedi'u Cronni:</b>										
Y gwahaniaeth yn y symiau sy'n cael eu codi ar gyfer tâl swyddogion i'r CI&ES ar sail Gronni a'r tâl y mae modd ei godi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	1,559	0	-4	0	0	0	0	1,555	(1,555)	0
<b>Addasiadau eraill yn cynnwys:</b>										
Addasiad rhwng y Cyfrif Addasu Cyfalaf a'r Gronfa Ailbrizio Wrth Gefn	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Dibrisiant enillion hirdymor ailbrizio asedau	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cynnydd net (neu ostyngiad) cyn trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi</b>	5,401	0	(1,499)	0	958	1,949	0	6,809	(84,241)	(77,432)
<b>Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi</b>	(5,401)	2,910	4,148	(1,457)	0	0	(200)	0	0	0
<b>Cynnydd neu (ostyngiad) yn ystod y flwyddyn</b>	0	2,910	2,649	(1,457)	958	1,949	(200)	6,809	(84,241)	(77,432)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>10,720</b>	<b>62,778</b>	<b>63,153</b>	<b>2,130</b>	<b>1,443</b>	<b>8,572</b>	<b>144</b>	<b>148,940</b>	<b>57,324</b>	<b>206,264</b>

## Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

	Balans Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: Cyfalaf, Trysorlys ac Yswiriant	Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: Perthnasol I Refeniw Arall	Cronfa Wrth Gefn Ysgolion Dirprwyedig	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf y mae modd eu defnyddio	Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	Cronfa wrth Gefn Yswiriant MGCC	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn y mae modd eu defnyddio	Cronfeydd Wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Nodiadau:</b>	16.1	16.2	16.2		16.3	16.4			17.0	
<b>Balans ar 1 Ebrill 2017</b>	10,720	62,778	63,153	2,130	1,443	8,572	144	<b>148,940</b>	57,324	<b>206,264</b>
<b>Symudiad yn y cronfeydd wrth gefn yn ystod 2017/18:</b>										
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(5,457)	3,720	(55)	0	0	0	0	<b>(1,792)</b>	(17,508)	<b>(19,300)</b>
<b>Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a chyllida chyllid o dan reoliadau:</b>										
<b>Addasiadau yn ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf:</b>										
<b>Gwrthdroi eitemau sy wedi'u debydu / credydu i'r CI&amp;ES:</b>										
Taliadau ar gyfer dibrisiant ac amhariad asedau hirdymor	40,629	0	0	0	0	0	0	<b>40,629</b>	(40,629)	<b>0</b>
Colledion ailbriso ar eiddo, gwaith ac offer	8,159	0	0	0	0	0	0	<b>8,159</b>	(8,159)	<b>0</b>
Amorteiddio asedau anniriaethol	1,266	0	0	0	0	0	0	<b>1,266</b>	(1,266)	<b>0</b>
Symudiad yng Nghyfrif Asedau wedi'u Rhoi	0	0	0	0	0	0	0	<b>0</b>	0	<b>0</b>
Gwariant refeniw wedi'i ariannu o gyfalaf o dan statud	9,182	0	0	0	0	0	0	<b>9,182</b>	(9,182)	<b>0</b>
										<b>Parhad trosodd...</b>



Symiau asedau hirdymor wedi'u dileu ar waredu neu werthu fel rhan o'r enillion / colledion ar waredu i'r CI&ES	938	0	0	0	725	0	0	<b>1,663</b>	(1,663)	<b>0</b>
<b>Mewnosod eitemau heb eu debydu / credydu i CI&amp;ES:</b>										
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf	(11,054)	0	0	0	0	0	0	<b>(11,054)</b>	11,054	<b>0</b>
Gwariant cyfalaf wedi'i godi yn erbyn Balansau Cronfa'r Cyngor	(29,797)	0	0	0	0	0	0	<b>(29,797)</b>	29,797	<b>0</b>
<b>Addasiadau yn ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso:</b>										
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau heb eu cymhwyso wedi'u credydu i CI&ES	(34,152)	0	0	0	0	34,152	0	<b>0</b>	0	<b>0</b>
Cymhwyso grantiau i ariannu cyfalaf sy wedi'u trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf	0	0	0	0	0	(35,328)	0	<b>(35,328)</b>	35,328	<b>0</b>
<b>Addasiadau sy'n cynnwys y Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:</b>										
Elw o drosglwyddo gwerthiant wedi'u credydu yn rhan o'r enillion / colledion ar waredu i'r CI&ES	0	0	0	0	0	0	0	<b>0</b>	0	<b>0</b>
Defnyddio Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	0	0	0	(1,068)	0	0	<b>(1,068)</b>	1,068	<b>0</b>
Trosglwyddo o'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig ar ôl derbyn arian parod	0	0	0	0	27	0	0	<b>27</b>	(27)	<b>0</b>
<b>Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:</b>										
Beth yw swm y gwahaniaeth yn y costau ariannu sy'n cael eu codi ar y CI&ES a chostau ariannu y mae modd eu codi yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(63)	0	0	0	0	0	0	<b>(63)</b>	63	<b>0</b>
<b>Addasiadau sy'n cynnwys y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn:</b>										
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a gafodd eu debydu neu eu credydu i'r CI&ES	56,650	0	314	0	0	0	0	<b>56,964</b>	(56,964)	<b>0</b>
<b>Parhad trosodd...</b>										

Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	(36,180)	0	(160)	0	0	0	0	(36,340)	36,340	0
<b>Addasiad sy'n cynnwys y Cyfrif Addasu Ad-dalu Tâl Anghyfartal:</b>										
Y gwahaniaeth yn y symiau sy'n cael eu codi ar gyfer hawliadau Tâl Cyfartal i'r CI&ES a chost y setliadau y mae modd eu codi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(98)	0	0	0	0	0	0	(98)	98	0
<b>Addasiad yn cynnwys y Cyfrif Absenoldebau wedi'u Cronni:</b>										
Y gwahaniaeth yn y symiau sy'n cael eu codi ar gyfer tâl swyddogion i'r CI&ES ar sail gronni a'r tâl y mae modd ei godi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	776	0	0	0	0	0	0	776	(776)	0
<b>Addasiadau eraill yn cynnwys:</b>										
Addasiad rhwng y Cyfrif Addasu Cyfalaf a'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Dibrisiant enillion hirdymor ailbriso asedau	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cynnydd net (neu ostyngiad) cyn trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi</b>	799	3,720	99	0	(316)	(1,176)	0	3,126	(22,426)	(19,300)
<b>Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi</b>	(799)	(1,402)	905	1,267	0	0	29	0	0	0
<b>Cynnydd neu (ostyngiad) yn ystod y flwyddyn</b>	0	2,318	1,004	1,267	(316)	(1,176)	29	3,126	(22,426)	(19,300)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>10,720</b>	<b>65,096</b>	<b>64,157</b>	<b>3,397</b>	<b>1,127</b>	<b>7,396</b>	<b>173</b>	<b>152,066</b>	<b>34,898</b>	<b>186,964</b>

## **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CI&ES)**

Mae'r Datganiad yma'n dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo sy wedi'u derbyn yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu trwy godi trethi. Mae cynghorau'n codi trethi i dalu am wariant yn unol â rheoliadau, mae modd i hyn fod yn wahanol i'r gost cyfrifyddu. Mae'r sefyllfa dreth i'w gweld yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

2016/17					2017/18		
Gwariant Gros	Gwariant Gros	Gwariant Net		Nodwch:	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000			£'000	£'000	£'000
108,271	(27,140)	81,131	Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen		102,702	(26,136)	76,566
17,972	(6,267)	11,705	Uwchadran y Prif Weithredwr		17,648	(4,174)	13,474
237,858	(47,668)	190,190	Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes		235,758	(46,042)	189,716
222,712	(79,837)	142,875	Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant		237,981	(86,948)	151,033
104,006	(76,302)	27,704	Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan		103,932	(79,537)	24,395
(359)	3,504	3,145	Cyd-bwyllgorau		5,968	(5,794)	174
<b>690,460</b>	<b>(233,710)</b>	<b>456,750</b>	<b>Costau'r gwasanaethau</b>		<b>703,989</b>	<b>(248,631)</b>	<b>455,358</b>
			<b>Gwariant Gweithredu Arall</b>				
17,220	0	17,220	Archebiannau	34.3	18,192	0	18,192
11,371	0	11,371	Ardollau	34.3	11,685	0	11,685
0	(1,824)	(1,824)	(Enillion) neu Golledion ar Waredu Asedau sy ddim yn Gyfredol		938	0	938
			<b>Incwm a Gwarian Buddsoddi ac Ariannu</b>				
10,446	0	10,446	Taliadau Llog sy'n Daladwy a'u Tebyg	9.2	9,760	0	9,760
17,511	0	17,511	Llog Net ar Rwymedigaethau Diffiniedig Net (Ased)	38.2	14,590	(1)	14,589
0	(123)	(123)	Llog wedi'i Dderbyn ac Incwm Tebyg	9.2	0	(117)	(117)
			<b>Trethiant ac Incwm o Grantiau Amhenodol</b>				
0	(119,893)	(119,893)	Incwm Treth y Cyngor	32.0	0	(123,802)	(123,802)
0	(70,451)	(70,451)	Dosbarthiad NDR	31.0	0	(76,412)	(76,412)
0	(283,324)	(283,324)	Grantiau Llywodraeth heb eu Gwarchod		0	(279,035)	(279,035)
0	(16,170)	(16,170)	Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau		0	(29,364)	(29,364)
<b>747,008</b>	<b>(725,495)</b>	<b>21,513</b>	<b>(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</b>		<b>759,154</b>	<b>(757,362)</b>	<b>1,792</b>
0	11,327	11,327	(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ailbriso Asedau Eiddo, Gwaith ac Offer		7,493	(2,171)	5,322
0	44,592	44,592	Ailfesur Rhwymedigaethau Buddion Net Diffiniedig		0	12,186	12,186
<b>0</b>	<b>55,919</b>	<b>55,919</b>	<b>Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Eraill</b>		<b>7,493</b>	<b>10,015</b>	<b>17,508</b>
<b>747,008</b>	<b>(669,576)</b>	<b>77,432</b>	<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>		<b>766,647</b>	<b>(747,347)</b>	<b>19,300</b>

## Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n cael eu cydnabod gan y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r asedau net (asedau ar ôl didynnu'r rhwymedigaethau) yn gyfatebol i'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw gan y Cyngor. Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadrodd fesul dau gategori. Y categori cyntaf yw'r cronfeydd y mae modd eu defnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y mae modd i'r Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd. Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rhai nad oes modd i'r Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae cronfeydd wrth gefn yn y categori yma'n cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Gronfa Ailbrisiu Wrth Gefn) a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru sydd i'w gweld yn adran 'Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau' y Datganiad ynglŷn â Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.



## Y Fantolen ar 31 Mawrth 2018

31/03/17				31/03/18	
£'000			Nodwch:	£'000	£'000
	<b>Asedau Hirdymor</b>	Eiddo, Gwaith ac Offer:	7.0		
587,997		Tir ac Adeiladau Eraill		576,234	
431,023		Seilwaith		431,638	
9,615		Cerbydau, Gwaith ac Offer		8,263	
4,078		Asedau Cymunedol		3,677	
15,620		Asedau yn cael eu Hadeiladu		64,050	
145		Asedau Treftadaeth		145	
2,797		Asedau Hirdymor Anniriaethol	8.0	2,962	
1,000		Buddsoddiadau Hirdymor	9.1	4,750	
2,940		Buddsoddi mewn Is-gwmnïau		2,989	
1,385		Dyledwyr Hirdymor		1,259	
<b>1,056,600</b>		<b>CYFANSWM ASEDAU HIRDYMOR</b>			<b>1,095,967</b>
	<b>Asedau Cyfredol</b>	Buddsoddiadau Byrdymor	9.1	14,591	
13,752		Asedau a Gaiff eu Dal i'w Gwerthu	12.0	3,179	
4,215		Asedion Anniriaethol Byrdymor		498	
730		Rhestrau Eiddo		627	
725		Dyledwyr Byrdymor	10.0	53,397	
51,185		Arian Parod a Chyfwerth	11.0	7,382	
2,399					
<b>73,006</b>		<b>CYFANSWM ASEDAU CYFREDOL</b>			<b>79,674</b>
	<b>Rhwymedigaethau Cyfredol</b>	Arian Parod a Chyfwerth	11.0	(14,352)	
(16,646)		Benthyca Byrdymor	9.1	(78,926)	
(39,997)		Rhwymedigaethau Byrdymor Eraill		(388)	
(379)		Darpariaethau Byrdymor	14.0	(2,120)	
(3,308)		Credydwyr byrdymor	13.0	(78,244)	
(79,135)					
<b>(139,465)</b>		<b>CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL</b>			<b>(174,030)</b>
	<b>Rhwymedigaethau Hirdymor</b>	Credydwyr Hirdymor		(6,433)	
0		Darpariaethau Hirdymor	14.0	(1,950)	
(703)		Benthyca Hirdymor	9.1	(193,889)	
(193,872)		Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill	15.0	(612,252)	
(589,179)		Cyfrif Asedau wedi'u Rhoi		(123)	
(123)					
<b>(783,877)</b>		<b>CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU HIRDYMOR</b>			<b>(814,647)</b>
<b>206,264</b>		<b>ASEDAU NET</b>			<b>186,964</b>
					<i>Parhad trosodd...</i>

10,720	<b>Cronfeydd Wrth</b>	Balans Cronfa'r Cyngor	16.1	10,720	
	<b>Gefn y mae modd</b>	Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi:	16.2		
62,778	<b>eu defnyddio</b>	Cronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf, Trysorlys ac Yswiriant	16.2	65,096	
63,153		Cronfeydd Wrth Gefn Perthnasol Eraill	16.2	64,157	
2,130		Cronfa Wrth Gefn Ysgolion Dirprwyedig		3,397	
1,443		Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf y mae modd eu defnyddio	16.3	1,127	
8,572		Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	16.4	7,396	
144		Cronfa wrth Gefn Yswiriant MGCC		173	
<b>148,940</b>		<b>CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN Y MAE MODD EU DEFNYDDIO</b>			<b>152,066</b>
196,695	<b>Cronfeydd Wrth</b>	Cronfa Ailbrisiu Wrth Gefn	17.1	172,236	
11	<b>Gefn nad oes</b>	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig		6	
450,463	<b>modd eu</b>	Cyfrif Addasu Cyfalaf	17.2	485,926	
(5,719)	<b>defnyddio</b>	Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	17.3	(5,656)	
(579,048)		Cronfa Bensiwn Wrth Gefn	17.4	(611,858)	
(98)		Cyfrif Ad-dalu Tâl Anghyfartal		0	
(4,980)		Cyfrif Absenoldebau Byrdymor Cronedig wedi'u Had-dalu		(5,756)	
<b>57,324</b>		<b>CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN NAD OES MODD EU DEFNYDDIO</b>			<b>34,898</b>
<b>206,264</b>		<b>CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN</b>			<b>186,964</b>

## **Datganiad Llif Arian**

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerth y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chyfwerth trwy ddsbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredol yn ddangosydd allweddol o'r graddau y caiff gweithrediadau'r Cyngor eu hariannu trwy incwm o drethi neu grantiau, neu gan y rhai sy'n derbyn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y mae all-lif arian wedi ei wneud ar gyfer adnoddau sy wedi'u bwriadu i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae llif arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragfynegi hawliadau ar lif arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) i'r Cyngor.

## Datganiad Llif Arian 2017/18

2016/17			2017/18	
£'000		<i>Nodwch:</i>	£'000	£'000
21,513	Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau		1,792	
(72,943)	Addasiadau i Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Darparu Gwasanaethau am Symudiadau sy ddim yn arian parod	18.0	(72,628)	
20,517	Addasiadau ar gyfer Eitemau wedi'u cynnwys yn y Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi a Chyllido	19.0	30,089	
<b>(30,913)</b>	<b>Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol</b>			<b>(40,747)</b>
47,795	Gweithgareddau Buddsoddi	21.0	74,452	
(12,494)	Gweithgareddau Ariannu	22.0	(40,982)	33,470
<b>4,388</b>	<b>Cynnydd Net neu Gostyngiad mewn Arian Parod neu Gyfwerth</b>			<b>(7,277)</b>
9,859	Arian Parod ac Arian Cyfwerth ar Ddechrau'r Cyfnod Adrodd	11.0		14,247
<b>14,247</b>	<b>Arian Parod ac Arian Cyfwerthyn ar Ddiwedd o'r Cyfnod Adrodd</b>	11.0		<b>6,970</b>

## **Dadansoddiad o Wariant a Chyllid**

Mae'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn dwyn ynghyd cyflawniad y Cyngor sy'n cael ei adrodd ar sail gwariant wedi'i fesur yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol gyda chostau diffiniedig statudol i Gronfa'r Cyngor.

Mae arferion cyfrifo priodol yn mesur yr adnoddau sy wedi'u cynhyrchu a'u defnyddio yn ystod y flwyddyn gan gynnwys pethau fel defnydd eiddo (dibrisiant) a gwerth y buddion pensiwn sy wedi'u hennill gan y gweithwyr. Mae darpariaethau statudol yn pennu faint o wariant yr awdurdod y mae'n rhaid ei fodloni trwy dreth y cyngor bob blwyddyn.

Mae'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn;

- dangos cymhariaeth ar gyfer pob un o wasanaethau'r Cyngor o'r adnoddau net wedi'u cymhwysu a'r tâl net yn erbyn Treth y Cyngor, a
- rhoi cyfle i egluro gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddau.

Mae'r dadansoddiad yma yn hyrwyddo atebolrwydd a stiwardiaeth trwy ddarparu cyswllt uniongyrchol â phroses gwneud penderfyniadau blynyddol y Cyngor a'i gyllideb h.y. Cronfa'r Cyngor. Mae'n dilyn fframwaith cyflawniad y Cyngor.

## Datganiad Dadansoddi Gwariant a Chyllid am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

	2016/17		
	Incwm a Gwariant i'w Codi ar Gronfa'r Cyngor	Addasiadau rhwng Cyllid a Sail Cyfrifyddu	Gwariant Net ar gyfer y Symiau Cyfwerth ar gyfer CI&ES
	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen	59,467	21,664	81,131
Uwchdran y Prif Weithredwr	11,480	225	11,705
Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes	175,552	14,638	190,190
Cyfadrn y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	133,865	9,010	142,875
Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan	74,471	(46,767)	27,704
Cyd-bwyllgorau	0	3,145	3,145
<b>Costau'r gwasanaethau</b>	<b>454,835</b>	<b>1,915</b>	<b>456,750</b>
<b>Incwm a Gwariant Eraill</b>	<b>(454,835)</b>	<b>19,598</b>	<b>(435,237)</b>
<b>(Gwarged) neu Ddiffyg Ariannol</b>	<b>0</b>	<b>21,513</b>	<b>21,513</b>
Cronfa'r Cyngor yn agor ar 31 Mawrth 2016	(10,720)		
Ar ôl didynnu'r (Gwarged) Diffyg yng Nghronfa'r Cyngor yn Blwyddyn	0		
<b>Cronfa'r Cyngor yn cau ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>(10,720)</b>		

## Datganiad Dadansoddi Gwariant a Chyllid am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

	2017/18		
	Incwm a Gwariant i'w godi ar Gronfa'r Cyngor	Addasiadau rhwng Cyllid a Sail Cyfrifyddu	Gwariant Net ar gyfer y Symiau Cyfwerth ar gyfer CI&ES
	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen	60,807	15,759	76,566
Uwchdran y Prif Weithredwr	11,881	1,593	13,474
Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes	178,078	11,638	189,716
Cyfadrn y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	138,233	12,800	151,033
Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan	69,941	(45,546)	24,395
Cyd-bwyllgorau	0	174	174
<b>Costau'r gwasanaethau</b>	<b>458,940</b>	<b>(3,582)</b>	<b>455,358</b>
<b>Incwm a Gwariant Eraill</b>	<b>(458,940)</b>	<b>5,374</b>	<b>(453,566)</b>
<b>(Gwarged) neu Ddiffyg Ariannol</b>	<b>0</b>	<b>1,792</b>	<b>1,792</b>
Cronfa'r Cyngor yn agor ar 31 Mawrth 2017	(10,720)		
Ar ôl didynnu'r (Gwarged) Diffyg yng Nghronfa'r Cyngor yn Blwyddyn	0		
<b>Cronfa'r Cyngor yn cau ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>(10,720)</b>		

## **Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol Craidd**

### **1.0 Polisiau Cyfrifyddu Sylweddol**

#### **1.1 Croniadau Gwariant ac Incwm**

Mae cyfrifon y Cyngor wedi'u paratoi ar sail cronriad incwm a gwariant yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn sicrhau bod gweithgaredd yn cael ei gyfrif yn ystod y flwyddyn y bydd yn digwydd a ddim pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Mae refeniw o werthu nwyddau neu wasanaethau yn cael ei gydnabod pan fydd y Cyngor yn trosglwyddo risgiau a gwobrwyon sylweddol nwyddau, neu'n darparu'r gwasanaethau i'r prynwr, ac mae'n debyg y bydd y buddion economaidd neu'r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodion yn llifo i'r Cyngor.

Mae cyflenwadau yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fyddan nhw'n cael eu defnyddio. Pan fo dyddiad y Fantolen yn disgyn rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio, lle maen nhw'n arwyddocaol, byddan nhw'n cael eu nodi fel rhestr eiddo ar y Fantolen.

Caiff treuliau mewn perthynas â gwasanaethau wedi'u derbyn (gan gynnwys gwasanaethau sy wedi'u darparu gan weithwyr) eu nodi'n wariant pan fydd y gwasanaethau yn cael eu derbyn yn hytrach na phan fydd y taliadau'n cael eu gwneud.

Mae'r llog sy wedi'i dderbyn ar fuddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn y drefn honno fel incwm a gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff hyn ei wneud ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian sy wedi'i bennu gan y contract. Mae addasiadau statudol sy'n ymwneud â diddordeb yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae trafodion cyfalaf hefyd yn cael eu cofnodi ar sail cronni, fel sy wedi'i ragnodi gan y Cod Ymarfer ar Gadw Cofnodion Awdurdodau Lleol.

#### **1.2 Arian Parod a Chyferwerth**

Mae arian parod a chyferwerth sydd ar gael i'w ddefnyddio ar unwaith gan y Cyngor. Caiff ei ystyried bod eitemau o'r fath yn falansau arian sy wedi'u cadw yng nghyfrifon banc y Cyngor (ar ôl didynnu sieciau heb eu cyflwyno), unrhyw falans banc wedi'i gorgodi a balansau arian mân.

Chaiff buddsoddiadau byrdymor ddim eu hystyried yn arian parod neu gyferwerth gan fod y rhain ddim ar gael yn rhydd heb orfodi cosbau.

#### **1.3 Rhwymedigaethau Amodol**

Mae rhwymedigaeth amodol yn eitem gwariant posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol a chaiff ei bodolaeth ei chadarnhau yn unig gan fodolaeth un neu ragor o achlysuron ansicr yn y dyfodol sy ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y sefydliad.

Dydy rhwymedigaethau amodol o'r fath ddim yn cael eu hadlewyrchu yn y Darpariaethau yn y Fantolen oherwydd efallai fydd hi ddim yn debygol y bydd angen all-lif adnoddau neu fydd dim modd mesur swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Caiff rhwymedigaethau amodol perthnasol eu datgelu yn y Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol Craidd.

#### 1.4 **Buddion Gweithwyr**

Caiff yr holl gostau sy'n ymwneud â buddion gweithwyr eu cyfrifo ar sail cronni.

##### **Buddion Terfynu**

Mae'r symiau hyn yn daladwy gan y Cyngor o ganlyniad i benderfynu terfynu cyflogaeth unigolyn cyn y dyddiad ymddeol arferol, neu benderfyniad gweithiwr i dderbyn diswyddo gwirfoddol. Caiff costau o'r fath eu codi ar sail cronniadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fydd terfyniadau'n cynnwys gwella pensiynau, mae darpariaethau statudol yn mynnu bod tâl yn cael ei godi ar Gronfa'r Cyngor ar gyfer y swm sy'n daladwy gan y Cyngor. Yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn, mae rhaid neilltuo arian o'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn, ac iddi, i ddileu rhagamcanion ar gyfer gwelliannau pensiwn a nodi'r symiau sydd wedi'u talu, neu sy'n daladwy, yn eu lle.

##### **Pensiynau**

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn ar wahân sy'n diwallu anghenion gweithwyr mewn gwasanaethau penodol:

Athrawon – Mae hwn yn gynllun heb ei ariannu sy'n cael ei weinyddu gan Bensiynau Athrawon ar ran yr Adran Addysg. Caiff cyfraddau cyfraniadau eu gosod ar sail cronfa dybiannol. Er bod hwn yn Gynllun Budd Diffiniedig, does dim modd i Bensiynau Athrawon nodi cyfran y Cyngor o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol ac, felly, mae'r Cyngor wedi cyfrif am ei gyfraniadau i'r cynllun fel pe bai'n Gynllun Cyfraniad Diffiniedig.

Gweithwyr eraill – mae CBS Rhondda Cynon Taf yn gweinyddu cronfa ar ran gweithwyr o dan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, y mae cyfraddau cyfraniad yn cael eu pennu gan actiwari'r Gronfa yn seiliedig ar brisiadau actiwaraid tair blynedd. O dan y rheoliadau, caiff cyfraddau cyfraniad eu gosod er mwyn arwain at gyllido'n llawn atebolrwydd cyffredinol y Gronfa dros amser. Caiff y Cynllun Llywodraeth Leol ei gyfrifo fel Cynllun Budd Diffiniedig.

- Mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf y mae modd eu priodoli i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull uned rhagamcanol – h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a fydd yn cael eu gwneud mewn perthynas â buddion ymddeol sy wedi'u hennill hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant gweithwyr, ac ati, ac amcangyfrifon enillion ar gyfer gweithwyr presennol.
- Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 2.6% yn 2017/18 (2.6% yn 2016/17).



- Mae asedau'r gronfa bensiwn y mae modd eu priodoli i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar eu gwerth teg:
 

Gwarantau wedi'u dyfynnu	–	Pris Bid Cyfredol
Gwarantau fesul Uned	–	Pris Bid Cyfredol
Eiddo	–	Gwerth y Farchnad
- Caiff y newid yn y rhwymedigaeth pensiwn net ei ddadansoddi fel a ganlyn:
  - Cost Gwasanaeth Cyfredol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd gwasanaeth a gafodd eu hennill eleni. Mae'r rhain wedi'u dyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio gyda hwy ynghyd â threuliau gweinyddol.
  - Cost Gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau sy'n deillio o benderfyniadau yn ystod y flwyddyn gyfredol y mae eu heffaith yn ymwneud â blynyddoedd gwasanaeth a gafodd eu hennill mewn blynyddoedd cynt. Mae'r rhain wedi'u debydu i'r (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
  - Cost Llog – y cynnydd disgwylidig yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn wrth iddyn nhw symud blwyddyn yn nes at gael eu talu. Mae hyn wedi'i ddebydu i adran Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
  - Dychweliad Disgwyliedig ar Asedau – y dychweliad buddsoddi blynyddol ar asedau'r gronfa y mae modd ei briodoli i'r Cyngor yn seiliedig ar gyfartaledd y dychweliad hirdymor disgwylidig. Mae hyn wedi'i gredydu i adran Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
  - Enillion a Cholledion Actiwaraid – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiwn net sy'n codi oherwydd bod digwyddiadau ddim wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a gafodd eu gwneud yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu oherwydd bod yr actiwaraid wedi diweddarau eu rhagdybiaethau ariannol, demograffig neu brofiad. Mae'r rhain wedi'u debydu neu eu credydu i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn.
  - Cyfraniadau wedi'u Talu i'r Gronfa Bensiwn – arian parod fel cyfraniadau cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; heb ei gyfrif fel treuliau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mewn perthynas â budd-daliadau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn mynnu bod Balans Cronfa'r Cyngor talu'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn, ddim y swm sy wedi'i gyfrifo yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod neilltuadau arian i'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau ac oddi yno. Mae hyn yn cael ei wneud i gael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol ac yn eu disodli â'r arian sy wedi'i dalu i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn, felly yn mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na bod buddion yn cael eu hennill gan weithwyr.

## **Buddion Dewisol**

Mae modd i'r Cyngor wneud dyfarniadau dewisol o fuddion ymddeol os yw ymddeoliadau cynnar yn digwydd. Caiff unrhyw rwymedigaethau o'r fath sy'n codi eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad i wneud y wobr.

## **Absenoldeb Wedi'i Gronni**

Mae'r Cyngor yn cronni ar gyfer gwyliau staff sy wedi'u hennill ond sydd heb eu cymryd ym mhob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau i liniaru effaith y tâl hwn ar Gynghorau. Mae'r Cyngor yma wedi manteisio ar y rheoliadau a chodi'r costau ychwanegol i'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig Byrdymor wedi'u Cydadfer mewn Cronfeydd Wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio.

### **1.5 Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen**

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yw'r rhai ffafriol ac anffafriol sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r Rheoliadau yn datgan y bydd y Datganiad o Gyfrifon yn cael ei awdurdodi i'w gyhoeddi pan fydd y Swyddog Cyllid Cyfrifol wedi'i ardystio. Mae'r Rheoliadau yn mynnu bod ardystiad o gyfrifon heb eu harchwilio yn digwydd erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r Rheoliadau yn mynnu bod y Datganiad o Gyfrifon wedi'i archwilio yn cael ei gyhoeddi erbyn 30 Medi. Bydd y Datganiad o Gyfrifon sy'n cael ei gyhoeddi yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd hyd at y dyddiad y cafodd y cyfrifon eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Dyma'r dyddiad y mae'r Swyddog Cyllid Cyfrifol yn ail-dystio'r cyfrifon.

Mae modd nodi dau fath o ddigwyddiad;

- a) y rhai sy'n darparu tystiolaeth o amodau sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd (digwyddiadau addasu a fydd yn cael eu cydnabod yn y datganiadau ariannol);
- b) y rhai sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd (digwyddiadau sy ddim yn addasu sydd heb gael eu hadlewyrchu mewn datganiadau cyfrifyddu ond, pan fo'n berthnasol, bydd datgeliad yn cael ei wneud yn y Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol Craidd).

### **1.6 Offerynnau Ariannol**

Mae Offerynnau Ariannol yn cynnwys Rhwymedigaethau Ariannol ac Asedau Ariannol.

#### **Rhwymedigaethau Ariannol**

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu gweithredu ar gost amorteiddio. Mae taliadau blyneddol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm gweithredu'r atebolrwydd, wedi'i luosi gan y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Os oes gan fenthyciad un gyfradd llog ar hyd ei dymor, y swm sy'n cael ei gyflwyno yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n ddyledus, a'r llog sy'n cael ei godi ar y

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y cytundeb benthyciad. Lle mae gan fenthyciadau gyfradd sy'n is yn y blynyddoedd cychwynnol, mae'r tâl cyfradd llog effeithiol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn "llyfnhau" y gwahaniaeth yn y gyfradd llog. Mae'r gwahaniaeth rhwng y tâl cyfradd llog effeithiol a'r gwir log sy wedi'i dalu yn cael ei addasu yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Yn achos y rhan fwyaf o fenthyciadau, mae hyn yn golygu mai'r swm sy'n cael ei gyflwyno yn y Fantolen yw'r prifswm dyledus sy'n ad-daladwy a'r llog sy wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn unol â'r cytundeb benthyciad.

Mae enillion (gostyngiadau) a cholledion (premiymau) ar ail-brynu neu setliad cynnar y benthyciad yn cael eu credydu / eu debydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ym mlwyddyn yr ail-brynu / setliad. Serch hynny, pan gaiff ei ystyried bod ail-brynu / setliad cynnar yn addasiad o offerynnau presennol, mae'r disgowntiau / premiymau yn cael eu hymgorffori i werth yr offeryn ac yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y benthyciad trwy addasiad i'r gyfradd llog effeithiol.

Pan fo premiymau wedi'u codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei rhannu dros y blynyddoedd i ddod yn gyfartal ag oes y benthyciad newydd neu'r benthyciad cyfnewid. Pan fo gostyngiadau wedi'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn mynnu bod yr effaith yn cael ei rhannu dros oes y benthyciad cyfnewid neu ddeng mlynedd, os yn gynharach.

### **Asedau Ariannol**

Caiff Asedau Ariannol eu dosbarthu'n ddau gategori:

- Benthyciadau a Symiau i'w Derbyn – asedau sydd â thaliadau sefydlog neu benderfynol ond sydd heb eu dyfynnu mewn marchnad weithgar.
- Asedau sydd ar gael i'w gwerthu – asedau sydd â phris y farchnad wedi'i ddyfynnu a / neu sydd heb daliadau sefydlog na phenderfynol.

Dim ond "Benthyciadau a Symiau i'w Derbyn" sydd gan CBS Rhondda Cynon Taf.

Mae Benthyciadau a Symiau i'w Derbyn yn cael eu cydnabod i ddechrau ar werth teg ac yna'n cael eu gweithredu ar gost wedi'i amorteiddio. Mae Llog i'w Derbyn ac Incwm Tebyg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn seiliedig ar swm gweithredu'r ased sy'n cael ei luosi gan y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Mae hyn yn golygu mai'r gwerth yn y Fantolen yw'r prifswm yn ogystal ag unrhyw incwm cronedig, ac mae'r incwm sy wedi'i gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn seiliedig ar y gyfradd sy wedi'i dyfynnu yn y cytundeb benthyciad.

Mae'r llog sy'n ddyledus ond heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn wedi'i gategoreiddio yn y Fantolen fel ased neu rywmedigaeth gyfredol. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'r ased neu'r rhwymedigaeth ariannol y mae'n ymwneud ag ef yn offeryn hirdymor.

## 1.7 **Asedau Anniriaethol**

Asedau anniriaethol yw'r Asedau Hirdymor hynny heb sylwedd ffisegol ond mae modd eu hadnabod gan fynediad at fuddion economaidd yn y dyfodol sy wedi'u rheoli gan y Cyngor trwy warchodaeth neu hawliau cyfreithiol.

Caiff meddalwedd a thrwyddedau eu cyfalafu ar gost ac maen nhw'n cael eu hamorteiddio ar hyd eu hoes economaidd, sy'n cael ei hadolygu ar ddiwedd pob cyfnod adrodd a'i diwygio os oes angen.

Mae ased yn cael ei brofi am amhariad pryd bynnag y mae arwydd bod amhariad posib ar yr ased. Caiff unrhyw golledion eu nodi i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae unrhyw enillion neu golled sy'n deillio o waredu neu rwystro ased anniriaethol yn cael ei adlewyrchu yn yr adran Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fydd gwariant ar asedau anniriaethol yn addas i'w ystyried yn wariant cyfalaf at ddibenion statudol, ni fydd caniatâd i amorteiddiad, na cholledion amhariad nac enillion a cholledion gwaredu gael effaith ar Falansau Cronfa'r Cyngor. Caiff y rhain eu gwrthdroi yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

## 1.8 **Prydlesi**

Mae p'un a yw prydles yn gyllid neu'n weithredol yn dibynnu ar sylwedd y trafodiad yn hytrach na'r ffurf gyfreithiol.

Caiff prydlesi eu hadolygu ar y cychwyn a'u dosbarthu fel cyllid neu'u gweithredu trwy adolygu trefniadau fel:

- Trosglwyddo perchnogaeth yr ased ar ddiwedd y brydles.
- Opsiwn i brynu ased am bris is na gwerth teg.
- Cyfnod y brydles ar gyfer rhan fawr o oes economaidd yr ased.
- Gwerth presennol isafswm taliadau prydles bron cyfwerth â gwerth teg yr ased
- Asedau ar brydles yn arbenigol a dim ond y prydlesi sy'n cael eu defnyddio heb addasiadau mawr.

Caiff prydlesi tir ac adeiladau eu hystyried ar wahân at ddiben dosbarthiad prydles.

### **Prydlesi Ariannol**

Mae prydles ariannol yn brydles sy'n trosglwyddo'r rhan fwyaf o'r risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth ased i'r prydlesi.

Pan mae'r Cyngor yn brydlesau, caiff ased a rhwymedigaeth ei gydnabod ar ddechrau'r brydles. Caiff yr ased ei ddibrisio a'i ailbriso wedyn fel pe bai'n eiddo cyfreithiol y Cyngor. Mae'r rhwymedigaeth yn lleihau wrth i daliadau'r brydles gael eu gwneud.

Pan fo'r Cyngor yn brydleswr, caiff y taliad prydles sy'n cael ei dderbyn ei gydnabod fel ad-daliad o'r prifswm gydag elfen llog y taliad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nid yw unrhyw ased yn cael ei gydnabod.

## Prydlesi Gweithredol

Caiff unrhyw brydles heblaw Prydles Ariannol ei ystyried yn Brydles Weithredol.

Pan mae'r Cyngor yn brydleswr, mae taliadau prydles yn cael eu cydnabod fel traul yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail unionsyth oni bai fod sail systematig arall yn cynrychioli'n well y buddion sy'n cael eu derbyn

Lle mae'r Cyngor yn brydleswr, dylai'r incwm gael ei gydnabod ar sail unionsyth oni bai fod sail systematig arall yn cynrychioli'n well y manteision sy'n cael eu derbyn. Bydd asedau o dan brydles weithredol yn destun dibrisiad yn yr un modd ag asedau eraill o fewn yr un categori.

### 1.9 Eiddo, Gwaith ac Offer

Mae asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, ar gyfer eu rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol, ac y mae disgwyl iddyn nhw gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol yn cael eu dosbarthu fel Eiddo, Gwaith ac Offer. Caiff dibrisiant ei godi ar sail unionsyth ar y rhan fwyaf o'r asedau diriaethol sydd ag oes ddefnyddiol gyfyngedig, ac eithrio tir sydd ddim yn ddibrisiadwy. Mae bywydau asedau wedi'u dynodi'n unigol.

#### 1.9.1 Cydnabyddiaeth

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Gwaith ac Offer ei gyfalafu ar sail cronni, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y buddion economaidd neu'r potensial gwasanaeth yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Cyngor, ac mae modd mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi de-minimis gwerth £10,000 ar gyfer cydnabod gwariant o'r fath fel cyfalaf. Mae gwariant ar asedau dyw'r Cyngor ddim yn berchen arnyn nhw, ond lle mae'n derbyn buddion parhaus, hefyd wedi'i gyfalafu ar sail croniadau. Er ei fod wedi'i gyfalafu, caiff y gwariant yma ei amorteiddio yn ystod y flwyddyn y mae'n digwydd.

Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi de-minimis ar gyfer cofnodi asedau yn y gofrestr asedau. Mae lfelelau De-minimis yn eu lle fel a ganlyn:

Math o Ased	£'000
Tir ac Adeiladau	20
Cerbydau	10
Gwaith ac Offer	10
Seilwaith	20
Asedau Cymunedol	Dim

#### 1.9.2 Mesuriad

Yn gyntaf, caiff asedau eu mesur ar gost, sy'n cynnwys:

- Y pris prynu
- Unrhyw gostau y mae modd eu priodoli i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol fel bod modd iddo weithredu yn y modd y roedd rheolwyr yn bwriadu.

- Yr amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle lle'r oedd wedi'i leoli

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthycu.

Mae cost asedau sy wedi'u caffael trwy gyfrwng heblaw pryniant yn cael ei ystyried yn werth teg yr asedau, oni bai bod dim sylwedd masnachol gan y caffaeliad (h.y. fydd hyn ddim yn arwain at amrywiad yn llifoedd arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, lle caiff ased ei gaffael trwy gyfnewid, cost y caffael yw swm gweithredu'r ased sy wedi'i roi gan y Cyngor.

Caiff asedau sy wedi'u rhoi eu mesur yn y lle cyntaf ar werth teg. Mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw ystyriaeth sy wedi'i thalu yn cael ei gredydu i'r adran Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai fod y rhodd wedi'i wneud yn amodol. Hyd nes bydd yr amodau'n cael eu bodloni, bydd yr enillion yn cael eu cynnal yng Nghyfrif Asedau wedi'u Rhoi. Lle caiff enillion eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, byddan nhw'n cael eu symud o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Caiff gwerth asedau Hirdymor Diriaethol ei bennu ar y sail argymhellion CIPFA ac yn unol â'r Datganiad o Egwyddorion Prisio Asedau a Nodiadau Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Yn gyffredinol, caiff asedau Eiddo, Gwaith ac Offer eu prisio ar sail gwerth eu defnydd presennol (EUV) sy'n cael ei ystyried yn "werth cyfredol". Mae eitemau arbenigol (e.e. ysgolion a mynwentydd) yn cael eu prisio ar sail cost adnewyddu dibrisiedig (DRC). Mae'r dull hwn o brisio yn cyfrifo cost codi adeiladau a strwythurau cyfatebol modern, a'u dibrisio i gyfrif am oedran ac oes economaidd yn y dyfodol. Enw'r cyfrifiad cost yma yw Prisiad Cyfwerth Modern (MEV). Yn gyffredinol, caiff eiddo buddsoddi eu prisio ar sail gwerth y farchnad agored (OMV). Mae asedau seilwaith yn cael eu cynnwys gan ddefnyddio cost hanesyddol, a'u haddasu i adlewyrchu dibrisiant. Caiff ei ystyried bod gan heolydd wedi'u mabwysiadu, sy wedi'u hadeiladu gan ddatblygwyr preifat gost hanesyddol i'r Cyngor o sero ac felly dydyn nhw ddim yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Gyfrifon.

Lle dydy asedau ddim yn cael eu defnyddio ond ddim yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Asedau a Gaiff eu Dal i'w Gwerthu, yna maen nhw'n cael eu hystyried yn Asedau Gwarged yng nghategoriâu Eiddo, Gwaith ac Offer a Thir ac Adeiladau Eraill. Caiff Asedau Gwarged eu prisio ar werth teg. Gwerth teg yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn rhwng cyfranogwyr parod y farchnad. Mae angen ystyried defnydd gorau ac uchaf yr ased. Mae'r mewnbwnau i'r technegau prisio mewn perthynas â'r asedau hyn wedi'u categoreiddio yn ôl y lefelau hierarchaeth canlynol:

Lefel 1 – prisiau wedi'u dyfynnu mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer yr un asedau neu rwymedigaethau mae modd i'r Cyngor gael mynediad atyn nhw ar y dyddiad mesur.

Lefel 2 – mewnbwn y mae modd sylwi arno heblaw prisiau wedi'u dyfynnu ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth. Er enghraifft, amodau'r farchnad; prisiau gwerthu diweddar.

Lefel 3 – mewnbwn nad oes modd sylwi arno, er enghraifft, tybiaethau ynghylch twf rhent; cyfraddau disgownt, ac ati

Mae mesur gwerth teg yn gwahaniaethu rhwng mesuriadau sy'n digwydd yn rheolaidd h.y. ar ddiwedd pob cyfnod, er enghraifft asedau dros ben, a'r rhai sy ddim yn cael eu mesur yn rheolaidd ar amgylchiadau penodol, er enghraifft asedau a gaiff eu dal i'w gwerthu.

Yn y cyfrifon mae tua 137 o Asedau Gwarged gyda gwerth teg cylchol o £2.8 miliwn. Caiff y mwyafrif o'r asedau eu priso ar fewnbynau lefel 2, ac eithrio un ased sy wedi'i brisio yn £800k gan ddefnyddio mewnbynau lefel 3. Ar gyfer yr ased yma, mae addasiad wedi'i wneud i fewnbynau lefel 2 i ystyried cyflwr yr ased.

Caiff asedau cymunedol eu priso ar sail cost hanesyddol. Does gan y rhain ddim oes ddefnyddiol y mae modd ei hadnabod ac maen nhw'n asedau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal yn barhaus. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau a chofebion.

Caiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu priso yn ôl cost hanesyddol nes iddyn nhw ddod yn weithredol. Pan fyddan nhw'n dod yn weithredol, maen nhw'n cael eu hailbrisio ar sail berthnasol.

Mae Asedau Treftadaeth yn cael eu cydnabod yn yr un modd os ydynt yn asedau anweithredol materol sy'n cael eu cynnal yn unig at ddibenion diwylliannol neu ddibenion ennill gwybodaeth. Mae cost neu werth y farchnad yr asedau yma yn cael eu cydnabod, ac mae gwerth yr asedau'n cael eu hadolygu am amhariad ond dydyn nhw ddim yn cael eu dibrisio.

Lle nad oes tystiolaeth o werth cyfredol yn y farchnad oherwydd natur arbenigol ased, caiff cost adnewyddu dibrisiedig (DRC) ei defnyddio fel amcangyfrif o'r gwerth cyfredol. Lle mae asedau sy ddim yn eiddo sydd ag oes ddefnyddiol fyr neu werthoedd isel (neu'r ddau), caiff sail cost hanesyddol dibrisiedig ei defnyddio fel procsi am werth cyfredol.

Caiff asedau sy wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar y gwerth presennol eu hailbrisio'n ddigonol i sicrhau nad yw eu swm cario yn sylweddol wahanol i'w gwerth presennol ar ddiwedd y flwyddyn, ond o leiaf bob pum mlynedd. Lle mae prisiau yn cynyddu, caiff credydau eu gwneud i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i gydnabod enillion sy heb eu gwireddu. Yn eithriadol, mae'n bosibl i enillion gael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr lle maen nhw'n codi o ganlyniad i wrthdroi colled a gafodd ei godi yn flaenorol ar wasanaeth.

Lle caiff gostyngiadau mewn gwerth eu nodi, byddan nhw'n cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

- Os oes balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, caiff swm gweithredu'r ased ei nodi yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig).
- Lle does dim balans yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn neu falans annigonol, caiff swm gweithredu'r ased ei nodi yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys enillion ailbrisio sy wedi'u cydnabod ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad gweithredu ffurfiol y gronfa. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw wedi eu cyfuno i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

### 1.9.3 Amhariad

Caiff asedau eu hasesu trwy gydol y flwyddyn i ystyried a oes unrhyw arwydd bod amhariad ar ased. Lle mae arwyddion yn bodoli ac mae unrhyw wahaniaethau posibl yn cael eu hamcangyfrif yn rhai perthnasol, mae'r swm y mae modd ei adfer o'r ased yn cael ei amcangyfrif ac, os yw hyn yn llai na swm gweithredu'r ased, caiff colled amhariad am y diffyg ei chydabod.

Lle mae colledion amhariad wedi'u nodi, maen nhw'n cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

- Os oes balans enillion ailbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn, caiff swm gweithredu'r ased ei nodi yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig).
- Lle does dim balans yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn neu falans annigonol, caiff swm gweithredu'r ased ei nodi yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei wrthdroi wedyn, mae'r gwrthdroad yn cael ei greddydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant a fyddai wedi cael ei godi pe bai'r golled heb ei chydabod.

### 1.9.4 Dibrisiant

Caiff dibrisiant ei godi ar sail llinell syth ar y rhan fwyaf o eiddo, gwaith ac offer. Mae oes yr holl asedau wedi'i nodi ar sail unigol.

Caiff eithriadau eu gwneud ar gyfer:

- Asedau Treftadaeth.
- Asedau heb oes derfynol ddefnyddiol mae modd ei phennu megis tir rhydd-ddaliol.
- Asedau sy ddim ar gael eto i'w defnyddio h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu, ac asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu.

Pan fo gan eitem o Eiddo, Gwaith ac Offer gydrannau mawr y mae eu costau'n sylweddol o'u cymharu â chyfanswm cost yr eitem, mae'r cydrannau'n cael eu dibrisio ar wahân.

Mae enillion ailbriso hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Bydd y swm yma yn hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant y gwerth cyfredol sy'n cael ei godi ar asedau, a'r dibrisiant a fyddai wedi'i godi ar sail eu cost hanesyddol,

Caiff dibrisiant ei gyfrif yn ystod blwyddyn y caffaeliad ac nid yn ystod y flwyddyn y caiff yr ased ei waredu.

### 1.9.5 Gwarediadau ac Asedau a Gaiff eu Dal i'w Gwerthu

Pan fydd hi'n debygol y bydd swm gweithredu ased yn cael ei adennill yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ei ddefnydd parhaus, caiff ei ail-ddosbarthu fel Ased a Gaiff ei Dal i'w Werthu. Caiff yr asedau hyn eu mesur gan ddefnyddio'r gwerth



isaf a gafodd ei roi iddyn nhw pan gafodd ei gytuno y bydden nhw'n cael eu gwerthu, a gwerth teg ar ôl didynnu'r costau gwerthu.

Mae modd rhannu'r prisiad yn y fantolen fel a ganlyn:

	£'000
Gwerth teg	842
Gwerth gweithredol	2,337
Cyfanswm y gwerth yn y Fantolen	3,179

Caiff y gwerth teg anghylchol ei fesur gan ddefnyddio lefel 2 yn yr hierarchaeth mewnbwn (edrychwch ar nodyn 1.9.2 am esboniad o lefelau). Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg ar ôl didynnu costau gwerthu, caiff y golled ei nodi yn y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond enillion mewn gwerth teg hyd at swm unrhyw golledion blaenorol sy wedi'u cydnabod yn y (Gwarged) neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau a gaiff eu cydnabod. Fydd dim tâl yn cael ei godi ar ddibrisiad ar Asedau a gaiff eu Dal i'w Gwerthu. Os na fydd asedau bellach yn bodloni'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau a gaiff eu Dal i'w Gwerthu, byddan nhw'n cael eu hailddosbarthu yn asedau hirdymor a'u prisio gan ddefnyddio eu swm gweithredu isaf cyn iddyn nhw gael eu dosbarthu yn Asedau a gaiff eu Dal i'w Gwerthu (wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddio neu ailbriso), a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Chaiff asedau sydd i'w gadael neu y bydd y Cyngor yn rhoi'r gorau iddyn nhw ddim eu hailddosbarthu yn Asedau a gaiff eu Dal i'w Gwerthu. Y meini prawf ar gyfer cydnabod asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu yw:

- Eu bod ar gael i'w gwerthu ar unwaith yn y cyflwr presennol.
- Bod eu gwerthu yn debygol iawn.
- Eu bod wedi'u farchnata'n weithredol.
- Bod disgwyl cwblhau'r gwerthiant o fewn 12 mis.

Pan gaiff ased ei waredu neu ei ddadgomisiynu, caiff swm yr ased yn y Fantolen (boed Eiddo, Gwaith ac Offer neu Asedau a gaiff eu Dal i'w Gwerthu) ei ddileu i'r adran Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os ydyn nhw'n digwydd) wedi'u credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar waredu (h.y. wedi'u rhyddhau yn erbyn gwerth gweithredu'r ased ar adeg cael gwared arno). Caiff unrhyw enillion ailbriso wedi'u cronni ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Os yw'r symiau sy'n cael eu derbyn ar gyfer gwaredu yn uwch na £10k, byddan nhw wedi'u categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae'n ofynnol i dderbyniadau gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf mae Modd eu Defnyddio, ac yna mae modd eu defnyddio ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fentyca (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf). Caiff derbyniadau eu neilltuo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf y mae Modd eu Defnyddio gan Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth gefn.

Nid yw gwerth dileu gwarediadau yn dâl yn erbyn Treth y Cyngor, gan fod trefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf yn darparu'n llawn ar gyfer cost asedau hirdymor. Caiff symiau eu neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

### **1.10 Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae'r Cyngor yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn ar gyfer dibenion polisi yn y dyfodol neu i gwmpasu achosion wrth gefn. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu trwy neilltuo symiau allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fydd gwariant wedi'i ariannu o gronfa wrth gefn, caiff y tâl hwnnw ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno. Er mwyn sicrhau bod hyn ddim yn dâl yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor, caiff y gwariant ei ariannu trwy addasiad yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Caiff rhai cronfeydd wrth gefn eu cadw i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau hirdymor, offerynnau ariannol, buddion ymddeoliad a chyflogeion, a dydyn nhw ddim yn cynrychioli adnoddau y mae modd eu defnyddio i'r Cyngor.

### **1.11 Gwariant Refeniw wedi'i Ariannu gan Gyfalaf o Dan Statud**

Dyma wariant sy wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn y mae modd ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond sy ddim yn arwain at greu Ased Hirdymor. Caiff ei godi fel gwariant i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fydd y Cyngor yn ariannu gwariant o'r fath o adnoddau cyfalaf, mae trosglwyddiad yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn i Gronfa'r Cyngor o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf wedyn yn gwrthdroi'r symiau sy wedi'u codi fel nad oes unrhyw effaith ar lefel Treth y Cyngor.

### **1.12 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill**

Rhaid rhoi cyfrif am grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw ar sail croniadau a'u cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo sicrwydd rhesymol bod;

- y Cyngor wedi cydymffurfio â'r amodau ar gyfer eu derbyn; a
- bydd y grant neu'r cyfraniad yn cael ei dderbyn.

Mae arian sy wedi'i roi lle nad oes sicrwydd rhesymol o'r ddau faen prawf uchod, yn cael eu dal fel credydwr yn y Fantolen.

Mae grantiau refeniw yn cael eu credydu i'r gwasanaeth perthnasol a chaiff grantiau cyfalaf eu credydu i'r adran Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle mae grant refeniw wedi'i gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond heb ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant, caiff ei neilltuo fel Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi.

Lle mae grant cyfalaf wedi'i gydnabod fel incwm ond heb ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei gredydu i Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso trwy'r Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Yn dilyn hynny, pan fydd yr arian yn cael

ei ddefnyddio, bydd y grant yn cael ei drosglwyddo o'r Cyfrif Cyfalaf Grant Heb ei Gymhwyso i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Pan fydd Swyddfa Archwilio Cymru ddim wedi llofnodi hawliad eto, mae gwerthoedd y Fantolen mewn perthynas â grantiau wedi'u cynnwys ar sail hawlio drafft heb ei archwilio.

### **1.13 Taliadau i Refeniw am Asedau Hirdymor**

Caiff gwasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu eu debydu â'r symiau canlynol i gofnodi'r gost o ddal Asedau Hirdymor yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiad sydd i'w briodoli i'r asedau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaeth perthnasol.
- Colledion adbrisió ac amharu yng ngwerth asedau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Adbrisió Wrth Gefn y mae modd i'r colledion gael eu dileu yn eu herbyn.
- Amorteiddio Asedau Anniriaethol i'w priodoli i'r gwasanaeth.

Does dim gofyn i'r Cyngor godi Treth y Cyngor i ariannu dibrisiad, adbrisiad a cholledion amharu neu amorteiddio. Felly mae'r taliadau yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael eu gwrthdroi yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

### **1.14 Darpariaeth Isafswm Refeniw/Darpariaeth ar gyfer Ad-dalu Dyled**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i bob awdurdod lleol neilltuo Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) ar gyfer adbrynu dyled. Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008, mae triniaeth cyfrifyddu'r Cyngor fel a ganlyn:

**Benthyca â Chymorth:** Mae'r ddarpariaeth isafswm refeniw o ran benthyca â chymorth yn cael ei dileu ar sail llinell syth dros 40 mlynedd, yn gysylltiedig (yn fras) â bywydau asedau'r Cyngor.

**Benthyca heb gymorth:** Mae'r ddarpariaeth isafswm refeniw yn cael ei chodi ar Falans Cronfa'r Cyngor fel a ganlyn:

- Taliadau mewn rhandaliadau cyfartal (neu'u cydweddu â buddiannau deilliadol) dros fywyd yr ased wedi'i greu (rhaid i fywyd yr ased fod wedi'i gymhwyso ar gyfer unrhyw wariant wedi ei gyfalafu o dan Gyfarwyddiadau ynglŷn â Chyfalafiad).
- Dull blwydd-dal.
- Taliadau yn unol â dibrisio'r ased; neu
- Dull priodol arall wedi'i ganiatáu gan y cyfarwyddiadau.

**Prydlesi Ariannol:** Yn unol â chyfarwyddyd darpariaeth isafswm refeniw wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, mae darpariaeth isafswm refeniw ar gyfer prydlesi ariannol yn cynrychioli prifswm ad-daliadau wedi'u gwneud gan y Cyngor (cyfeiriwch at bolisiau Prydlesi).

### **1.15 Darpariaethau**

Mae darpariaethau yn cael eu gwneud pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Cyngor sydd, mae'n fwy na thebyg, angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, ac mae modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth yna.

Mae tâl yn cael ei godi am ddarpariaethau fel gwariant ar linell y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y daw'r Cyngor yn effro i'r rhwymedigaeth. Mae'r darpariaethau'n cael eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad mantolen y gwariant y mae angen ei wneud er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, gan roi ystyriaeth i risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau maes o law, mae tâl yn cael ei godi i'r ddarpariaeth sydd eisoes yn y Fantolen. Caiff setliadau wedi'u hamcangyfrif eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Pan ddaw'n llai na thebygol y bydd bellach angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu fod setliad is na'r hyn sydd i'w ddisgwyl yn cael ei wneud), caiff y ddarpariaeth ei dychwelyd a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

### **1.16 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill**

Mae gan y Cyngor fuddiannau mewn cwmnïau ac endidau eraill sydd angen cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol.

Mae Amgen Cymru Ltd ac Amgen Rhondda Ltd yn bodloni meini prawf is-gwmnïau ac yn cael eu cynrychioli yn rhan o Asedau Hirdymor ar Fantolen y datganiadau ariannol.

Mae Capita Glamorgan Consultancy Ltd yn bodloni meini prawf cwmni cysylltiedig.

O ganlyniad i berthnasedd, dydy datganiadau ariannol grŵp wedi cael eu llunio. Bydd cyfrifon Amgen Cymru Ltd., Amgen Rhondda Ltd. a Capita Glamorgan Consultancy Ltd ar gael ar wahân ar ôl cael eu harchwilio.

Mae'r Cyngor yn cyfrannu at drefniadau Cydbwyllgor amrywiol. Yn unol ag ystyriaethau perthnasedd, mae dau o'r Cydbwyllgorau yma, sef Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD) wedi cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol y Cyngor. Mae'r broses gyfuno wedi cael ei gwneud ar sail llinell wrth linell, wedi'i chyfrif gan ddefnyddio methodoleg dosrannu rhesymol.

### **2.0 Safonau Cyfrifyddu wedi'u Cyflwyno, ond heb eu Mabwysiadu**

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r effaith ddisgwylidig newid cyfrifyddu fydd yn ofynnol gan safon newydd sydd wedi'i chyflwyno ond heb ei mabwysiadu. Mae'r datganiadau ychwanegol fydd eu hangen yn natganiadau ariannol 2017/18 a 2018/19 mewn perthynas â newidiadau cyfrifyddu sy'n cael eu cyflwyno yng Nghod 2018/19 fel a ganlyn:

- Offerynnau Ariannol Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 9
- Refeniw IFRS 15 o Gontractau gyda Chwsmeriaid gan gynnwys diwygiadau i Eglurhadau IFRS 15 i Refeniw IFRS 15 o Gontractau gyda Chwsmeriaid.

- Diwygiadau i Drethi Incwm IAS 12: Cydnabod Asedau Treth wedi'u Gohirio am Golledion heb eu Gwireddu.
- Diwygiadau i Ddatganiad o Lifoedd Arian IAS 7: Menter Datgelu.

Mae Cod 2018/19 yn ei gwneud yn ofynnol i'w weithredu o 1 Ebrill 2018 felly does dim effaith at Ddatganiad o Gyfrifon 2017/18.

Mae'r diwygiadau cwmpas cul eraill a Phwyllgor Dehongliadau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar God 2018/19 isod:

- Eiddo Buddsoddi IAS40: Trosglwyddo Eiddo Buddsoddi
- Gwelliannau Blynnyddol i Gylch Safonau IRFS 2014-16, a
- Thrafodion Arian Cyfredol Tramor ac Ystyriaeth Ymlaen Llaw IFRIC 22.

Cafodd yr uchod mo'i fabwysiadu gan yr UE mewn pryd i'w chynnwys yng Nghod 2018/19 felly maen nhw wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen ddatblygu ar gyfer Cod 2019/20.

Does dim disgwyl y bydd y diwygiadau uchod yn cael effaith berthnasol ar Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor.

### **3.0 Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisiâu Cyfrifyddu**

Wrth gymhwyso'r Polisiâu Cyfrifyddu wedi'u nodi yn nodyn 1.0, roedd rhaid i'r Cyngor wneud dyfarniadau penodol am drafodion cymhleth a'r rhai sydd ag ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Dyma'r dyfarniadau beirniadol wedi'u gwneud yn y Datganiad o Gyfrifon:

#### **3.1 Grantiau ac Amodau Cyfrannu**

Mae beirniadau'n cael eu gwneud yn nhermau amodau wedi'u hatodi i grantiau cyfalaf a referniw. Mae grantiau yn cael eu cydnabod fel incwm wrth eu derbyn/fod yn dderbyniadwy. Fydd rhwymedigaeth adenillion ddim yn cael ei chydabod, oni bai bod yna ragdybiaethau bod amodau'r grant wedi cael eu torri. O ganlyniad i hyn, mae grantiau cyfalaf sydd wedi dod i law, heb rwymedigaeth adenillion disgwylidig, yn cael eu hadlewyrchu yn y Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig nes eu bod nhw'n cael eu defnyddio i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf. Yn yr un modd, mae grantiau referniw sydd wedi dod i law heb rwymedigaeth adenillion disgwylidig sydd i'w defnyddio i ariannu gwariant yn y dyfodol yn cael eu hadlewyrchu yn y Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi ar y Fantolen.

#### **3.2 Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir**

Mae'r Cod yn cadarnhau bod triniaeth gyfrifyddu ysgolion yr awdurdod lleol yn Lloegr a Chymru yn dibynnu ar gydbwysedd rheoli. O ran ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, does dim rhaid i unrhyw asedau hirdymor y mae corff cyfreithiol arall yn berchen arny'n nhw, nid y Cyngor, megis yr Esgobaeth, fod ar y Fantolen.

Mae'r Fantolen yn cynnwys tir Ysgol Gynradd y Santes Fererid Eglwys Gatholig Rhufain a chaeau chwarae Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain gan fod y Cyngor yn berchen

arnyn nhw. Wrth adolygu'r meini prawf presennol, dydy'r Cyngor ddim o'r farn bod gyda fe unrhyw ysgolion gwirfoddol a reolir.

#### **4.0 Rhagdybiaethau sy wedi'u Gwneud am y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif**

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yma yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau wedi'u gwneud gan y Cyngor am y dyfodol neu sydd, fel arall, yn ansicr. Mae amcangyfrifon yn cael eu gwneud gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gallai canlyniadau go iawn fod yn wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon gan nad oes modd pennu asedau a rhwymedigaethau gyda sicrwydd. Mae'r eitemau ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2018 lle mae risg sylweddol o ddiwygio perthnasol yn y flwyddyn ariannol sydd i'w dod, fel a ganlyn:

#### **4.1 Rhwymedigaeth Pensiynau**

Mae'r amcangyfrif o rwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd gostyngiadau sy'n cael ei defnyddio, y gyfradd o ran cynnydd cyflogau, newidiadau o ran oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwylidig ar asedau cronfeydd pensiwn. Mae AON Hewitt wedi'i gyflogi i roi cyngor i'r Cyngor am y rhagdybiaethau sydd i'w cymhwyso.

Mae modd mesur yr effeithiau ar rwymedigaeth newidiadau ar atebolrwydd pensiynau o ran rhagdybiaethau unigol. Fodd bynnag, mae'r rhagdybiaethau'n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth. Yn ystod 2017/18, rhoddodd AON Hewitt wybod bod y gyfrannedd wedi'i hariannu o rwymedigaeth pensiynau net y Cyngor wedi gostwng £8.1 miliwn o ganlyniad i gywiro amcangyfrifon yn sgil profiad a'u gostwng £28.6 miliwn i'w briodoli i ddiweddarau rhagdybiaethau ariannol. Cyfeiriwch at nodyn 38.0 am ragor o fanylion.

#### **4.2 Darpariaeth Yswiriant**

Mae'r Cyngor yn gwneud darpariaeth ar gyfer pob hawliad sy'n dod i law (ond heb ei dalu) yn ôl y gwerth "wrth gefn" wedi'i atodi i'r hawliad yna. Mae'r gwerth wrth gefn yn adlewyrchu'r gwerth mwyaf tebygol o gytuno ar yr hawliad, heb ystyried tebygolrwydd y cytundeb. Mae gwerthoedd wrth gefn yn cael eu darparu gan garfan yswiriant fewnol y Cyngor, gweithwyr sy'n trin hawliadau ac aseswyr colledion. Mae hyn yn dibynnu ar y math o hawliad a gwerth amcangyfrifedig yr hawliad. Mae hawliadau sy'n ymwneud â moduron ac eiddo yn cael eu darparu yn ôl 100% o'r gwerth wrth gefn. Mae hawliadau rhwymedigaeth yn cael eu darparu yn ôl canran sy'n seiliedig ar y cyfnod o amser y mae'r hawliad heb ei ddatrys. Mae hyn yn adlewyrchu nad yw pob hawliad sy'n dod i law yn cael ei dalu. Mae rhai yn cael eu diarddel yn llwyddiannus. Cyfeiriwch at nodyn 14.0 am ragor o fanylion.

Y risgiau o ran camddatganiad yw y bydd gwerth hawliadau presennol yn newid (yn cynyddu neu'n gostwng) neu'n cael eu diarddel yn llwyddiannus. Mae cronfa wrth gefn wedi'i neilltuo yn cael ei sefydlu i fodloni'r costau ychwanegol sy'n ymwneud ag effaith y newidiadau potensial o ran amcangyfrifon. Mae'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi hefyd yn ariannu hawliadau neu ddigwyddiadau sydd wedi digwydd ond mae hawliadau heb eu derbyn. Cyfeiriwch at nodyn 16.2 am ragor o fanylion.

### **4.3 Eiddo, Gwaith ac Offer**

Mae priswyr allanol yn cynnal prisiadau ffurfiol o fewn uchafswm o raglen dreigl 5 mlynedd i sicrhau bod yr asedau ar y Fantolen yn cael eu cynrychioli yn ôl "gwerth presennol". Mae prisiadau yn cael eu cynnal yn unol â chyfarwyddyd wedi'i gyhoeddi gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Yn ôl cyfrifiad prisiad y gwerth presennol, mae rhagdybiaethau yn cael eu gwneud ar fywydau defnyddiol asedau, allai fod yn amodol ar newidiadau yn y dyfodol.

### **5.0 Eitemau Materol Incwm a Threuliau**

Does gan y Cyngor dim eitemau materol o incwm na threuliau mae angen eu datgelu ar wahân.

### **6.0 Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen**

Mae'r tabl uchod yn cynrychioli'r Uwch Garfan Arwain ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae datgeliad o dâl Uwch Swyddogion Cydbwyllgorau wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon perthnasol ar gyfer Cydbwyllgorau.



## 29.0 Costau Diswyddo

Mae'r nodyn yma yn darparu manylion am gost diswyddo'r Cyngor mewn perthynas â gweithwyr sydd wedi gadael eu swydd yn y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol (dydy costau ddim yn adlewyrchu gwerth y taliad diswyddo wedi'i dderbyn gan yr unigolyn gan ei fod yn cynnwys straen pensiwn). Mae'r holl gostau yn unol â chynlluniau terfynu perthnasol a chymwys ac, yn ôl yr angen, o dan Reoliadau Cronfa Bensiwn perthnasol lle bo hynny'n addas. Bydd pob penderfyniad yn seiliedig ar achos busnes ac yn gymorth iddo.

Mae nifer a chostau (mewn dosbarthiadau) y terfyniadau gorfodol a therfyniadau eraill wedi'u nodi yn y tabl isod.

Band Cost Terfynu	Nifer y Terfyniadau Gorfodol		Nifer y Terfyniadau Eraill		Cyfanswm Nifer y Terfyniadau		Cyfanswm Cost Terfyniadau	
	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18
£							£'000	
£0 - £20,000	15	18	235	186	250	204	1,792	1,212
£20,001 - £40,000	8	2	71	40	79	42	2,160	1,215
£40,001 - £60,000	1	2	9	11	10	13	517	677
£60,001 - £80,000	2	1	9	4	11	5	791	329
£80,001 - £100,000	1	1	3	6	4	7	349	647
£100,001 - £150,000	3	1	2	7	5	8	649	940
£150,001 - £200,000	2	0	0	4	2	4	360	666
<b>Total</b>	<b>32</b>	<b>25</b>	<b>329</b>	<b>258</b>	<b>361</b>	<b>283</b>	<b>6,618</b>	<b>5,686</b>

Yn ystod 2017/18, cynilodd y Cyngor gostau cyflogres blynyddol o £3,823k (£5,437 2016/17) trwy Ddiswyddo Gwirfoddol ac Ymddeoliad Gwirfoddol Cynnar.

Dydy Costau Diswyddo ar gyfer Cydbwyllgorau ddim wedi'u cynnwys yn y nodyn uchod. Mae modd eu gweld nhw yn y Datganiad o Gyfrifon perthnasol ar gyfer Cydbwyllgorau.

Serch hynny, mae canran o gostau diswyddo Cydbwyllgorau wedi'i chyfuno yn y Gost Net o Wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 30.0 Costau Archwilio Allanol

Mae'r Cyngor wedi mynd i gostau mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad o Gyfrifon, ardystio hawliadau grant, archwiliadau statudol a gwasanaethau eraill wedi'u darparu gan archwilwyr allanol y Cyngor:

Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru	2016/17	2017/18
	£'000	£'000
Gwasanaethau archwilio allanol wedi'u cynnal gan yr Archwilydd Statudol am y flwyddyn	255	250
Gwaith Mesur Llywodraeth Leol	94	94
Ardystio Hawliadau ac Adeni Grant am y flwyddyn	100	71
<b>Cyfanswm</b>	<b>449</b>	<b>415</b>

### 31.0 Ardrethi Annomestig

Mae'r lefel o Ardrethi Annomestig yn seiliedig ar 'lluosydd' wedi'i osod yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, wedi'i luosi gan werth ardrethol eiddo penodol. Bydd y cyfrifiad yma yn rhoi atebolrwydd ardrethi i'r eiddo am y flwyddyn. Y lluosydd ar gyfer 2017/18 oedd 49.9c (48.6c ar gyfer 2016/17). Cyfanswm y gwerth ardrethol ar 31 Mawrth 2018 oedd £129.3 miliwn (£129.0 miliwn ar 31 Mawrth 2017).

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu'r ardrethi busnes yn ei ardal ac mae'n talu'r enillion i'r gronfa Ardrethi Annomestig sy'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn aiddosbarthu casgliadau i awdurdodau lleol ar sail swm sefydlog y pen o'r boblogaeth. Cyfanswm yr Ardrethi Annomestig wedi'u casglu o dalwyr ardrethi mewn perthynas ag ardrethi 2017/18 yw £48.8 miliwn (£52.3 miliwn yn 2016/17). Cyfanswm y cyfraniad yn ôl i'r Cyngor o'r gronfa yn y flwyddyn oedd £76.4 miliwn (£70.5 miliwn yn 2016/17) a chyfanswm y swm wedi'i dalu i'r gronfa oedd £49.4 miliwn (£53.6 miliwn yn 2016/17). Dydy'r incwm wedi'i gasglu ddim yn cael ei gydnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y Cyngor yn gweithredu'n asiant sy'n casglu incwm ar ran Llywodraeth Cymru.

### 32.0 Treth y Cyngor

Mae incwm Treth y Cyngor yn deillio o daliadau wedi'u codi yn ôl gwerth eiddo preswyl. Mae taliadau yn cael eu cyfrifo trwy rannu swm yr incwm sydd ei angen ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf, Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru a'r Cynghorau Cymunedol ar gyfer y flwyddyn, â sail Treth y Cyngor.

Sail Treth y Cyngor ar gyfer 2017/18 yw £74,978.22 (o'i gymharu â £74,301.87 ar gyfer 2016/17). Mae hyn yn cynrychioli'r arennill disgwylidig ar gyfer pob £1 o dreth y Cyngor wedi'i chodi.

Mae'r sail yn cael ei chyfrifo trwy roi eiddo mewn deg dosbarth (A\*-I). Ar ôl caniatáu gostyngiadau ac eithriadau, mae'r rhain yn cael eu trosi i nifer cyfwerth yr eiddo Dosbarth B, gan ddefnyddio'r lluosydd priodol isod:

Band	A*	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Nifer yr Eiddo	227	37,937	21,387	14,420	8,130	5,993	3,050	1,057	172	29
Lluosydd	5/9	6/9	7/9	8/9	1	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9

Mae'r nifer canlyniadol o eiddo Dosbarth B yn cael ei leihau trwy ganran i adlewyrchu symiau disgwylidig heb eu casglu. Y gyfradd darged o ran casglu ar gyfer 2017/18 oedd 97.5%.

Mae dadansoddiad o'r enillion net o Dreth y Cyngor fel a ganlyn:

Dadansoddiad o'r Dreth y Cyngor	2016/17	2017/18
	£'000	£'000
Treth y Cyngor mae modd ei Chasglu	119,893	123,802
<b>Elw Net o Treth y Cyngor</b>	<b>119,893</b>	<b>123,802</b>
Ar ôl didynnu'r swm sy'n Daladwy:		
Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru	(15,444)	(16,363)
Cynghorau Cymuned	(1,776)	(1,829)
<b>Cyfanswm</b>	<b>102,673</b>	<b>105,610</b>

### 33.0 Incwm Grant

Credydodd y Cyngor y grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2017/18:

#### 33.1 Wedi'u Credydu i Wasanaethau

Mae nifer o grantiau a chyfraniadau wedi cael eu hadnabod fel incwm yn y Gost Net o Wasanaethau. Cyfanswm yr incwm yma yw £202 miliwn yn 2017/18 (cyfanswm y grantiau a chyfraniadau yma oedd £157 miliwn yn 2016/17).

#### 33.2 Derbynebaw Grantiau Cyfalaf Ymlaen Llaw

Mae pob Grant Cyfalaf sydd wedi dod i law wedi cael ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### 34.0 Partïon Cysylltiedig

Mae gofyniad ar y Cyngor i ddatgelu trafodion materol gyda phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Cyngor neu'n cael eu rheoli neu'u dylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodion yma yn caniatáu i ddarllenwyr asesu i ba raddau mae'r Cyngor, o bosibl, wedi cael ei orfodi o ran ei allu i weithredu'n annibynnol neu wedi sicrhau'r gallu, o bosibl, i gyfyngu ar allu parti arall i drafod yn rhydd.

#### 34.1 Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â fe, darparu'r rhan fwyaf o arian trwy grantiau a rhagnodi telerau nifer o'r trafodion sydd gan y Cyngor a phartïon eraill (e.e. biliau Treth y Cyngor).

	<b>2016/17</b>	<b>2017/18</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Grantiau Llywodraeth heb eu Gwarchod	(283,324)	(279,035)
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	(16,170)	(26,697)
Wedi'i Gredydu i Wasanaethau	(138,046)	(141,431)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(437,540)</b>	<b>(447,163)</b>

### **34.2 Prif Swyddogion ac Aelodau**

#### **Aelodau o'r Cyngor**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad sy'n rhan o Gyfansoddiad y Cyngor, mae gofyn i Aelodau gofnodi, ar y Gofrestr o Fuddiannau Aelodau, unrhyw fuddiannau ariannol neu bersonol, yn ogystal ag unrhyw rodd, lletygarwch, budd neu fantais faterol. Mae croeso i'r cyhoedd archwilio'r Gofrestr ac mae ar gael fesul Aelod unigol ar wefan y Cyngor.

Mae Aelodau o'r Cyngor yn cael eu henwebu i fod ar nifer o gyrff allanol, ac mae rhai ohonyn nhw'n derbyn arian gan y Cyngor neu'n cyflwyno ardollau ac archebion i'r Cyngor eu talu. Wrth eistedd ar y cyrff yma, mae disgwyl i Aelodau weithredu'n annibynnol a pheidio â chynrychioli barn y Cyngor Sirol. Mae manylion ynglŷn ag aelodaeth ar gael o Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, Y Pafiliynau, Cwm Clydach.

Yn ystod 2017/18, doedd dim Aelodau â buddiant rheolaethol mewn unrhyw gwmni wedi'i gomisiynu i ddarparu gwaith neu wasanaethau, sydd o werth materol, i'r Cyngor. Serch hynny, mae Aelodau wedi pennu buddiannau gyda sefydliadau y mae'r Cyngor wedi cael trafodion ariannol gyda nhw yn ystod 2017/18. Cyfanswm y trafodion yma trwy daliadau oedd £1,398k, lle'r oedd £9k o'r swm yma i'w dalu ar ddiwedd y flwyddyn, a swm o £185k trwy dderbynebau, lle'r oedd £37k i'w dalu ar ddiwedd y flwyddyn.

#### **Prif Swyddogion (Uwch Garfan Arwain)**

Yn unol â Chod Ymddygiad Gweithwyr, mae gofyn i Swyddogion ddatgelu buddiannau gwrthdaro posibl sy'n codi o drefniadau cyflogaeth, yn ogystal â rhoddion neu lletygarwch a chynigion o hynny ac, yn unol ag Adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, unrhyw drefniadau cytundebol lle mae buddiant gwrthdaro. Mae gan y rhan fwyaf o gyrff proffesiynol godau o ymddygiad proffesiynol mae disgwyl i aelodau o'r cyrff glynu atyn nhw.

Yn ystod 2017/18, mae gan y Cyngor drafodion gyda cwmni sy'n darparu cymorth arbenigol i bobl ag anableddau. Cyhoeddodd aelod o Uwch Dîm Arwain y Cyngor fod perthynas iddo yn un o ymddiriedolwyr y cwmni. Cyfanswm y taliadau i'r cwmni yw £1,127 (£1,139 yn 2016/17) a doedd dim symiau i'w talu ar ddiwedd y flwyddyn (dim yn 2016/17). Cyfanswm y derbynebau yw £178k (£534 yn 2016/17), ac roedd £2k i'w dalu (dim yn 2016/17). Chymerodd y Swyddog ddim rhan yn y drafodaeth, penderfyniad na'r broses weinyddu mewn perthynas â'r gwasanaethau.

Doedd dim trafodion eraill o werth materol.

### 34.3 Archebion ac Ardollau

Mae manylion ynglŷn ag archebion wedi'u casglu ar ran sefydliadau eraill yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae dadansoddiad o archebion yn y tabl canlynol:

	2016/17	2017/18
	£'000	£'000
Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru	15,444	16,363
Cynghorau Cymuned	1,776	1,829
<b>Cyfanswm</b>	<b>17,220</b>	<b>18,192</b>

Mae dadansoddiad o ardollau yn y tabl canlynol:

	2016/17	2017/18
	£'000	£'000
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	10,789	11,033
Crwner	369	440
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	48	48
Cyd-bwyllgor Archifau Morgannwg	165	164
<b>Total</b>	<b>11,371</b>	<b>11,685</b>

### 34.4 Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf

Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen yw'r Swyddog Cyllid cyfrifol ar gyfer Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf. Cododd y Cyngor dâl o £1.6 miliwn ar y Gronfa Bensiwn (£1.5 miliwn yn 2016/17) mewn perthynas â gweinyddu a chymorth yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18. Y swm sydd i'w dalu gan y Cyngor i'r Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2018 yw dim (£20k ar 31 Mawrth 2017).

### 34.5 Cwmnïau Cysylltiedig ac Is-gwmnïau

Mae gan y Cyngor fuddiant mewn tri chwmni, sef; Amgen Cymru Ltd., Amgen Rhondda Ltd. a Capita Glamorgan Consultancy Ltd. Swyddogion y Cyngor yw cyfarwyddwyr Amgen Cymru Ltd ac Amgen Rhondda Ltd. Yn ystod 2017/18, cafodd y trafodion parti cysylltiedig eu gwneud gyda'r cwmnïau yma.

#### **Amgen Cymru Ltd.**

Talodd y Cyngor Amgen Cymru £7,199 (£7,367 yn 2016/17) mewn perthynas â rheoli gwastraff a thaliadau cael gwared ar wastraff. Roedd £560k (£109k yn 2016/17) i'w dalu i'r cwmni ar ddiwedd y flwyddyn.

Talodd Amgen Cymru y Cyngor £487k (£403k yn 2016/17) mewn perthynas â nwyddau a gwasanaethau. Roedd £164k (£13k yn 2016/17) i'w dalu i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn.

#### **Amgen Rhondda Ltd.**

Talodd y Cyngor Amgen Rhondda £175k (£175k yn 2016/17) mewn perthynas â ffioedd rheoli'r safle, gyda dim byd (dim yn 2016/17) i'w dalu ar 31 Mawrth 2018.

#### **Capita Glamorgan Consulting Ltd.**

Mae Capita Glamorgan Consultancy Ltd yn fenter ar y cyd rhwng Capita Symonds a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae'r Cyngor yn berchen ar 27.93% o gyfranddaliadau'r cwmni ac mae ganddo hawliau pleidleisio i'r gwerth yma ar y bwrdd.

Yn ystod 2017/18, cafodd £1,404k ei godi ar y Cyngor (£1,544k yn 2016/17) mewn perthynas â nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyfalaf. Y balans i'w dalu i Capita Glamorgan Consultancy Ltd ar 31 Mawrth 2018 oedd £347k (£133 yn 2016/17).

Talodd Capita Glamorgan Consultancy Ltd £1.9k i'r Cyngor (£2k yn 2016/17) mewn perthynas â nwyddau a gwasanaethau, doedd dim byd (dim yn 2016/17) i'w dalu i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn.

### **34.6 Cyd-bwyllgorau**

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Cydbwyllgorau canlynol.

#### **Cydbwyllgor Archifau Morgannwg**

Mae Swyddfa Cofnodion Morgannwg yn cael ei rheoli a'i gweinyddu gan Gydbwyllgor Archifau Morgannwg o dan bwerau wedi'u cyflwyno gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Mae gan y Cydbwyllgor 16 o aelodau. Mae 4 Aelod o Gyngor Rhondda Cynon Taf ar y Cydbwyllgor.

Yn ystod 2017/18, cyfrannodd y Cyngor £164k at y Cydbwyllgor (£165k yn 2016/17). Cafodd hyn ei gyfrifo mewn modd cymesur yn seiliedig ar boblogaeth.

#### **Amlogfa Llwydcoed**

Mae Amlogfa Llwydcoed yn cael ei rheoli gan Gydbwyllgor o Aelodau o Gyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Merthyr Tudful.

Yn ystod 2017/18, cododd y Cyngor ffioedd o £32k ar Amlogfa Llwydcoed (£20k yn 2016/17) mewn perthynas â ffioedd sefydliad canolog. Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Cyngor falansau arian parod o £1,586k mewn perthynas â'r Amlogfa (£1,072 yn 2016/17).

## **Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion (ESIS)**

Daeth y Gwasanaeth yn anweithredol o 1 Medi 2012 a chafodd ei weinyddu gan Gydbwyllgor o Gyngorau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Mae trafodaethau ynglŷn â chytundeb ymadael wrthi'n cael eu cynnal.

## **Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De**

Mae'r Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn darparu ystod eang o wasanaethau gwella ysgolion yn ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Mae'r Cyngor yn cyfuno 28.32% o asedau, rhwymedigaethau a thrafodion y gwasanaeth yn ei ddatganiadau ariannol.

Yn ystod 2017/18, derbyniodd y Cyngor £118k o incwm o'r gwasanaeth (£1,183k yn 2016/17) mewn perthynas â gwasanaethau ymgynghorol a hyfforddi, yn ogystal â grantiau o £19,114k (£18,482k yn 2016/17). Cododd ffioedd o £118k ar y gwasanaeth (£116k yn 2016/17) mewn perthynas â ffioedd sefydliad canolog. Talodd y Cyngor wariant CSEC o £1,060k (£1,150k yn 2016/17). Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Cyngor falansau o £12,275k i'w talu i Wasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De (roedd gan y Cyngor falansau o £6,004k i'w talu i'r Gwasanaeth ar 31 Mawrth 2017). Yn rhan o broses gyfuno'r Cydbwyllgor, mae trafodion a balansau sy'n canslo effeithiau eraill yn cael eu dileu o'r cyfrifon i sicrhau nad yw gwerthoedd unigol yn cael eu nodi mwy nag unwaith. Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn dosbarthu grantiau i awdurdodau sy'n cymryd rhan, ar ran Llywodraeth Cymru.

## **Amlogfa Llangrallo**

Mae Cydbwyllgor yn berchen ar Amlogfa Llangrallo ac yn ei rheoli ar ran Cyngorau Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf.

Ar ddiwedd y flwyddyn, doedd dim balansau i'w talu rhwng y Cyngor ac Amlogfa Llangrallo.

## **Cynllun Mabwysiadu Cydweithredol Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (VVC)**

Daeth Cynllun Mabwysiadu Cydweithredol Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn weithredol ar 1 Mehefin 2015 ac mae'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae gwasanaethau maethu Cyngorau Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Chaerdydd yn rhan o'r cynllun yma. Dyma un o bum cynllun cydweithredol sy'n rhan o Wasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru (NAS).

Yn ystod 2017/18, cyfrannodd y Cyngor £460k tuag at Gynllun Mabwysiadu Cydweithredol Rhanbarthol Caerdydd (£350k yn 2016/17).

### **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Cytunodd y Cyngor i sefydlu Cyd-Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (y 'Cabinet Rhanbarthol'), yn gydbwyllgor ffurfiol i fwrw golwg dros dwf economaidd y Rhanbarth a chyflawni'r ymrwymadau wedi'u nodi ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Er mwyn sicrhau bod y buddsoddiadau iawn yn cael eu gwneud i gyflawni twf economaidd sylweddol, mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi gosod nifer o dargedau allweddol bychain, sef; creu 25,000 o swyddi newydd erbyn 2036; a manteisio ar £4 biliwn o fuddsoddiad o'r sector preifat o ganlyniad i fuddsoddiad o £1.2 biliwn o'r sector cyhoeddus. Mae Cronfa Fuddsoddi Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys 2 elfen amlwg:

£734 miliwn – cynllun METRO. Bydd hyn yn cynnwys £503 miliwn o arian Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu dros saith mlynedd gyntaf y Gronfa Fuddsoddi, o 2016/17 tan 2022/23; £106 miliwn o'r Gronfa Datblygu Ewrop (sydd wedi'i hymrwymo a'i gwarantu yn dilyn Brexit gan Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru); a £125 miliwn o Lywodraeth San Steffan. Bydd yr elfen yma yn gyfrifoldeb uniongyrchol ar Lywodraeth Cymru.

£495 miliwn – Cronfa Cabinet Rhanbarthol sy'n cynnwys ymrwymiad y deg cyngor cyfansoddol i fenthycu £120 miliwn dros gyfnod y Gronfa Fuddsoddi, sef 20 mlynedd. £375 miliwn o Lywodraeth San Steffan i'w fuddsoddi mewn seilwaith, tai, sgiliau a hyfforddiant, arloesedd, twf busnes a chynigion trafnidiaeth 'Metro plus'. Bydd yr elfen yma yn gyfrifoldeb ar Gabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

### **Partneriaeth Pensiynau Cymru**

Ar 15 Mawrth 2017, cytunodd y Cyngor i sefydlu Cydbwyllgor Llywodraethu i fwrw golwg dros gronni buddsoddiadau'r wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae cyd-gytundeb awdurdodi wedi cael ei ddatblygu'n fframwaith cyfreithiol ac mae'n nodi'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y gronfa, hawliau a rhwymedigaethau'r wyth awdurdod cyfansoddol a'r pwerau a chyfrifoldebau wedi'u dirprwyo i'r Cydbwyllgor Llywodraethu. Bydd costau cysylltiedig â'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng yr wyth awdurdod (ac eithrio costau rheoli buddsoddiadau).

## **34.7 Cytundeb Partneriaeth**

### **Safle Gwastraff Bwyd Cwm Yfory Biogen**

Daeth Safle Gwastraff Bwyd Biogen yn gwbl weithredol ar 19 Gorffennaf 2015. Mae'r 3 awdurdod lleol sy'n rhan o'r Hwb (Cyngor Rhondda Cynon Taf, Cyngor Merthyr Tudful a Chyngor Dinas Casnewydd) yn anfon 13,500 o dunelli, sy'n isafswm cyfun ymrwymedig, bob blwyddyn i'r cyfleuster. Yn 2017/18 mae'r



partïon wedi mynd i gostau cysylltiedig o £958k. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu £124k o arian grantiau.

### **34.8 Partïon Cysylltiedig Eraill**

#### **Trivallis**

Trivallis yw un o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mwyaf Cymru sy'n darparu tai ar gyfer miloedd o deuluoedd yn Rhondda Cynon Taf. Mae 3 Aelod ac 1 swyddog o Gyngor Rhondda Cynon Taf ar fwrdd Trivallis.

Yn ystod 2017/18, talodd y Cyngor Trivallis £1,201k (£1,414k yn 2016/17) a derbyniodd incwm o £1,235k (£218k yn 2016/17). Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan gwmni Trivallis £116k i'w dalu i'r Cyngor (roedd gan y Cyngor £11k i'w dalu i gwmni Trivallis yn 2016/17).

Yn unol â Strategaeth Fuddsoddi wedi'i chytuno gan y Cyngor, yn dilyn diwydrwydd priodol ac yn amodol ar drefniadau diogelu priodol a derbyniol, dechreuodd y Cyngor drefniant benthycu wedi'i gytuno'n fasnachol gyda Trivallis, sef swm o £5,250k. Ar 31 Mawrth 2018, roedd £5,000k i'w dalu.

### **35.0 Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf**

Mae cyfanswm gwariant cyfalaf y flwyddyn wedi'i nodi yn y tabl isod (gan gynnwys gwerth yr asedau wedi'u caffael o dan brydlesi cyllid), yn ogystal â'r adnoddau sydd wedi cael eu defnyddio i'w ariannu. Os bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu yn y dyfodol trwy daliadau i refeniw gan fod asedau yn cael eu defnyddio gan y Cyngor, bydd canlyniadau gwariant yn gynydd yn y Gofyniad Cyllid Cyfalaf (CFR) – mesur o'r gwariant cyfalaf y mae'r Cyngor wedi'i wneud yn y gorffennol ond heb ei ariannu eto. Mae'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn cael ei ddadansoddi yn ail hanner y nodyn yma.

	2016/17	2017/18
	£'000	£'000
Gofyniad Cyllido Cyfalaf wrth Agor	391,914	411,081
<b>Buddsoddi Cyfalaf:</b>		
Eiddo, Gwaith ac Offer	73,541	88,033
Asedau Anniriaethol	1,746	1,267
Gwariant Refeniw wedi'i Gyllido o Gyfalaf o Dan Statud	8,476	12,461
	<b>83,763</b>	<b>101,761</b>
<b>Ffynonellau Ariannu:</b>		
Derbyniadau Cyfalaf	(3,401)	(1,068)
Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill	(20,686)	(35,328)
	<b>(24,087)</b>	<b>(36,396)</b>
<b>Swm wedi'i osod ar wahân o'r Refeniw:</b>		
Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol	(28,777)	(29,797)
Isafswm Taliad Refeniw	(11,732)	(11,054)
	<b>(40,509)</b>	<b>(40,851)</b>
<b>Gofyniad Cyllido Cyfalaf wrth Gau</b>	<b>411,081</b>	<b>435,595</b>
<b>Esboniad o'r Symudiadau yn y Flwyddyn</b>		
Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (wedi'i gefnogi gan gymorth ariannol y llywodraeth)	145	13
Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (heb ei gefnogi gan gymorth ariannol y llywodraeth)	20,266	24,502
Prydlesi Ariannol	(1)	(1)
Menter Cyllid Preifat (PFI)	(1,243)	0
<b>Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Gofyniad Ariannu Cyfalaf</b>	<b>19,167</b>	<b>24,514</b>

### 36.0 Prydlesi

Mae'r datgeliadau canlynol yn berthnasol i'r Cyngor, ac yntau'n brydleswr.

#### 36.1 Prydlesi Cyllid

Mae gan y Cyngor nifer o eiddo wedi'u trefnu o dan brydlesi cyllid. Mae'r asedau wedi'u caffael o dan y prydlesi yma yn cael eu nodi fel Eiddo, Gwaith ac Offer yn y Fantolen yn ôl y symiau net canlynol:

	31/03/2017	31/03/2018
	£'000	£'000
Tir ac Adeiladau Eraill	144	136

Mae'r asedau yma'n rhan o adolygiad amharu'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i wneud isafswm o daliadau o dan y prydlesi yma sy'n cynnwys sefydlu'r rhwymedigaeth hirdymor ar gyfer llog yr eiddo a chostau cyllid sydd i'w talu yn y dyfodol tra bod y rhwymedigaeth heb ei thalu. Mae'r taliadau prydles lleiaf wedi'u gwneud o'r symiau canlynol:

	31/03/2017	31/03/2018
	£'000	£'000
Rhwymedigaethau Prydles Ariannol:		
Cyfredol	1	1
Hirdymor	386	385
Costau ariannol sy'n daladwy yn y dyfodol	1,276	1,254
<b>Taliadau Prydles Isaf</b>	<b>1,663</b>	<b>1,640</b>

Bydd y taliadau prydles lleiaf i'w talu dros y cyfnodau canlynol:

	Taliadau Prydles Isaf		Prydles Ariannol Rhwymedigaethau	
	31/03/2017	31/03/2018	31/03/2017	31/03/2018
	£'000	£'000	£'000	£'000
Llai nag 1 flwyddyn	23	23	1	1
1 i 5 mlynedd	113	113	4	4
Dros 5 mlynedd	1,527	1,504	382	381
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,663</b>	<b>1,640</b>	<b>387</b>	<b>386</b>

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu'n brydleswr ar gyfer 8 cerbyd:

	31/03/2017	31/03/2018
	£'000	£'000
Rhwymedigaethau Prydles Ariannol:		
Cyfredol	111	120
Hirdymor	414	286
Costau ariannol sy'n daladwy y blynnyddoedd i ddod	101	61
<b>Taliadau Prydles Isaf</b>	<b>626</b>	<b>467</b>

	Taliadau Prydles Isaf		Prydles Ariannol Rhwymedigaethau	
	31/03/2017	31/03/2018	31/03/2017	31/03/2018
	£'000	£'000	£'000	£'000
Llai nag 1 flwyddyn	147	147	111	120
1 i 5 mlynedd	479	320	414	286
Dros 5 mlynedd	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>626</b>	<b>467</b>	<b>525</b>	<b>406</b>

### 36.2 Prydlesi Gweithredol

Mae taliadau prydles lleiaf sydd i'w talu yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredol nad oes modd eu canslo yn y dyfodol yn cael eu nodi yn y tabl isod. Enghreifftiau o asedau o'r fath sy'n cael eu defnyddio o dan drefniadau prydles gweithredol yw llungopiwy'r ac argraffyddion.

	31/03/2017			31/03/2018		
	Tir ac Adeiladau eraill	Cerbydau, Gwaith ac Offer	Cyfansymiau	Tir ac Adeiladau eraill	Cerbydau, Gwaith ac Offer	Cyfansymiau
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Llai nag 1 flwyddyn	467	1,223	1,690	612	1,195	1,807
1 i 5 mlynedd	1,318	1,954	3,272	2,002	1,369	3,371
Dros 5 mlynedd	6,128	637	6,765	8,253	566	8,819
<b>Total</b>	<b>7,913</b>	<b>3,814</b>	<b>11,727</b>	<b>10,867</b>	<b>3,130</b>	<b>13,997</b>

Y gwariant wedi'i godi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesi yma oedd:

	31/03/2017	31/03/2018
	£'000	£'000
Taliadau Prydles Isaf	2,363	2,362

### 36.3 Is-brydlesi

Mae'r Cyngor wedi isosod swyddfeydd yng Nghanolfan Menter y Cymoedd. Mae disgwyl i daliadau is-brydles nad oes modd eu canslo o £60k y flwyddyn gael eu derbyn tan y dyddiad y bydd y brydles yn dod i ben. Mae'r taliadau wedi'u dangos yn y tabl isod:

	2016/17	2017/18
	£'000	£'000
Llai nag 1 mlynedd	92	60
1 i 5 mlynedd	119	59
Dros 5 mlynedd	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>211</b>	<b>119</b>

### 37.0 Colledion Amharu

Yn ystod 2017/18, mae'r Cyngor wedi cydnabod colled amharu o £20.5 miliwn (colled o £25.2 miliwn yn 2016/17) mewn perthynas â'i Asedau Hirdymor. Mae'r tâl amharu yma yn cael ei gynnwys yn nodyn Ased Hirdymor 7.1, sydd hefyd yn cynnwys gwrthdroi amharu o flynyddoedd blaenorol.

## **38.0 Buddion Ymddeol – Cynlluniau Budd Diffiniedig**

### **38.1 Cymryd Rhan mewn Cynlluniau Pensiwn**

Yn rhan o'u telerau ac amodau, mae buddion ymddeol yn cael eu cynnig i Aelodau a Swyddogion gan y Cyngor. Er na fydd y buddion yma ddim yn cael eu talu tan bydd yr unigolyn yn ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau yma. Mae angen rhoi cyfrif am y rhwymedigaeth ar gyfer y taliadau yma pan fydd gan yr unigolyn yr hawl i'r buddion.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn:

- Athrawon – Cyfeiriwch at nodyn 39.0.
- Gweithwyr eraill ac Aelodau – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi'i weinyddu gan Gyngor Rhondda Cynon Taf. Dyma gynllun buddion gyrfa cyfartalog diffiniedig wedi'i ariannu. Mae'r Cyngor a chyfranogwyr yn talu rhandaliadau i'r gronfa, wedi'u cyfrifo ar lefel sydd â'r bwriad o gydbwysu rhwymedigaethau pensiwn ag asedau buddsoddi. Mae'r costau pensiwn sy'n cael eu codi i gyfrifon y Cyngor yn cael eu diffinio gan IAS 19 fel "Buddion Gweithwyr".

Mae Cydbwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn codi costau pensiwn i'w gyfrifon yn unol ag IAS 19. Mae rhan Cyngor Rhondda Cynon Taf o'r cofnodion yma yn cael ei chyfuno â'r prif gyfrifon, a'i datgelu yn y nodiadau canlynol.

Does dim modd i'r Cydbwyllgorau sy'n weddill ddarparu cyfrifon sy'n cydymffurfio ag IAS 19 gan nad ydyn nhw'n cael eu trin fel cyflogwyr ar wahân yn y Cronfeydd Pensiwn perthnasol. Serch hynny, os yw gweithwyr y Cydbwyllgor yn cyfrannu at Gronfa Bensiwn Cyngor Rhondda Cynon Taf, mae'r asedau a rhwymedigaethau canlyniadol wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Cyngor Rhondda Cynon Taf.

### **38.2 Trafodion sy'n berthnasol i Fuddion Ôl-gyflogaeth**

Mae cost y buddion ymddeol yn cael ei chydabod yng nghost y gwasanaethau unwaith iddyn nhw gael eu sicrhau gan weithwyr, yn hytrach nag wrth i'r buddion gael eu talu fel pensiynau. Serch hynny, mae'r tâl mae angen i ni ei wneud yn erbyn Treth y Cyngor yn seiliedig ar yr arian sydd i'w dalu yn y flwyddyn. Mae'r gost o fuddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei gwrthdroi o'r Gronfa Bensiwn trwy'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans Cronfa'r Cyngor trwy'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

	2016/17	2017/18		
		Rhondda Cynon Taf	Cyd- bwyllgorau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>				
Costau Gwasanaethau				
Cost Gwasanaethau Cyfredol	30,149	40,980	279	41,259
Costau Gwasanaeth yn y gorffennol	2,281	1,080	37	1,117
Addasiad ar gyfer Cyfuno	(201)	0	(1)	(1)
<i>Incwm a Gwariant Buddsoddi ac Ariannu:</i>				
Costau Llog Net	17,511	14,590	(1)	14,589
<b>Cyfanswm Buddion ar ôl Cyflogaeth wedi'i godi ar y Gwared neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</b>	<b>49,740</b>	<b>56,650</b>	<b>314</b>	<b>56,964</b>
<b><i>Ail-fesur Net Diffiniedig Rhwymedigaeth Buddion sy'n cynnwys:</i></b>				
Adenillion ar Asedau'r Cynllun (Ac eithrio'r Swm wedi'i Gynnwys yn y Net Treuliau Llog)	(129,257)	(24,140)	(150)	(24,290)
(Enillion) a Cholledion Actiwaraidd sy'n Codi ar Rwymedigaethau - Rhagdybiaethau Demograffig	(57,736)	0	0	0
(Enillion) a Cholledion Actiwaraidd sy'n Codi ar Rwymedigaethau - Rhagdybiaethau Ariannol	306,542	28,480	127	28,607
(Enillion) a Cholledion Actiwaraidd sy'n Codi ar Rwymedigaethau - Profiad	(74,899)	8,030	32	8,062
Cynnydd Net mewn Rhwymedigaethau o Warediadau /Caffaeliadau ar Rwymedigaethau - Profiad	(58)	0	(193)	(193)
<b>Cyfanswm Buddion Ôl-gyflogaeth wedi ei godi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>94,332</b>	<b>69,020</b>	<b>130</b>	<b>69,150</b>
<b>Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn:</b>				
Gwrthdroadu taliadau net wedi'u gwneud i'r Gwared neu Ddiffyg ar gyfer Darparu Gwasanaethau ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth yn unol â'r cod	(49,740)	(56,650)	(314)	(56,964)
Y swm gwirioneddol wedi'i godi yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn:				
Cyfraniadau cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun	30,832	36,180	160	36,340

Cyfanswm ailfesuriad y Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig Net wedi'i nodi yn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall ar 31 Mawrth 2018 yw colled o £12.2 miliwn (colled o £44.6 miliwn yn 2017/18).

Cyfanswm cronrus enillion a cholledion actiwaraidd wedi'i nodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd at y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2018 yw colled o £143.0 miliwn.

### 38.3 Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun

	2016/17	2017/18		
		Rhondda Cynon Taf	Cyd- bwyllgorua	Total
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Balans ar 1 Ebrill</b>	<b>1,349,822</b>	<b>1,558,200</b>	<b>6,360</b>	<b>1,564,560</b>
Cost Gwasanaeth Cyfredol	30,149	40,980	279	41,259
Cost Llog ar Rwymedigaeth Diffiniedig	46,619	40,010	162	40,172
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	8,098	8,200	82	8,282
<b><i>Ail-fesur (Enillion) a Colledion</i></b>				
(Enillion) a Cholledion Actiwaraidd sy'n Codi ar Rwymedigaethau - Rhagdybiaethau Demograffig	(57,736)	0	0	0
(Enillion) a Cholledion Actiwaraidd sy'n Codi ar Rwymedigaethau - Rhagdybiaethau Ariannol	306,542	28,480	127	28,607
(Enillion) a Cholledion Actiwaraidd sy'n Codi ar Rwymedigaethau - Profiad	(74,899)	8,030	32	8,062
Buddion wedi'u talu	(47,528)	(47,610)	(310)	(47,920)
Costau gwasanaeth blaenorol	2,281	1,080	37	1,117
Cyfuniadau busnes	0	0	0	0
Cynnydd Net mewn Rhwymedigaethau o Warediadau / Caffaeliadau	1,945	0	0	0
Addasiad ar gyfer Cyfuno	(733)	0	(17)	(17)
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>1,564,560</b>	<b>1,637,370</b>	<b>6,752</b>	<b>1,644,122</b>

**38.4 Cysoni Gwerth Teg Asedau'r Cynllun**

	2016/17	2017/18		
		Rhondda Cynon Taf	Cyd- bwyllgorau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Balans ar 1 Ebrill</b>	<b>834,277</b>	<b>979,280</b>	<b>6,232</b>	<b>985,512</b>
Incwm Llog	29,108	25,420	163	25,583
<b><i>Ail-fesur (Enillion) a Colledion:</i></b>				
Adenillion ar Asedau'r Cynllun, ac eithrio'rSwm sy wedi'i Gynnwys yn y Treuliau Llog Net	129,257	24,140	150	24,290
Cyfraniadau gan y Cyflogwyr	30,832	36,180	160	36,340
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	8,098	8,200	82	8,282
Buddion wedi'u talu	(47,528)	(47,610)	(310)	(47,920)
Cynnydd Net mewn Asedau o Warediadau / Caffaeliadau	2,003	0	193	193
Addasiad ar gyfer Cyfuno	(535)	0	(16)	(16)
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>985,512</b>	<b>1,025,610</b>	<b>6,654</b>	<b>1,032,264</b>

Mae'r adenillion disgwylidig ar asedau'r cynllun yn cael eu pennu gan ystyried yr adenillion disgwylidig sydd ar gael ar yr asedau sy'n sylfaen i'r polisi buddsoddi presennol. Mae'r arenillion disgwylidig ar fuddsoddiadau llog sefydlog yn seiliedig ar arenillion adbrynu gros yn ôl dyddiad y Fantolen.

Mae adenillion disgwylidig buddsoddiadau ecwiti yn adlewyrchu cyfraddau hirdymor o adenillion yn y marchnadoedd priodol. Adenillion asedau'r cynllun yn y flwyddyn oedd ennill o £49.87 miliwn (ennill o £158.4 miliwn yn 2016/17).

**38.5 Hanes y Cynllun**

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
	Gan gynnwys Cyd- bwyllgorau	Gan gynnwys Cyd- bwyllgorau	Gan gynnwys Cyd- bwyllgorau	Gan gynnwys Cyd- bwyllgorau	Gan gynnwys Cyd- bwyllgorau
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Presennol y Rhwymedigaeth Diffinedig	(1,234,997)	(1,399,724)	(1,349,822)	(1,564,560)	(1,644,122)
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	712,031	811,839	834,277	985,512	1,032,264
<b>Gweddill/(Diffyg)</b>	<b>(522,966)</b>	<b>(587,885)</b>	<b>(515,545)</b>	<b>(579,048)</b>	<b>(611,858)</b>

Mae'r rhwymedigaethau yn dangos yr ymrwymadau sylfaenol sydd gan y Cyngor yn y pen draw i dalu buddion ôl-gyflogaeth (ymddeol). Mae cyfanswm y rhwymedigaeth, sef £611.9 miliwn, wedi cael effaith sylweddol ar Werth Net y Cyngor, fel sydd wedi'i nodi ar y Fantolen. Mae trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu nad oes effaith ar safle ariannol y Cyngor. Mae'r diffyg



ar y cynllun llywodraeth leol yn cael ei wneud yn unol â rhagdybiaethau actiwaraid.

### **38.6 Asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Ar 31 Rhagfyr 2017, roedd Asedau Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi'u defnyddio i gyfrifo IAS19 yn cynnwys:

<b>Gwerth Teg Asedau'r Cynllun</b>		
	<b>2016/17</b>	<b>2017/18</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Soddyfrannau'r DU	595,905	657,668
Soddyfrannau Gwledydd Tramor	1,459,349	1,775,137
Giltiau Llog Sefydlog y DU	259,370	274,407
Giltiau sy'n gysylltiedig ac Indecs y DU	0	0
Bondiau Corfforaethol y DU	255,420	276,825
Bondiau Llywodraeth Tramor	8,326	2,735
Bondiau Corfforaethol Tramor	28,693	29,407
Eiddo	167,239	175,043
Arian Parod ac Asedau Cyfredol Net	60,748	61,066
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,835,050</b>	<b>3,252,288</b>

### **38.7 Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau**

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn mabwysiadu dull 'blociau adeiladu' o ran pennu cyfradd yr adennill ar asedau'r Gronfa. Caiff marchnadoedd hanesyddol eu hastudio a thybir bod asedau sydd ag anwadalrwydd uwch yn cynhyrchu adenillion uwch yn unol ag egwyddorion marchnad cyfalaf sy'n cael eu derbyn. Mae'r gyfradd adennill dybiedig ar bob dosbarth asedau wedi'i nodi yn y nodyn yma. Bydd y gyfradd adennill gyffredinol sydd i'w disgwyl ar asedau yn cael ei chodi o gyfansymio'r adennill disgwylidig ar gyfer pob dosbarth o asedau dros y dyraniad ased gwirioneddol i'r Gronfa ar 31 Mawrth 2018.

Mae rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, amcangyfrif o'r pensiynau sydd i'w talu yn y dyfodol gan ddibynnu ar y rhagdybiaethau am gyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau, ac ati. Mae rhwymedigaethau Cronfa'r Cyngor wedi cael eu hasesu gan AON Hewitt, cwmni annibynnol o actiwariad. Bydd amcangyfrifon ar gyfer Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun wedi'i ariannu ar 31 Mawrth 2016, a'r cynllun heb ei ariannu ar 31 Mawrth 2018.

Mae'r rhwymedigaeth yn y Fantolen wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn o ganlyniad i newidiadau i ragdybiaethau actiwaraid yn bennaf. Dyma'r prif ragdybiaethau sydd wedi cael eu defnyddio gan yr actiwari:

	31/03/17	31/03/18
Cyfradd Hirdymor Disgwyliedig ar Asedau yn y Cynllun (yn unol â'r gyfradd gostwng)	4.5%	4.5%
Tybiaethau marwolaethau:		
Hirhoedledd yn 65 oed ar gyfer pensiynwyr cyfredol:		
Dynion	22.8	22.9
Menywod	24.9	25.0
Hirhoedledd yn 65 oed ar gyfer pensiynwyr yn y dyfodol:		
Dynion	25.0	25.1
Menywod	27.2	27.3
Cyfradd chwyddiant (RPI)	3.1%	3.2%
Cyfradd chwyddiant (CPI)	2.0%	2.1%
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	3.25%	3.35%
Graddfa'r cynnydd mewn pensiynau	2.0%	2.1%
Cyfradd am ostwng rhwymedigaethau'r cynllun	2.6%	2.6%
Hawlior opsiwn i drosi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad ar ymddeoliad:		
Gwasanaeth ar ôl 2010	80%	80%
Gwasanaeth C=cyn 2010	80%	80%

Mae'r rhagdybiaethau actiwaraidd wedi'u nodi yn y tabl uchod yn cael effaith ar yr amcangyfrif o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig. Mae'r dadansoddiad isod wedi cael ei bennu ar newidiadau posibl rhesymol o'r rhagdybiaethau sy'n codi ar ddiwedd y cyfnod, ac mae'n tybio bod y dybiaeth wedi'i dadansoddi yn newid tra bod y rhagdybiaethau eraill yn parhau i fod yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau mewn hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliadau einioes yn cynyddu neu'n gostwng ar gyfer dynion a menywod. Mae hyn yn annhebygol o ddigwydd ac mae'n bosibl y bydd newidiadau o ran rhai o'r rhagdybiaethau yn cydberthyn. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad wedi dilyn polisiau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun e.e. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credit uned arfaethedig. Doedd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau sy'n cael eu defnyddio wrth baratoi'r dadansoddiad isod ddim wedi newid ers y rhai a gafodd eu defnyddio yn y cyfnod blaenorol.

	Rhondda Cynon Taf		Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf		Cyfanswm	
	Cynnydd yn y Rhagdybiaeth	Lleihad yn y Rhagdybiaeth	Cynnydd yn y Rhagdybiaeth	Lleihad yn y Rhagdybiaeth	Cynnydd yn y Rhagdybiaeth	Lleihad yn y Rhagdybiaeth
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Hirhoedledd (Cynnydd neu Gostyngiad mewn 1 Flwyddyn)	48,940	(48,570)	203	(202)	49,143	(48,772)
Cyfradd Cynnydd mewn Cyflogau (Cynnydd neu Gostyngiad o 0.1%)	6,530	(6,470)	31	(31)	6,561	(6,501)
Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau (Cynnydd neu Gostyngiad o 0.1%)	24,400	(24,010)	103	(101)	24,503	(24,111)
Cyfradd ar gyfer Gostwng Rhwymedigaethau'r Cynllun (Cynnydd neu Gostyngiad o 0.1%)	(30,420)	31,000	(132)	134	(30,552)	31,134

### **38.8 Cyfraniadau ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019**

Amcangyfrif cyfraniadau rheolaidd y cyflogwr at y Gronfa ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu 31 Mawrth 2019 yw £36.3 miliwn. Yn ychwanegol at hyn, mae'n bosibl y bydd angen cyfraniadau straen ar gronfa.

Mae modd gweld rhagor o wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn sydd ar gael ar gais Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen, Tŷ Bronwydd, Y Porth, Cwm Rhondda, CF39 9DL.

### **39.0 Buddion Ymddeol – Cynlluniau Cyfrannu Diffiniedig**

Mae athrawon wedi'u cyflogi gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon, sydd wedi'i weinyddu gan Bensiynau Athrawon ar ran Adran Addysg. Mae'r Cynllun yn darparu buddion penodol i athrawon ar ôl ymddeol, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y costau trwy wneud cyfraniadau sy'n seiliedig ar ganran o gyflogau pensiwn aelodau.

Mae'r Cynllun, yn dechnegol, yn gynllun buddion diffiniedig. Serch hynny, dydy'r Cynllun ddim yn cael ei ariannu, ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol i gyfrif cyfradd gyfrannu'r cyflogwr sy'n cael ei thalu gan awdurdodau lleol. Does dim modd i'r Cyngor bennu ei safle a chyflawniad ariannol o ran y Cynllun gyda sicrwydd digonol at ddibenion cyfrifyddu. At ddibenion y Datganiad o Gyfrifon yma, mae'n cael ei nodi ar yr un sail â chynllun cyfrannu diffiniedig.

Yn 2017/18, talodd y Cyngor £12.8 miliwn i Bensiynau Athrawon mewn perthynas â buddion ymddeol athrawon, gan gynrychioli 16.48% o gyflog pensiynadwy. Y ffigurau ar gyfer 2016/17 oedd £12.8 miliwn, gan gynrychioli 16.48% o gyflog pensiynadwy hefyd. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn gyfrifol am bob taliad pensiwn sy'n berthnasol i flynyddoedd ychwanegol y mae wedi'u dyfarnu, ynghyd â chynnydd cysylltiedig. Yn 2017/18, cyfanswm y ffigurau yma oedd £838k (£870k yn 2016/17).

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddion ychwanegol sy'n cael eu dyfarnu ar ôl ymddeoliad cynnar y tu allan i delerau'r cynllun i athrawon. Mae cyfrif am y costau yma ar sail buddion diffiniedig.

### **40.0 Rhwymedigaethau Amodol**

#### **40.1 Menter Cyllid Preifat**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2003/04, dechreuodd y Cyngor drefniant Menter Cyllid Preifat (PFI) ar gyfer darparu Campws Dysgu Gydol Oes yng Ngarth Olwg. Roedd y cyfleusterau yn cynnwys Meithrinfa, Ysgol Gynradd, Ysgol Uwchradd, Canolfan Dysgu Gydol Oes, Llyfrgell a Chanolfan Ieuenctid. Yn wreiddiol, roedd cytundeb y trefniant i fod para tan fis Medi 2030. Yr ymrwymiad gwreiddiol oedd £113.8 miliwn dros gyfnod y cytundeb, wedi'i

ariannu gan gyfuniad o Gredydau Menter Cyllid Preifat blaenorol, wedi'u cytuno gan Lywodraeth Cymru, ac adnoddau'r Cyngor/wedi'u dirprwyo i ysgolion. Penderfynodd y Cyngor roi terfyn ar y cytundeb Menter Cyllid Preifat am gyfnod dros dro ym mis Rhagfyr 2015. Cafodd yr hysbysiad terfynol ei gyflwyno i'r contractwr ar 28 Gorffennaf 2016, a daeth y cytundeb i ben ar 25 Ionawr 2017.

Mae elfennau o'r taliad terfynu yn amodol ar drafodaethau gyda'r contractwr.

Mae'r Cyngor yn disgwyl gorffen y trafodaethau yma yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19.

## **40.2 Yswiriant**

Mae'r Cyngor yn atebol am hawliadau yswiriant mewn perthynas â rhai digwyddiadau sy'n cael eu cyflwyno yn erbyn y Cyngor. Ar 31 Mawrth 2018, mae darpariaeth wedi'i neilltuo mewn perthynas â'r hawliadau sydd wedi cael eu cyflwyno. Mae yna rwymedigaeth ddigwyddiadol bellach mewn perthynas â digwyddiadau a fydd wedi digwydd ond sydd heb arwain at hawliad hyd at ddyddiad y cyfrifon. Mae'r "statud cyfyngiadau" yn pennu'r amserlen ar gyfer pryd mae modd gwneud cais mewn perthynas â rhywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Mae cronfa wrth gefn a glustnodwyd wedi cael ei sefydlu er mwyn cyfrannu at gostau'r digwyddiadau yma.

Oherwydd nifer yr hawliadau ac amgylchiadau gwahanol pob hawliad unigol, does dim modd i ni ddarparu cynnig o'r effaith ariannol posibl. Yn yr un modd, byddai rhoi syniad o'r ansicrwydd mewn perthynas â swm y dyledion ac amseru'r dyledion hynny yn anymarferol.

Caiff hawliadau yswiriant hefyd eu nodi yn nodyn 4.2.

## **40.3 Municipal Mutual Insurance Ltd.**

Mae hen awdurdodau Cyngor Bwrdeistref Cwm Rhondda, Cyngor Bwrdeistref Cwm Cynon, Cyngor Bwrdeistref Taf-elái a Chyngor Sir Morgannwg Ganol yn gredydwyr Municipal Mutual Insurance Ltd. (MMI). Roedd Municipal Mutual Insurance Cyf. (MMI) wedi rhoi'r gorau i ddarparu yswiriant busnes o 30 Medi 1992. Er mwyn sicrhau bod MMI yn rheoli ei fusnes yn drefnus ac yn ddiddyled, rhoddwyd cynllun trefniant gyda'i gredydwyr ar waith ym mis Ionawr 1994. Ac yntau'n credydwr o MMI, mae'r Cyngor wedi'i rwymo yn gyfreithiol gan y Cynllun yma ac ym mis Tachwedd 2012, cafodd y cynllun ei gychwyn.

Bydd unrhyw daliadau setlo yn y dyfodol a wneir gan MMI ar ôl gosod yr ardoll gychwynnol yn cael ei wneud ar y gyfradd is o 75%. Bydd cronfeydd yr awdurdodau eraill yn talu'r 25% sy'n weddill. Mae gohebiaeth gan weinyddwr y cynllun yn nodi nad yw'n bosibl gwarantu y bydd yr ardoll gychwynnol a'r ail ardoll, a gafodd eu talu ym mis Chwefror 2014 a mis Mai 2016, yn ddigon ond dyma'r amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Mae'r cynllun yn gofyn bod y gweinyddwr yn adolygu'r Ardoll o leiaf unwaith y flwyddyn. Gan ystyried yr ansicrwydd mewn perthynas â faint o wahaniaeth bydd y gwaith cychwynnol yn ei gael, mae gan y Cyngor rwymedigaeth ddigwyddiadol oherwydd mae'n

bosibl y bydd y Cyngor yn destun i waith ychwanegol yn amodol ar adnoddau MMI, yr yswiriwr.

#### **41.0 Cronfeydd Ymddiriedolaeth**

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel ar gyfer sawl elusen. Caiff cyfrifon ar wahân eu cynnal ar gyfer yr elusennau yma. Ar 31 Mawrth 2018, roedd asedau net y Cyngor fel a ganlyn, dydy'r asedau net ddim wedi cael eu cynnwys ym Mantolen y Cyngor. Mae ffigyrau 2017/18 yn amodol ar archwiliad (Swyddfa Archwilio Cymru Deddf yr Eglwys yng Nghymru, Adran Archwilio Fewnol y Cyngor ar gyfer y cronfeydd eraill).

	Disgrifiad	31/03/17	31/03/18
		£'000	£'000
Addysg & Amrywiol	Cronfeydd amrywiol wedi'u sefydlu ar gyfer buddion addysgol a chymunedol	248	251
Elusen Rhondda Cynon Taf ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg	Cronfa wedi'i sefydlu er budd dinasyddion â nam ar eu golwg	109	76
Cronfa Deddf Eglwys Cymru Cymru	Cronfa wedi'i sefydlu o dan Ddeddf Eglwys Cymru ar gyfer gwahanol nodau elusennol o fewn siroedd Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr	12,292	12,253

Mae'r Cyngor hefyd yn rhan o Fwrdd Ymddiriedolwyr "Cronfa Ymddiriedolaeth Cwm Rhondda". Dyma elusen a gafodd ei sefydlu gan gwmni gweithgynhyrchu ar ôl i'w ffatri gau yng Nghymoedd y Rhondda. Bwriad yr elusen yw gwella sgiliau ac addysg yn yr ardal. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb gweinyddol ar gyfer y gronfa yma. Fodd bynnag, y Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n gwneud y penderfyniadau. Ar 31 Mawrth 2018 y balans sy'n cael ei gadw gan y Cyngor ar ran yr ymddiriedolwyr yw £16,000 (£52,000 ar 31 Mawrth 2017). Caiff Gronfa Ymddiriedolaeth Cwm Rhondda ei harchwilio'n annibynnol gan RH Jeffs and Rowe Ltd.

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

### DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2017/18

#### 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae [Cynllun Corfforaethol 2016-2020](#) y Cyngor yn pennu gweledigaeth, pwrpas, ac uchelgais cyffredinol y Cyngor rhwng 2016 a 2020

1.2 Gweledigaeth, pwrpas a blaenoriaethau'r Cyngor yw:

- Gweledigaeth – Bod yn Fwrdeistref Sirol sydd â dyheadau uchel, sy'n hyderus ac sy'n hyrwyddo cyfle i bawb.
- Pwrpas – Darparu arweinyddiaeth gymunedol gref a gwasanaethau effeithiol ar gyfer pobl Rhondda Cynon Taf er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial ac i ffynnu”.
- Blaenoriaethau:
  - Economi – Adeiladu Economi Gref
  - Pobl – Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb;
  - Lleuedd – Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw; a
  - Byw ar yr hyn sydd gennyn ni.

1.3 Mae modd i'r gymuned, defnyddwyr gwasanaeth, y sawl sy'n talu Treth y Cyngor a rhanddeiliaid eraill weld trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae hefyd modd gweld adolygiad y Cyngor mewn perthynas â'i effeithlonrwydd wrth reoli risg wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.

#### 2. CWMPAS CYFRIFOLDEB

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei gynnal mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gyfraith a'r safonau a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cofnod cywir o'r holl arian yma a bod yr arian yn cael ei ddefnyddio mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

2.2 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei waith a hwyluso ymarfer y Cyngor o'i swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau trefniadau ar gyfer rheoli risg.

2.3 Wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r *Fframwaith Trefniadau Llywodraeth Da mewn Llywodraeth Leol (2016)* a gafodd ei ddatblygu gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth Cymru (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwchreolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE). Trwy wneud hyn, mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn bodloni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor, fel sydd wedi'i nodi yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2014, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

2.4 Bwriad Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yw darparu cynrychiolaeth gywir o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

### 3. **PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU YW:**

3.1 Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, gweithdrefnau a'r gwerthoedd diwylliannol sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Cyngor yn ogystal â'r gweithgareddau y mae'n atebol amdany'n nhw, ac y mae'r Cyngor yn eu cynnal ac yn arwain y gymuned. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i fonitro'i gyflawniad mewn perthynas â'i amcanion strategol a thrafod a yw'r amcanion yma wedi arwain at ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol addas.

3.2 Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, mae llywodraethu yn golygu sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y pethau cywir yn y ffordd gywir ar gyfer y bobl gywir mewn modd amserol, cynhwysol, agored, onest ac atebol.

3.3 Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith yma, ac mae'r system wedi'i lunio er mwyn rheoli risg i lefel rhesymol. Does dim modd cael gwared ar yr holl risg o fethu er mwyn cyflawni amcanion a nodau ac felly mae'r system ond yn gallu darparu sicrwydd rhesymol o ran effeithiolrwydd ac nid sicrwydd diamod.

3.4 Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gafodd ei llunio i nodi a blaenoriaethu'r risg mewn perthynas â chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, gwerthuso'r tebygolrwydd ac effaith y risgiau yma a'u rheoli nhw mewn modd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

3.5 Mae'r fframwaith llywodraethu sy'n cael ei amlinellu isod wedi bod ar waith yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 (a hyd at ddyddiad cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2017/18).

#### 4. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

- 4.1 Mae gan y Cyngor ystod eang o drefniadau llywodraethu, yn unol â'r *Fframwaith Trefniadau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol*. Mae nifer o'r trefniadau yma wedi'u nodi yn ei [Gyfansoddiad](#). Mae tabl 1 yn rhoi enghreifftiau o'r systemau, prosesau a'r dogfennau allweddol sydd ar waith o fewn y Cyngor yn ystod 2017/18.

Tabl 1 – Enghreifftiau o elfennau allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

<b>Egwyddorion Llywodraethu Da</b>	<b>Dyma esiamplau o systemau, prosesau a dogfennau allweddol sydd ar waith o fewn y Cyngor.</b>
<p>Gweithredu mewn modd onest, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheol gyfreithiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <u>Cod Ymddygiad Aelodau Etholedig a Swyddogion</u> – pennu safonau ymddygiad y mae disgwyl i Aelodau/Swyddogion eu dilyn, mae'r safonau yma wedi'u seilio ar egwyddorion gonestrwydd, amhleidioldeb a gwrthrycholdeb.</li> <li>• <u>Rheolau Gweithdrefnau</u> – gan gynnwys y Cyngor, Llywodraeth Agored, Mynediad at Wybodaeth, Y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, yr Adran Weithredol, Trosolwg a Chraffu, Cyflogi Swyddogion a Rheolau Gweithdrefnau Contract a Chyllid. Mae'r rheolau yn pennu trefniadau y mae disgwyl i Aelodau Etholedig a Swyddogion eu dilyn wrth gyflawni busnes y Cyngor, gyda'r bwriad o arddangos atebolrwydd a gonestrwydd mewn modd cyhoeddus.</li> <li>• <u>Y Pwyllgor Safonau</u> – rôl y pwyllgor yma, ymhlith pethau eraill, yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau Etholedig.</li> <li>• <u>Polisi chwythu'r chwiban</u> – mae'r polisi yma'n hyrwyddo'r safonau'r gwasanaeth uchaf a phennu sut mae modd i weithwyr rhoi gwybod i'r Cyngor am gamweddau.</li> <li>• Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygru</li> <li>• Polisi Rhoddion a Lletygarwch</li> <li>• <u>Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno</u> - mae'r polisi yma'n pennu sut mae'r Cyngor yn ymdrin ag adborth (gan gynnwys cwynion, canmoliaeth a sylwadau) ac yn ymateb iddyn nhw.</li> <li>• Canllaw i Swyddogion</li> </ul>



<b>Egwyddorion Llywodraethu Da</b>	<b>Engbreiffiau o systemau, gweithdrefnau a dogfennau allweddol sydd ar waith yn y Cyngor.</b>
Diffinio deilliannau o ran buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Fframwaith Rheoli Cyflawniad (Perfformiad).</li> <li>• Y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Darparu Gwasanaeth.</li> <li>• Adroddiad Cyflawniad Chwarterol (gan gynnwys diweddaru'r Gofrestr Risgiau)</li> <li>• Strategaeth Rheoli Risg.</li> <li>• Strategaeth Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf tair blynedd.</li> <li>• Cynllun Ariannol Tymor Canolig.</li> <li>• Pwyllgorau Craffu.</li> </ul>
Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen er mwyn gwneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Proses Hunanasesu Corfforaethol a'r Broses Hunanasesu ar gyfer Gwasanaethau.</li> <li>• Cynllun Corfforaethol</li> <li>• Rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig a Swyddogion</li> <li>• Cynllun Gweithlu 2017–2022</li> <li>• Cynlluniau Dirprwyo</li> </ul>
Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu'r garfan arwain, a'r unigolion sy'n rhan o'r garfan honno.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y broses Hunanasesu Gorfforaethol a'r Broses Hunanasesu ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor</li> <li>• Strategaeth Rheoli Risg.</li> <li>• Cynllun Darparu Gwasanaeth.</li> <li>• Adroddiad Cyflawniad Chwarterol (gan gynnwys diweddariadau i'r Gofrestr Risgiau).</li> <li>• Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol (h.y. adroddiad blynyddol diwedd y flwyddyn).</li> <li>• Pwyllgor Archwilio a'r swyddogaeth Archwilio Fewnol</li> <li>• Cynllun Rheoli Gwybodaeth (gan gynnwys y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol).</li> <li>• Rheolau Gweithdrefn y Fframwaith Cyllideb a Pholisi a Rheolau Contract a Gweithdrefnau Ariannol.</li> <li>• Cynllun Ariannol Tymor Canolig.</li> </ul>
Rheoli risg a chyflawniad yn rhan o reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol cyhoeddi cadarn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y broses Hunanasesu Gorfforaethol a'r Broses Hunanasesu ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor</li> <li>• Strategaeth Rheoli Risg.</li> <li>• Cynllun Darparu Gwasanaeth.</li> <li>• Adroddiad Cyflawniad Chwarterol (gan gynnwys diweddariadau i'r Gofrestr Risgiau).</li> <li>• Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol (h.y. adroddiad blynyddol diwedd y flwyddyn).</li> <li>• Pwyllgor Archwilio a'r swyddogaeth Archwilio Fewnol</li> <li>• Cynllun Rheoli Gwybodaeth (gan gynnwys y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol).</li> <li>• Rheolau Gweithdrefn y Fframwaith Cyllideb a Pholisi a Rheolau Contract a Gweithdrefnau Ariannol.</li> <li>• Cynllun Ariannol Tymor Canolig.</li> </ul>

Egwyddorion Llywodraethu Da	Enghreiffiau o systemau, prosesau a dogfennau allweddol sydd ar waith o fewn y Cyngor.
Gweithredu arferion da o ran tryloywder, rhoi gwybod ac archwilio er mwyn cyflawni atebolrwydd effeithiol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi gwybod am brotocolau a chalendrau.</li> <li>• Datganiad o Gyfrifon.</li> <li>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol.</li> <li>• Llunio Adroddiadau Blynyddol ynghylch meysydd busnes allweddol e.e. Rhianta Corfforaethol, yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.</li> <li>• Asesiad allanol a Siarter yr Archwiliad Mewnol.</li> <li>• Pwyllgor y Gronfa Bensiwn</li> </ul>

4.2 Mae'r *Fframwaith Trefniadau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol* yn cefnogi'r egwyddor bod Awdurdodau Lleol yn datblygu ac yn cynnal Cod Ymarfer Llywodraethu lleol. Yn achos y Cyngor, mae ei drefniadau yn cynnwys sawl cod a dogfen yn hytrach na chod ymarfer lleol.

#### Cynnig er Gwella

4.3 Yn unol â'r fframwaith cenedlaethol, dylai'r Cyngor nodi a chyhoeddi ei drefniadau mewn perthynas â Chod Ymarfer Llywodraeth Leol, yn dilyn adolygiad a chymeradwyaeth gan Gyngorwyr etholedig.

## 5. **ADOLYGU EFFEITHLONRWYDD**

5.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal asesiad o'i fframwaith llywodraethu, gan gynnwys ei system rheolaeth fewnol, o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r adolygiad effeithlonrwydd yma wedi cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Cyfadran – Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen a'i gefnogi gan Gyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyflawniad a Gwella a Phennaeth Archwilio Mewnol a Datblygu Rhaglenni Caffael.

5.2 Mae'r gweithgaredd yma wedi cynnwys adolygu'r gweithgareddau sydd ar waith mewn perthynas â phrif drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan drafod trefniadau llywodraethu gydag Uwch Swyddogion ar draws y gwasanaethau ac ystyried canfyddiadau asesiad corfforaethol y Cyngor ac adroddiad archwilydd allanol.

5.3 Mae'r canfyddiadau a'r cynigion er gwella wedi cael eu hadolygu a'u herio gan Garfan Uwch Arweinwyr y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio. Maen nhw wedi cael eu nodi isod yn unol â'r *Trefniadau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (2016)*.

### 5.4 **CYNNYDD SYDD WEDI CAEL EI WNEUD ER MWYN RHOI'R CYNIGION ER GWELLA A GAFODD EU NODI YN NATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2016/17**

5.4.1 Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17 wedi gwneud 7 cynnig ar gyfer gwella. Cafodd y newyddion diweddaraf ynglŷn â chynnydd y gwaith yma ei adrodd i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ar [27 Tachwedd 2017](#). Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD y Pwyllgor: 'Bod y Pwyllgor yn fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â gweithredu'r meysydd er gwella.**

5.4.2 Ar 31 Mawrth 2018, roedd cynnydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â 6 allan o'r 7 cynnig:

- Roedd 4 argymhelliad wedi cael ei gwblhau;
- Roedd 1 argymhelliad wedi cael ei gwblhau yn rhannol, roedd angen cyflawni rhagor o waith yn ystod 2018/19;
- Roedd gan 1 argymhelliad targed cwblhau o 30 Mehefin 2018, ac mae disgwyl i'r gwaith paratoadol gael ei gwblhau o fewn y terfyn amser yma; ac
- Bydd angen diwygio'r dyddiad targed ar gyfer 1 argymhelliad, yn unol â'r cyfarwyddyd diweddaraf sydd wedi cael ei dderbyn gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

5.4.3 Ystyrir bod digon o gynnydd wedi cael ei wneud o ran cyflawni cynigion 2016/17 i wella. Bydd angen cwblhau rhagor o waith yn ystod 2018/19. Mae datganiad manwl o'r sefyllfa wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

## 5.5 YMDDWYN YN ONEST, GAN ARDDANGOS YMRWYMIAD CRYF I WERTHOEDD MOESOL A PHARCHU'R GYFRAITH.

### Gweithredu gydag uniondeb.

#### Cynghorwyr Etholedig

5.5.1 Yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol a gafodd eu cynnal ar 4 Mai 2017, derbyniodd yr holl Gynghorwyr sesiwn sefydlu a rhaglen gymorth barhaus a oedd yn cynnwys trosolwg o God Ymddygiad y Cyngor.

5.5.2 Cafodd cofnodion Pwyllgorau Craffu'r Cyngor eu harchwilio i benderfynu a oedd wedi cael eu cynnal yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor. Cafodd ei nodi bod cofnodion pob un o'r 42 cyfarfod a gafodd ei gynnal yn 2017/18 yn dangos bod datganiadau o fuddiant wedi cael eu gwneud gan Gynghorwyr, ble y bo'n addas. Yn ogystal â hyn, roedd Pwyllgor Safonau ar waith yn ystod 2017/18 a derbyniodd y Pwyllgor yma ddim cwynion mewn perthynas ag ymddygiad y Cyngorwyr.

#### Gweithwyr o'r Cyngor

5.5.3 Derbyniodd pob swyddog a ddechreuodd o fewn y Cyngor sesiwn sefydlu lleol ac roedd gweithdrefn Adolygu Cyflawniad Unigol ei rhoi ar waith er mwyn cefnogi datblygu personol y swyddogion.

#### Polisiau a Strategaethau

5.5.4 [Trefniadau Chwythu'r Chwiban](#) - roedd y Cyngor wedi cynnwys nodyn yng nghyfloglen pob gweithiwr ym mis Mai 2017 a oedd yn cynnig gwybodaeth ynglŷn â sut mae modd i weithwyr gael mynediad i'r Polisi Chwythu'r Chwiban. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 5 atgyfeiriad ei wneud gan ddefnyddio trefniadau chwythu'r chwiban y Cyngor. Cafodd pob atgyfeiriad ei archwilio, ac roedd y deilliannau fel a ganlyn:

- Roedd 4 atgyfeiriad heb sail dda iddo ac felly doedd dim modd cymryd camau gweithredu pellach; ac
- Roedd gan 1 atgyfeiriad sail dda iddo a chymerwyd camau gweithredu.

5.5.5 Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol<sup>1</sup> i roi gwybod am unrhyw ddatganiadau chwythu'r chwiban bob blwyddyn. Rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi unwaith y flwyddyn ar wefan y cyflogwr neu mewn ffordd addas arall gan dynnu sylw'r cyhoedd at yr adroddiad yma. Yn achos Rhondda Cynon Taf, cafodd y gofyniad yma'i fodloni ar ffurf adroddiad a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 30 Ebrill 2018.

5.5.6 Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgwrwobrwyo a Llygru – adolygodd y Cyngor ei Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgwrwobrwyo a Llygru a'i diweddarau. Cafodd yr adroddiad yma'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar [27 Tachwedd 2017](#),

---

<sup>1</sup> Chwythu'r Chwiban - yn unol â Rheoliadau Personau Rhagnodedig 2017 (Adroddiadau ynghylch Datganiadau o Wybodaeth) (SI 2017/507)

cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo ar yr un noson. Ar yr adeg dan sylw, cefnogodd y Pwyllgor Archwilio'r gofyniad i godi ymwybyddiaeth trwy roi nodyn yng nghyfloglen pob aelod o staff. Cafodd ei nodi bod hyn wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2018.

- 5.5.7 Cafodd 565 o atgyfeiriadau eu gwneud yn rhan o drefniadau Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru. Roedd y mwyafrif, sef dros 99%, mewn perthynas â thwyll posibl yn erbyn y system budd-daliadau / system Cymhorthdal Incwm. Cafodd yr achosion yma eu trosglwyddo i Wasanaeth Twyll a'r Adran Gwaith a Corfforaethol Phensiynau.
- 5.5.8 Cafodd adroddiad blynyddol ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ar 30 Ebrill 2018. Roedd yr adroddiad yn nodi'r gweithgareddau diweddaraf sy'n cael eu cynnal mewn perthynas â gwaith atal, nodi ac ymchwilio i achosion o dwyll yn ystod 2017/18, ar y cyd â'r deilliannau cysylltiedig. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cynllun o weithgareddau wedi'u targedu ar gyfer 2018/19. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i weithredu diwylliant gwrth-dwyll effeithiol ar draws y sefydliad, gan gynnig mesurau sydd â'r gallu i nodi a mynd i'r afael â bygythiadau newydd.
- 5.5.9 Polisi Rhoddion a Lletygarwch – mae gan y Cyngor Bolisi Rhoddion a Lletygarwch, ac roedd trefniadau ar waith, ar ffurf cofrestrau, i nodi rhoddion a lletygarwch yn unol â'r Polisi yma.
- 5.5.10 Mae cynnydd clir wedi cael ei wneud er mwyn adolygu a diweddarau'r Polisiau a Strategaethau canlynol, a chymryd camau i godi ymwybyddiaeth o fewn y Cyngor. Dylai lefel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth Swyddogion y Cyngor gael eu hasesu er mwyn rhoi sicrwydd bod y dogfennau yma, gan gynnwys trefniadau sefydlu, yn parhau i fod yn addas i bwrpas.

#### Sylwadau, Gair o Ganmoliaeth neu Gŵyn

- 5.5.11 Cafodd adroddiad ei gyflwyno i'r Cabinet ar 19 Medi 2017, gan nodi trosolwg o weithdrefn cwynion statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017. Roedd yr adroddiad yn nodi bod cyfanswm o 184 cwyn wedi cael ei dderbyn. Mae hyn 28 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ac mae'r ffigur yma'n isel o gymharu â nifer y bobl sy'n cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol bob blwyddyn.
- 5.5.12 Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bod y gwasanaeth wedi ymateb i 59.5% o gwynion lefel un o fewn yr amser o gymharu â 58% y flwyddyn flaenorol. Mae hyn wedi cael ei nodi fel maes i'w wella. Yn ogystal â hyn, roedd yr adroddiad yn cynnwys y gwersi sydd wedi cael eu dysgu ac y mae angen mynd i'r afael â nhw yn 2017/18. Roedd adolygiad o'r gwersi yma'n dangos bod nifer ohonyn nhw wedi cael eu cwblhau (er enghraifft, cynnal sesiynau arweiniad a hyfforddiant ar gyfer rheolwyr ynghylch ceisiadau am wybodaeth a datblygu pecyn gwybodaeth ar gyfer rhieni unrhyw oedolion sy'n pontio â'r gwasanaeth byw â chymorth ac adolygiad o Bolisi Ariannol Gorchymyn y Cod Gwarcheidwaeth Arbennig). Roedd swm o'r gwaith yn cael ei gwblhau

(er enghraifft, yr angen i asesu gallu'r derbynyddion i gadw adroddiadau sensitif sy'n ymwneud â Chynadleddau Achos Diogelu Plant yn gyfrinachol).

- 5.5.13 O ran sylwadau, canmoliaeth a chwynion ynghylch gwasanaethau sydd ddim yn wasanaethau cymdeithasol, rydyn ni wrthi'n cwblhau'r broses o ddiweddarau'r wybodaeth er mwyn adrodd yn ôl ar 30 Mehefin 2018. Cafodd ei nodi nad yw dadansoddiadau cyson yn cael eu cynnal a'u darparu i wasanaethau er mwyn cefnogi trefniadau rheoli cyflawniad, er enghraifft, dadansoddiadau o nifer y cwynion, a'u math, ac unrhyw themâu sy'n codi'n gyson. Dylai hyn fod yn faes i'w wella yn ystod 2018/19.

### **Arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol**

- 5.5.14 Ym mis Ionawr 2018, cafodd 'Canllaw i Swyddogion' wedi'i diweddarau ei chyhoeddi. Roedd y ganllaw yn cynnwys templedi wedi'u diwygio ar gyfer Adroddiadau i'r Cabinet a Phenderfyniadau Dirprwyedig gan Swyddogion er mwyn nodi sut bydd penderfyniadau wedi'u cynnig yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd adolygiad o Adroddiadau'r Cabinet a gafodd eu cyflwyno ym mis Chwefror a Mawrth 2018 wedi cadarnhau bod y templed wedi'i diwygio wedi cael ei rhoi ar waith. Roedd y templed yma'n dangos ymrwymiad clir i werthoedd moesegol trwy ystyried egwyddor datblygu gynaliadwy<sup>2</sup> (pum dull o weithio)
- 5.5.15 Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol a gafodd eu cynnal ym mis Mai 2017, cafodd pob Aelod etholedig sesiwn sefydlu ar God Ymddygiad Aelodau. Mae hyn yn cefnogi egwyddor gwerthoedd moesegol.

### **Parchu'r Gyfraith**

- 5.5.16 Roedd y Prif Weithredwr (ac yntau'n Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig) wedi arwain swyddogion y Cyngor ac wedi cadeirio'r Uwch Dîm Arwain (SLT). Mae'r Uwch Dîm Arwain yn cynnwys rolau statudol y Prif Swyddog Cyllid (a benodwyd yn Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen) a'r Swyddog Monitro (a benodwyd yn Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol).
- 5.5.17 Gan roi sylw penodol i rôl y Prif Swyddog Cyllid o fewn y Cyngor yn ystod 2017/18, roedd y rôl yma'n cydymffurfio â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn nogfen Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth '[Rôl y Prif Swyddog Cyllid](#)' oherwydd bod y Prif Swyddog Cyllid yn:
- *Aelod allweddol o'r Tîm Arwain gan helpu i ddatblygu a gweithredu strategaeth a chyflawni amcanion strategol y sefydliad mewn modd cynaliadwy ac er budd y cyhoedd;*
  - *Rhan weithredol o holl benderfyniadau busnes ac roedd modd iddo ddylanwadu arny'n nhw er mwyn sicrhau bod goblygiadau, cyfleoedd a risgiau*

---

<sup>2</sup> Egwyddor Datblygu Cynaliadwy - Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi 5 dull o weithio ar gyfer cyrff cyhoeddus: hir dymor, integreiddio, ymglymiad, cydweithio ac atal.

*uniongyrchol a hir dymor yn cael eu hystyried, ac yn gyson â strategaeth ariannol y sefydliad; ac*

- *Arwain gwaith hyrwyddo a chyflawni rheolaeth ariannol da fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i ddefnyddio mewn modd addas, economaidd, effeithiol ac effeithlon ar bob adeg ar draws y sefydliad.*

*Cyflawni'r cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid:*

- *Arwain a chyfarwyddo'r swyddogaeth ariannol a oedd yn addas i bwrpas; a*
- *Mae wedi'i gymhwyso ac mae ganddo'r profiad addas.*

### Cynigion er Gwella

- 5.5.18 Polisiau a Strategaethau – cyflawni gwaith ymgysylltu o fewn y Cyngor er mwyn asesu lefel yr ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Polisi Chwythu Chwiban, Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyath a Llygru, y Polisi Rhoddion a Lletygarwch a threfniadau sefydlu.
- 5.5.19 Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion (gwasanaethau sydd ddim yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol) – cyflwyno trefniadau sy'n sicrhau bod modd i wasanaethau fanteisio ar ddadansoddiadau rheolaidd o gwynion.

## 5.6 **BOD YN AGORED A CHYNNAL GWAITH YMGYSYLLTU CYNHWYSFAWR Â RHANDDEILIAID.**

### **Didwylledd**

#### Ymrwymiad i ddiwylledd

- 5.6.1 Roedd y Cyngor wedi cytuno ar adroddiad blynyddol a gafodd ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Enw'r adroddiad yma oedd [Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol](#). Roedd yr adroddiad yma'n nodi canlyniadau ariannol a chyflawniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 a chynlluniau ar gyfer 2017/18. Yn ogystal â hyn, cymeradwyodd y Cyngor [Cynllun Llesiant 2018-2023](#) ar 28 Chwefror 2018; roedd y blaenoriaethau a gafodd eu nodi yn y ddogfen yma yn ategu blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor.
- 5.6.2 Roedd y Cyngor wedi rhoi cynllun cyhoeddi Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ar waith, yn unol â gofynion deddfwriaethol. Yn ystod 2017/18, derbyniodd y Cyngor 1,027 cais Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Caiff ystadegau ymateb ac unrhyw gwynion sy'n cael eu harchwilio gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch cais Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol eu nodi yn adroddiad gwybodaeth y cyfarfod chwarterol y Bwrdd Rheoli Gwybodaeth. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i gynnal trosolwg o gydymffurfiaeth y Cyngor mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
- 5.6.3 Roedd gwefan y Cyngor wedi cynnig gwybodaeth ynghylch [Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000](#) ac roedd [Cynllun Cyhoeddi](#) ar waith i roi cyngor i drigolion ynghylch sut i wneud cais am wybodaeth sy'n cael ei gadw gan y Cyngor.
- 5.6.4 O ran y Cynllun Cyhoeddi, roedd modd dod o hyd i sampl o eitemau a gafodd eu cynnwys yn y Cynllun ar wefan y Cyngor.
- 5.6.5 Roedd gan y Cyngor cynllun ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau yn ogystal â rhestr o bynciau i'w trafod, ble y bo'n addas:
- Yn ystod cyfarfod y Cyngor ar [17 Mai 2017](#), cytunodd y Cyngor ar galendr o gyfarfodydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2017/18 ar gyfer y Cabinet, y Cyngor, y Pwyllgor Trwyddedu, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, yn unol â'r Cyfansoddiad;
  - Cyhoeddodd y Cabinet ei raglen waith ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2017/18 [22 Mehefin 2017](#). Cafodd y rhaglen yma'i ddiwygio ar dri achlysur: [19 Medi 2017](#), [19 Rhagfyr 2017](#) a [22 Mawrth 2018](#); a
  - Cytunodd y Pwyllgorau Craffu ar raglenni gwaith a chafodd y rhaglenni yma'u cyhoeddi ar [dudalen benodol](#) ar wefan y Cyngor, yn unol â chynnig i wella a gafodd ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru.



## Gwneud penderfyniadau ac archwilio'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud

5.6.6 Y Cabinet yw'r corff sy'n dod i benderfyniadau yn y Cyngor. Mewn adolygiad o'r adroddiadau a gafodd eu cyflwyno i'r Cabinet yn 2017/18:

- Roedd pob un o'r adroddiadau yn y fformat cywir;
- Roedd cyfanswm o 95 adroddiad wedi cael eu cyflwyno. Roedd 88 o'r rhain ar gael yn gyhoeddus, a chafodd 7 adroddiad eu gwahardd o'r wasg / cyhoedd oherwydd bod yr eitemau sy'n cael eu trafod yn golygu ei fod yn bosibl y bydd Gwybodaeth Eithriedig, er enghraifft, gwybodaeth sensitif o ran masnach; a
- Cafodd 'Hysbysiadau Penderfynu' eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ar gyfer yr holl benderfyniadau a gafodd eu gwneud gan y Cabinet yn ystod y flwyddyn. Doedd y penderfyniadau ddim wedi dod i rym (h.y. doedd dim modd rhoi'r penderfyniadau ar waith) nes bod y 'pum diwrnod gwaith'<sup>3</sup> ar ôl i'r Hysbysiadau Penderfynu gael eu cyhoeddi wedi dod i ben.

5.6.7 Roedd penderfyniadau a gafodd eu gwneud gan swyddogion dynodedig yn 2017/18, sef Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo a gafodd eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Cafodd cyfanswm o 32 Penderfyniad wedi'i Ddirprwyo eu cyhoeddi, doedd dim un penderfyniad wedi cael ei alw i mewn a doedd dim un wedi dod i rym (h.y. wedi cael ei roi ar waith) cyn diwedd y 'pum diwrnod gwaith'<sup>4</sup> ar ôl i'r Hysbysiad o Benderfyniad gael ei gyhoeddi.

## **Ymgysylltu â phreswylwyr / rhanddeiliaid**

5.6.8 Mae'r Cyngor wedi nodi'i ymrwymiad i ymgysylltu â phreswylwyr a rhanddeiliaid yn ei 'Gynllun Corfforaethol 2016-2020' i gynorthwyo â gwaith cyflawni'r deilliant o 'cymunedau mwy cysylltiedig a chydnerth'.

5.6.9 Caiff yr ymrwymiad yma'i gefnogi gan [dudalen Ymgynghori](#) pwrpasol ar wefan y Cyngor a thrwy ymrwymiad ehangach y Cyngor i weithgareddau ymgysylltu'r trwy'r [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus](#).

5.6.10 Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd y Cyngor 28 gweithgaredd ymgynghori. Roedd rhai o'r gweithgareddau yma mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Mae canlyniadau'r gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu â grwpiau cymunedol wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiadau i'r Cabinet, ble'n berthnasol, i lywio penderfyniadau. Er enghraifft:

- [Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus](#) – cafodd y gorchymyn yma'i gytuno gan y Cabinet ar 22 Mehefin 2017 gan gyflwyno mesurau rheoli cŵn ar draws Rhondda Cynon Taf;

---

<sup>3</sup> Pum diwrnod gwaith - dyma yw'r 'cyfnod galw i mewn' sydd yn rhoi cyfle i Gynghorwyr sydd ddim yn aelodau o'r Cabinet i herio penderfyniadau'r Cabinet cyn bod modd iddyn nhw gael eu gweithredu.

- [Trosglwyddo Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair i Age Connects Morgannwg](#) – cafodd y cynnig yma'i gymeradwy gan y Cabinet ar 19 Medi 2017 yn rhan o [Raglen Cyfranogi, Rhondda Cynon Taf gyda'n Gilydd](#); ac
- [Gwasanaethau Gofal Eilaidd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau](#) – wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 19 Medi 2017.

5.6.11 Ar ôl adolygu sampl o'r adroddiadau ymgynghori a gafodd eu llunio yn ystod 2017/18, roedd amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu yn cael eu cynnig er mwyn annog rhanddeiliaid i leisio'u barnau. Un o'r ymarferion ymgynghori mwyaf a gafodd eu cynnal yn ystod y flwyddyn oedd yr Ymgynghoriad Blynyddol ar y Gyllideb a oedd yn ymgysylltu trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys fideo ar YouTube), gweithgareddau ymgysylltu wedi'u harwain gan Gynghorwyr, efelychydd cyllideb ar-lein, sioeau teithiol yng nghanol trefi gan dargedu grwpiau penodol megis Cylch Trafod Materion Pobl Hŷn, Fforwm Ieuencid ledled RhCT a Chylch Trafod Materion Anabledd gan ymgysylltu â defnyddwyr Gwasanaethau'r Cyngor mewn Canolfannau Hamdden a Llyfrgelloedd. Mae effaith y dull yma'n dangos tuedd o ymgysylltu cynyddol, er enghraifft, roedd y gweithgaredd ymgynghori ar y gyllideb ar gyfer 2018/19 wedi cael ei gynnal rhwng 6 Tachwedd 2017 ac 18 Rhagfyr 2017 ac roedd dros 1,500 o bobl ynghlwm â'r broses (o gymharu â 900 yn 2017/18). Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad eu cynnwys yn [Atodiad 2 yr adroddiad i'r Cyngor](#).

## 5.7 **DIFFINIO DEILLIANNAU O RAN BUDDION ECONOMAIDD, CYMDEITHASOL AC AMGYLCHEDDOL CYNALIADWY.**

5.7.1 Mae 'Cynllun Corfforaethol – 2016-2020' yn nodi blaenoriaethau a deilliannau'r Cyngor a fydd yn cael eu cyflawni ac roedd trefniadau ar waith yn ystod y flwyddyn i brofi a yw'r deilliannau yma'n parhau i fod yn berthnasol:

- Derbyniodd Broses Ymgynghori ar y Gyllideb 2017/18 adborth gan 178 ymgynghorai. Roedd yr adborth yma'n nodi a oedd yr ymgynghorai yn meddwl bod y blaenoriaethau cyfredol yn gywir. Nododd 131 (73.6%) eu bod nhw'n meddwl eu bod nhw'n gywir;
- Roedd y camau gweithredu allweddol i'w cyflawni, fel sydd wedi'u nodi yn Hunanasesiad o Wasanaethau yn 2017/18 ac yng Nghynlluniau Darparu Gwasanaeth, yn ategu'r blaenoriaethau a gafodd eu nodi o fewn Cynllun Corfforaethol y Cyngor; a
- Cafodd y newyddion diweddaraf eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn a chafodd y newyddion yma'u diweddarau a'u craffu gan y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad.

5.7.2 Roedd adolygiad o'r cynlluniau gweithredu ar gyfer y tri Chynllun Corfforaethol a gafodd ei gynnal yn 2017/18 yn nodi:

- Yn gyffredinol, roedd y camau gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu gynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er enghraifft,
  - Economi – pwyslais ar gydweithio â Chynghorau eraill yn Ne Ddwyrain Cymru dros y tymor hir (10 blwyddyn) er mwyn gwneud y gorau o fanteision economaidd y Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
  - Pobl – rhaglen barhaus o fuddsoddi yng nghyfleusterau Hamdden, sy'n cael ei datblygu wrth ymgynghori â phreswylwyr er mwyn cefnogi llesiant y bobl leol;
  - Lle – gweithio gyda phartneriaid er mwyn cynnal sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ynghylch atal terfysgaeth a radicaliaeth.
- Cafodd targedau'r dangosyddion cyflawniad eu hystyngi i raddau cymysg, er hynny, roedd yn glir bod y lleihad mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael wedi cael dylanwad ar hyn. Ar gyfer 2018/19, ystyrir y bydd cynnal trafodaeth ynghylch pennu targedau a chynllun gweithredu drafft cyn y cam craffu yn helpu i brofi'r trefniadau yma; ac
- Cafodd adroddiadau cynnydd eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad unwaith bob chwarter yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn

cynnwys cyfres o gamau gweithredu wedi'u cytuno a chyfres o ddangosyddion cyflawniad (gan gynnwys gwybodaeth meincnodi, lle'n bosibl) a dadansoddiad o'r targedau sydd wedi'u pennu.

- 5.7.3 Roedd yna dystiolaeth glir a oedd yn dangos bod blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn alinio â Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a meysydd o fuddsoddiad ychwanegol ac yn cefnogi cyflawni deiliannau wedi'u diffinio. Mae enghreifftiau o'r rhain wedi'u nodi isod.

#### Cynllun Ariannol Tymor Canolig

- 5.7.3.1 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn trafod y cyfnod rhwng 2017/18 a 2020/21 ac yn nodi bod 84% o gyllideb referniw 2017/18 a 98% o'r Rhaglen Gyfalaf tair blynedd (2017/18 i 2019/20) wedi cael ei ddyrannu i feysydd o flaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol.

#### Buddsoddiad

- 5.7.3.2 Cafodd buddsoddiad ychwanegol ei gymeradwyo ar gyfer 2017/18: Ar 1 Mawrth 2017 cafodd buddsoddiad ychwanegol gwerth £7.514miliwn, ac ar 29 Tachwedd 2017 cafodd buddsoddiad ychwanegol gwerth £7miliwn eu dyrannu i flaenoriaethau Economi, Pobl a Lle er mwyn gwella isadeiledd a'r amgylchedd lleol ymhellach gan gefnogi swyddi i brentisiaid o fewn y Cyngor.

#### Cyflawni deiliannau wedi'u diffinio

- 5.7.3.3 Mae tabl 2 yn dangos cyflawniad yn erbyn cyferbyn o ddeiliannau wedi'u diffinio.

Tabl 2 – Cyflawniad yn erbyn deiliannau wedi'u diffinio

Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol	Deilliant wedi'i Ddiffinio	Cyflawniad 2017/18 <sup>5</sup>
Economi	Gweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf (a phartneriaid eraill) er mwyn lleihau diweithdra.	Nifer y bobl sy'n derbyn cymorth ac sydd wedi camu i fyd gwaith (Cymunedau yn Gyntaf) – 334 yn erbyn targed o 238.
Pobl	Mae rhagor o breswylwyr yn derbyn y cymorth sydd ei angen er mwyn byw yn eu cartrefi eu hunain;	% yr oedolion sydd wedi cwblhau cyfnod o ail-alluogi ac sydd ddim yn derbyn pecyn gofal a chymorth ar ôl 6 mis – 77.84% yn erbyn targed o 77.23%.

<sup>5</sup> Cyflawniad 2017/18 – yn seiliedig ar Adroddiad Cyflawniad Chwarter 3 y Cyngor

Lleoedd	Bydd strydoedd Rhondda Cynon Taf yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus.	% y priffyrdd a gafodd eu harchwilio a'u nodi fel eu bod yn cyrraedd safon uchel neu safon dderbyniol o ran glendid – 99.8% yn erbyn targed o 95%
---------	--	---

Cynnig er gwella

- 5.7.4 Dylai cynlluniau gweithredu blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol Drafft ar gyfer 2018/19 fod yn amodol ar waith craffu er mwyn asesu sail targedau'r dangosydd cyflawniad ac a fydd y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn cynorthwyo â gwaith cyflawni'r deilliannau wedi'u diffinio.

## 5.8 PENNU'R YMYRAETHAU SYDD EU HANGEN ER MWYN GWNEUD Y GORAU O GYFLAWNIAD Y DEILLIANNAU

### Penderfynu ar ymyraethau a'u cynllunio

- 5.8.1 Roedd trefniadau gwneud penderfyniadau y Cyngor yn ystod 2017/18 wedi'i seilio ar adroddiadau ysgrifenedig ar ffurf, fel sydd wedi'i nodi yn Adran 5.6. Roedd hyn yn ystyried materion ariannol, cyfreithiol ac ymgynghori ac yn alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (mae hyn yn cynnwys adroddiadau'r Cyngor a'r Cabinet, er enghraifft).
- 5.8.2 Roedd adolygiad o Adroddiadau'r Cabinet yn ystod y flwyddyn yma'n dangos bod y gyfres o wybodaeth a gafodd ei defnyddio i wneud penderfyniadau yn gynhwysfawr. Cafodd un penderfyniad a gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 19 Medi 2017 ei alw i mewn: *Adolygu Strwythur Uwch Reolwyr a Swyddi Rheoli Cysylltiedig y Cyngor* a chafodd y mater yma ei drafod gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 2 Hydref 2017. Penderfynodd y Pwyllgor *'na ddylai'r mater gael ei gyfeirio yn ôl a dylai'r penderfyniad a gafodd ei wneud ar 19 Medi 2017 ddod i rym ar ôl i'r cyfarfod yma ddod i ben'*.
- 5.8.3 Ar y cyfan, mae'r dulliau neu'r ymyraethau a gafodd eu defnyddio gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yma yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gyflawni'r deilliannau, yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r ymyraethau allweddol a gafodd eu nodi wedi'u nodi isod.

### Y Cabinet a'r Uwch Dîm Arwain

- 5.8.3.1 Mae'r Cabinet a'r Uwch Dîm Arwain wedi cynllunio rhaglen waith o eitemau i'w hadrodd arny'n nhw yn ystod y flwyddyn gan nodi'r amserlenni gofynnol. Mae'r amserlenni gofynnol yma'n rhoi gwybod am gynnydd y gwaith a'r deilliannau sy'n cael eu cyflawni. Mae hyn wedi cynnwys:
- Blaenoriaeth economaidd – gan ganolbwyntio ar waith adfywio'r Fwrdeistref Sirol, er enghraifft, trwy fwrw ymlaen â chynllun Datblygu Dyffryn Taf yng nghanol tref Pontypridd, fel sydd wedi'i nodi mewn adroddiad i'r Cabinet ar 28 Medi 2017;
  - Pobl – cychwyn rhaglen waith tymor canolig er mwyn datblygu cyfleusterau gofal ychwanegol ar draws y Fwrdeistref Sirol er mwyn gwella deilliannau ar gyfer yr oedolion hynny sydd angen cymorth er mwyn byw yn annibynnol, fel y cafodd ei nodi mewn adroddiad i'r Cabinet ar 28 Medi 2017; a

Lleoliad – darparu rhaglen buddsoddi i'r priffyrdd cyfredol er mwyn gwella cyflwr ffyrdd a sicrhau bod yr economi yn parhau i symud. Mae'r buddsoddiad cyfredol yn cael effaith gadarnhaol. Canran y Prif Ffyrdd (A), ffyrdd nad ydyn nhw'n brif ffyrdd (B)

a ffyrdd nad ydyn nhw'n brif ffyrdd (C) ac mewn cyflwr gwael yn gyffredinol yn 2015/16 oedd 8.6%, 7.2% yn 2016/17 a 5.7%<sup>6</sup> yn 2017/18.

### Pwyllgorau Craffu

5.8.3.2 Mae Pwyllgorau Craffu wedi cyflawni gwaith mewn meysydd gwaith ar wahân sydd wedi cefnogi newidiadau o ran darpariaeth gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc – Cafodd cynllun darparu Nwyddau Glanweithiol Am Ddim mewn ysgolion ei gefnogi gan y Cyngor yn ystod cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 28 Chwefror 2018. Cafodd ei nodi bod y Cabinet wedi cytuno ar gynllun a fyddai'n galluogi'r fenter yma i gael ei rhoi ar waith yn ystod cyfarfod ar 19 Ebrill 2018.
- Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad- Ffioedd Profedigaeth a chostau ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog a dynion a menywod sy'n gwasanaethu. Cafodd y cynllun yma'i adolygu gan y Pwyllgor ar 18 Rhagfyr 2017 ac roedd y pwyllgor yn rhan o waith llunio cynllun peilot er mwyn lleihau costau'r holl Wasanaethau Profedigaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor gan 25% ar gyfer cyn-filwyr. Cafodd hyn ei gynnwys o fewn yr [Adroddiad ar strategaeth gyllideb refeniw 2018/19](#) a gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor ar 28 Chwefror 2018 (Atodiad 3).
- Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant – yn dilyn adolygiad o Raglen Waith y Cabinet, aeth y Pwyllgor ati i graffu'r maes 'Cynyddu Cyflawniad Ailgyrchu' gan roi gwybod i'r Cabinet am y cynigion. Cafodd y cynigion eu cymeradwyo yn ystod cyfarfod o'r Cabinet ar 15 Chwefror 2018.
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu – yn dilyn adolygiad o Raglen Waith y Cabinet, aeth y Pwyllgor ati i graffu'r 'Cynllun Corfforaethol – Y Ffordd Ymlaen' a 'Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Datblygu Tai Gofal Ychwanegol'. Yn achos yr ail gynllun, cafodd yr adroddiad terfynol i'r Cabinet ei ategu yn dilyn y broses cyn y cam craffu, er mwyn egluro lleoliad y safle.
- Pwyllgor Materion Iechyd a Lles – roedd y Pwyllgor wedi mynd ati i adolygu a chefnogi cynllun i ddarparu diffibrilwyr mewn adeilada penodol y Cyngor ar draws y Fwrdeistref Sirol (yn unol ag adolygiad y Pwyllgor a gafodd ei gynnal ar 20 Chwefror 2018).

### Adroddiad Cyflawniad Chwarterol

5.8.3.3 Roedd Adroddiadau Cyflawniad ar gyfer chwarteri 1 – 3 yn cynnig y newyddion diweddaraf ynghylch cyflawniad ariannol; cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gan gynnwys dangosyddion cyflawniad a buddsoddiad); gwybodaeth staffio gan gynnwys absenoldebau

---

<sup>6</sup> Cyflwr y ffyrdd (5.7% yn 2017/18) - yn amodol ar y broses wirio diwedd flwyddyn

oherwydd salwch; risgiau strategaethol, yn ogystal â chynnig dolenni cyswllt electronig a oedd yn arwain at wybodaeth fwy manwl. Roedd yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth benodol mewn perthynas â chyflawniad ariannol, y newyddion diweddaraf ynghylch blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a risgiau strategol. Cafodd sylw ei roi i eithriadau a'r camau gweithredu unioni a oedd angen eu cyflawni yn yr adroddiadau yma. Roedd yna dystiolaeth o herio ynghylch canlyniadau ariannol a chyflawniad a chafodd cais ei wneud am gynnwys rhagor o wybodaeth yn yr adroddiadau er mwyn sicrhau bod y darlennydd yn deall.

#### Ffioedd a chostau

- 5.8.3.4 Cymeradwyodd y Cabinet Ffioedd a Chostau ar gyfer 2017/18 ar 9 Chwefror 2017. Roedd y trefniadau yma'n cynnwys 'dim cynnydd' ar gyfer rhai meysydd penodol a oedd yn cysylltu â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, er enghraifft, parcio ceir, ffioedd haf a gaeaf ar gyfer clybiau chwaraeon, gofal, gwastraff byd masnach (ailgylchu), pryd-ar-glud a phrydau ysgol.

#### **Gwneud y gorau o gyflawniad a deilliannau a fwriedir**

- 5.8.4 Ar 28 Medi 2017 cytunodd y Cabinet ar ffordd ymlaen er mwyn cyflawni'r Cynllun Corfforaethol mewn amser lle mae cyllid yn cael ei dorri trwy fuddsoddi yn nyfodol Rhondda Cynon Taf a gwella gwasanaethau hanfodol a'u darparu nhw mewn ffordd wahanol. Roedd hyn yn cynnwys creu 5 llif gwaith er mwyn buddsoddi mewn gwaith gwella gwasanaethau hanfodol: Digidio, Masnacheiddio, Ymyrraeth Gynnar ac Atal, Annibyniaeth a Threfnu Effeithiol af Effeithlon.
- 5.8.5 Mae tabl 3 yn nodi adborth yr atebwyr ar ôl holi a oedden nhw'n cytuno y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar y meysydd allweddol yma yn rhan o ymarfer Ymgynghori ar y Gyllideb 2018/19.

Tabl 3 – Adborth yr Ymatebwyr

	<b>Cytuno</b>	<b>Anghytuno (%)</b>	<b>Ddim yn gwybod (%)</b>
Digidio	78	16	6
Ymyrraeth Gynnar a Chymorth	89	4	7
Masnacheiddio	64	23	13
Effeithlon ac Effeithlon	89	5	6
Annibyniaeth	67	20	13



## 5.9 **DATBLYGU CAPASITI Y SEFYDLIAD, GAN GYNNWYS GALLU'R GARFAN ARWAIN A'R UNIGOLION SY'N RHAN OHONI.**

### **Datblygu capasiti y sefydliad**

5.9.1 Mae'r Cyngor wedi parhau i gynnal 'hunanasesiad corfforaethol' a chyflawni 'hunanasesiadau ar gyfer gwasanaethau unigol' er mwyn asesu safbwynt y sefydliad ar hyn o bryd a meysydd i'w gwella. Mae'r olaf o'r ddau yn cael eu cynnwys yng ngweithdrefnau cynllunio'r gwasanaeth.

5.9.2 Mae'r trefniadau hunanasesu a chynllunio uchod, wedi'u cefnogi gan Strategaeth ar Gyllideb Refeniw 2017/18 a'r rhaglen buddsoddi barhaus, yn parhau i ddangos bod y Cyngor yn datblygu ei gapasiti mewn meysydd o flaenoriaeth, a hynny yng nghyd-destun toriadau cyllid i'r Cyngor ar y cyfan. Cafodd enghreifftiau eu nodi ym mhob maes blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol, ac maen nhw wedi'u nodi isod.

5.9.2.1 Yr Economi – gweithio ar y cyd â Chynghorau eraill yn Ne Ddwyrain Cymru yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac mae'r Cyngor yn arwain gwaith y rhaglen yma o ran trafndiaeth a thai. Mae enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De er mwyn gwella'r cyrhaeddiad addysgol a chau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y plant hynny sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion hefyd yn amlwg

5.9.2.2 Pobl – gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd er mwyn lleoli gweithwyr cymdeithasol parhau o fewn ysbytai a gweithredu'r gwasanaeth 'Cadw'n Iach Gartref', mae'r ddau beth yma'n cael effaith gadarnhaol ar leihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty ac yn cynorthwyo â gwaith adsefydlu rhagor o bobl a sicrhau eu bod nhw'n parhau i fyw yn annibynnol. Mae Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth newydd hefyd wedi cael ei greu er mwyn rhoi cymorth i'r nifer gynyddol o deuluoedd sydd ag anghenion cymhleth ac sydd angen cymorth. Dyma un o'r meysydd sy'n peri risg mawr i'r Cyngor. Prif nod y gwasanaeth newydd yma yw atal ymyrraeth statudol gan y Cyngor, er enghraifft, trwy atal dod â phlant i ofal y Cyngor.

5.9.2.3 Lleoliad – gweithio gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddau i gynnal *Prosiect Divert* sy'n canolbwyntio ar y rheiny sydd rhwng 18 a 25 ac sy'n cyflawni trosedd am y tro cyntaf er mwyn lleihau aildroseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ers i'r prosiect yma gychwyn, dydy 96% o'r bobl sydd wedi cwblhau'r cynllun ddim wedi aildroseddau 6 mis ar ôl cwblhau'r ymyrraeth.

5.9.3 Cafodd cynyddu capasiti ei nod fel un o'r egwyddorion allweddol mewn meysydd eraill o waith y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:

- Gweithio gyda grwpiau lleol er mwyn eu helpu nhw i ddod yn ddarparwyr gwasanaethau/gweithgareddau yn y cymunedau, yn rhan o fenter RhCT Gyda'n Gilydd y Cyngor. Roedd yr enghreifftiau a gafodd eu nodi yn cynnwys y ddarpariaeth yn llyfrgelloedd Y Maerdy a Beddau, sydd â dros 1,300 a 900 o aelodau yn ôl eu trefn, a'r Feel Good Factory sydd â bron i 80 o aelodau sy'n defnyddio'r cyfleuster er mwyn gwneud ymarfer corff.

- Buddsoddi mewn gwaith digido er mwyn galluogi dulliau gweithio hyblyg a chefnogi gwella pellach o ran cynhyrchedd, cydbwysedd gwaith/bywyd a defnyddio lle mewn adeiladau'r Cyngor. Cafodd ei nodi bod dulliau gweithio hyblyg ar waith ar hyn o bryd o fewn y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, ac mae rhaglen yn cael ei llunio ar hyn o bryd er mwyn cynnwys meysydd gwasanaeth eraill yn 2018/19. Mae dull y Cyngor tuag at ddigido hefyd yn canolbwyntio ar y cwsmer, ac mae trafodion ar-lein yn cynrychioli tua 50% o holl drafodion y Cyngor.
- Canolbwyntio ar wella lefelau presenoldeb trwy dargedu'r meysydd hynny sydd â lefelau uchel o absenoldeb oherwydd salwch. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'i wybodaeth salwch unwaith bob chwarter; roedd safbwynt y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2017 yn dangos tuedd sy'n gwella: 4.3% ym mis Rhagfyr 2017 o gymharu â 4.42% ym mis Rhagfyr 2016.
- Buddsoddi mewn prentisiaethau a swyddi graddedig mewn meysydd sydd angen cael eu datblygu. Yn 2017/18, cafodd 33 prentis ac 13 swyddog graddedig ei benodi mewn meysydd gan gynnwys peirianeg (sifil / trydanol / mecanyddol), TG, Gwasanaethau Digidol, Cyfrifeg, Peiriannydd a Champau Dŵr.

### **Datblygu capasiti garfan arwain y sefydliad ac unigolion eraill.**

- 5.9.4 Mae rhan 3(i) o Gyfansoddiad y Cyngor, sef 'Cyfrifoldebau a Swyddogaethau', yn nodi cyfrifoldebau Arweinydd y Cyngor, y Cabinet a swyddogion penodol o'r Uwch Dîm Arwain (Adran 3A). Mae'r adran yma dan adolygiad parhaus, er enghraifft, cafodd Cynllun Dirprwyo a Swyddogaethau Gweithredol yr Arweinydd eu cyhoeddi ar [18 Gorffennaf 2017](#).

#### Datblygu

- 5.9.5 Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2017, cychwynnodd raglen o hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr i sicrhau bod gyda nhw'r sgiliau addas, yr wybodaeth a'r cymorth sydd ei angen arny'n nhw er mwyn cyflawni'u dyletswyddau. Mae'r hyfforddiant a gafodd ei ddarparu yn cynnwys:
- Sut mae'r Cyngor yn Gweithio – mae'r sesiwn yma'n rhannu gwybodaeth ynghylch trefniadau Gweithredol a Chraffu o fewn yr awdurdod;
  - Côt Ymddygiad;
  - Yr Iaith Gymraeg – Gosod y Safonau;
  - Yr Aelod Modern – mae'r sesiwn yma'n canolbwyntio ar waith achos ymarferol a sgiliau dadleuwriaeth er mwyn rhoi cymorth i Aelodau ynglŷn â sut i reoli etholwyr heriol a sefyllfaoedd anodd;
  - Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
  - Sesiwn cwrdd â Swyddogion yr Uwch Dîm Arwain – cafodd Aelodau newydd eu hethol gyfle i gwrdd â'r Prif Weithredwr ac Uwch Swyddogion a derbyn trosolwg byr o'u meysydd cyfrifoldeb;

- Hyfforddiant Craffu – roedd hyn cynnwys sesiynau 'Gwneud Gwahaniaeth trwy Graffu', 'Sgiliau Holi a Gwranddo Effeithiol', 'Craffu ar faterion Gwasanaethau i Blant mewn modd effeithiol' (cafodd y sesiwn yma ei gynnig i Aelodau o'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc) a 'Cyllid Llywodraeth Leol' (cafodd y sesiwn yma ei gynnig i Aelodau o'r Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad);
- Cyflwyniad i faterion Trwyddedu yr Awdurdod Lleol – roedd y sesiwn yma'n trafod trwyddedau Tacsî, Deddf Trwyddedu 2003 gan gynnwys Bil Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, newidiadau, adolygiadau, troseddau ac apeliadau; a
- Sgiliau Cadeiryddion – ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, y Pwyllgor Trwyddedu a'r Pwyllgorau Craffu, a Chadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol.

5.9.6 Cafodd ei nodi bod ffurflenni gwerthuso yn cael eu darparu yn y sesiynau; fodd bynnag, dim ond hyn a hyn o adborth wedi cael ei dderbyn.

#### Datblygu

5.9.7 Ar ôl ymgynghori â gwasanaethau, mae'r Cyngor wedi rhoi Cynllun Gweithlu 2017-22 ar waith. Cafodd y cynllun yma ei gymeradwyo gan y Cabinet ar [15 Chwefror 2018](#). Mae'r cynllun yn nodi blaenoriaethau sy'n cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor:

- Datblygu gweithlu ymatebol a hyblyg sy'n rhannu gwybodaeth sefydliadol;
- Recriwtio a chadw'r dalent orau i greu gweithlu amrywiol;
- Datblygu rheolwyr ac arweinwyr;
- Creu gweithlu ymroddgar sy'n cyrraedd lefelau uchel ac sy'n ymroi i'r gwaith; a
- Cefnogi iechyd a lles i sicrhau'r lefel uchaf posibl o bresenoldeb.

5.9.8 Mae gwaith datblygu staff wedi cael ei gefnogi trwy gynnal sesiynau sefydlu, Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolwyr Canol, Sesiwn Gwybodaeth ar gyfer Rheolwyr, 'Cyfarfodydd ar gyfer Rheolwyr a'r Cabinet' ac amrywiaeth o sesiynau hyfforddi gweithredol megis iechyd a diogelwch a rheoli gwybodaeth. Cafodd y gwaith yma ei gefnogi gan Gyfeirlyfr Hyfforddiant newydd sy'n dod â'r holl hyfforddiant sydd ar gael o fewn y Cyngor at ei gilydd. Cafodd ei nodi hefyd bod ffurflenni gwerthuso yn cael eu darparu yn y sesiynau hyfforddi yma; fodd bynnag, dim ond hyn a hyn o adborth sydd wedi cael ei dderbyn hyd yn hyn.

#### Cynnig er Gwella

5.9.10 Oherwydd bod cyn lleied o adborth wedi cael ei gynnig mewn perthynas ag achlysuron hyfforddi, rhaid ymgysylltu â chyfranogwyr er mwyn nodi dulliau amgen o gasglu adborth i sicrhau bod cyfranogwyr yn cael y budd mwyaf posibl allan o'r adnoddau hyfforddi yma.

## 5.10 RHEOLI RISG A CHYFLAWNIAD TRWY GYNNAL DULLIAU RHEOLI MEWNOL CADARN A THREFNAU RHEOLI ARIANNOL CYHOEDDUS CADARN

### Rheoli risg

- 5.10.1 Mae gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Risg a gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis [Mawrth 2014](#). Roedd y strategaeth yma'n nodi pwrpas cyffredinol a'r fframwaith ar gyfer rheoli risg o fewn y sefydliad.
- 5.10.2 Cafodd ei nodi bod trefniadau rheoli risg y Cyngor wedi cael eu hadolygu yn ystod ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen a'r Prif Weithredwr yn ystod chwarter cyntaf 2017/18. Yn dilyn yr adolygiad yma, cafodd fformat y Gofrestr Risgiau Strategol ei newid er mwyn cynnig gwybodaeth fwy penodol i randdeiliaid mewn perthynas â mesurau a gweithredoedd sydd yn eu lle er mwyn rheoli risgiau unigol. Mae'r newyddion diweddaraf ynglŷn â risgiau yn cael ei gynnwys yn rhan o Adroddiad Cyflawniad y Cyngor a gafodd ei gyhoeddi unwaith bob chwarter trwy'r flwyddyn.
- 5.10.3 Yn ystod 2017/18, roedd y Cyngor wedi cydymffurfio â'r strategaeth yma oherwydd ei fod wedi diweddarau ei Gofrestr Risgiau Strategaethol ar ddechrau'r flwyddyn er mwyn cyd-fynd â meysydd o flaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol, risgiau i dalwyr risg a chynnwys diweddariadau risg strategol yn yr Adroddiad Cyflawniad Chwarterol. Asesu a yw'r ddogfen Strategaeth Rheoli Risg gyfredol yn parhau i fod yn addas i bwrpas. Dylai'r ddogfen yma gael ei hadolygu a'i diweddarau yn ystod 2018/19, os yw'n addas.

### Rheoli cyflawniad

- 5.10.3 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i gryfhau ei drefniadau rheoli cyflawniad yn ystod y flwyddyn trwy gynnal 'sesiynau herio' Hunanasesiad o Wasanaethau / Cynllunio gyda'r Prif Weithredwr ac Aelod o'r Cabinet dynodedig. Deilliant y gwaith yw cefnogi gwelliant cyffredinol o ran cynnwys y dogfennau trwy bennu deilliannau a mesurau sydd wedi'u diffinio'n fwy clir. Mae'r Cyngor hefyd wedi cymryd camau i gyflwyno trefniadau diwygiedig a chyfatebol ar gyfer rheoli cyflawniad unigol pob aelod o staff.
- 5.10.5 Mae'r Cyngor yn defnyddio partneriaethau er mwyn helpu gyda'r gwaith o gyflawni'i gynlluniau strategol a rheoli cyflawniad. Mae blaenoriaethau wedi'u seilio ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion lleol, er enghraifft, Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Asesiad Llesiant ac Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol 2017/18 – 2022/23. Mae blaenoriaethau cyffredin, yn benodol, yn elwa o waith gweithio mewn partneriaeth agosach mewn meysydd fel y 'Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref' a'r ddau wasanaeth ymyrraeth gynnar. Mae'r gwasanaethau yma wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yn hyn wrth gefnogi dau ysbyty, yn arbennig yn ystod misoedd y gaeaf, trwy leihau oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty a sicrhau bod nifer llai o lawdriniaeth ddewisol yn cael eu canslo.

## Mesurau rheoli mewnol cadarn

- 5.10.6 Roedd aelodaeth a chyfarfodydd cyson Pwyllgor Archwilio y Cyngor (6 chyfarfod) yn ystod 2017/18 yn cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor a gofynion cyfreithiol.
- 5.10.7 Cyflwynodd Pennaeth Archwilio Mewnol y Cyngor Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2017/18 i'r Pwyllgor Archwilio ar 30 Ebrill 2018, gan nodi gwaith yr Adran Archwilio Fewnol yn ystod y cyfnod yma. Ar sail yr wybodaeth a gafodd ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn, penderfynodd '...bod system rheolaeth fewnol cyffredinol y Cyngor wedi gweithredu mewn modd effeithiol yn ystod 2017/18 gyda rhai meysydd wedi eu nodi fel meysydd i'w gwella – yn arbennig yn sector ysgolion cyfun.
- 5.10.8 Nododd adolygiad o sampl o gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio bod:
- Nifer o farnau archwilio mewnol yn meddwl nad oedd y safon rheolaeth fewnol mewn sefydliadau penodol yn ddigonol ac mae angen gwella, yn bennaf mewn perthynas â'r sector ysgolion;
  - O ganlyniad i hynny, gofynnodd y Pwyllgor Archwilio am 'ymweliadau dilynol' i benderfynu a oedd y gwelliannau angenrheidiol ar gyfer rheolaeth fewnol wedi cael eu cyflawni;
  - Cafodd 6 allan o'r 8 ymweliad dilynol ei gwblhau yn 2017/18 ac roedd pob un yn dangos gwelliant boddhaol wedi bod o ran safon rheolaeth fewnol. Cafodd ei nodi y bydd y 2 ymweliad sy'n weddill yn cael eu trefnu yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2018/19;
  - Cafodd ei nodi hefyd bod y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn bod rhagor o adolygiadau thematig mewn perthynas ag ysgolion uwchradd yn cael eu cyflawni yn ystod 2018/19, ar ôl trafod yr adroddiadau a gafodd eu derbyn 2017/18 gan ganolbwyntio ar feysydd risg mwyaf.
- 5.10.9 Pwyllgorau Archwilio'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth: Cyfarwyddyd Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu. Mae rhifyn 2013 yn cynnig trosolwg o swyddogaethau craidd Pwyllgor Archwilio. Cafodd adolygiad o gydymffurfiaeth yn erbyn y Cyfarwyddyd ei gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio yn ystod 2017/18. Roedd disgwyl i Gyfarwyddyd Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth gael ei ddiweddarau a'i ailgyhoeddi yn ystod 4ydd chwarter 2017/18; fodd bynnag, doedd y diweddariad yma ddim wedi cael ei gyhoeddi ar adeg y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma. Cafodd ei nodi bydd y gwaith yma'n cael ei gynnal yn ystod 2018/19 (ar ôl derbyn y cyfarwyddyd mwyaf diweddar).

## Rheoli Data

- 5.10.10 Mae Cynllun Rheoli Gwybodaeth ar waith er mwyn pennu fframwaith, gan gynnwys gofynion cyfreithiol ar gyfer rheoli gwybodaeth o fewn y Cyngor.

5.10.11 Roedd adolygiad i'r trefniadau a oedd ar waith yn 2017/18 wedi nodi eu bod nhw yn cyd-fynd â'r strwythur llywodraethu cytûn:

- Cafodd cyfrifoldebau allweddol eu dynodi o fewn y Cyngor: Uwch Swyddog Rheoli Gwybodaeth y Cyngor (SIRO) yw Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen ac roedd yna Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data a oedd yn adrodd i Bennaeth Technoleg Gwybodaeth;
- Roedd Bwrdd Rheoli Gwybodaeth, wedi'i gadeirio gan yr Uwch Swyddog Rheoli Gwybodaeth, ar waith. Roedd gan y Bwrdd yma gefnogaeth Gweithgor Rheoli Gwybodaeth;
- Roedd wybodaeth mewn perthynas â Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor, ac mae wedi'i nodi yn Adran 5.6 bod Cynllun Cyhoeddi wedi bod ar waith yn unol â chyfrifoldebau'r Cyngor dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; a
- Roedd y Cyngor wedi parhau i sicrhau ei achrediad blynyddol yn rhan o Rwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus (PSN) ym mis Medi 2017 h.y. Y 'PSN' yw cyswllt y Cyngor â'r rhwydwaith ehangach yn y sector cyhoeddus (Cyngor i Gyngor, Cyngor i'r Llywodraeth, e.e. Yr Adran Gwaith a Phensiynau) i alluogi'r Cyngor i gyfathrebu a rhannu data mewn modd diogel ar draws yr holl gyffwrdd cyhoeddus.

5.10.12 Cafodd ei nodi, ar y cyd â'r pethau uchod, bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi archwilio 8 atgyfeiriad (2 hunan atgyfeiriad a 6 atgyfeiriad allanol). Doedd dim angen cymryd camau gweithredu pellach ym mhob achos, a phenderfynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

- Roedd 3 achos yn debygol o fod o ganlyniad i dor-rheol o dan Ddeddf Diogelu Data (DPA);
- Roedd 3 achos yn annhebygol o fod o ganlyniad i dor-rheol o dan Ddeddf Diogelu Data;
- Doedd 1 achos ddim yn bodloni'r trothwy ar gyfer archwiliad; a
- Cafodd 1 achos ei dynnu yn ôl.

#### Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

5.10.3 Yn ogystal â busnes arferol y gofynion Rheoli Gwybodaeth sy'n cael eu gosod ar y Cyngor, mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (Rheoliad (UE) 2016/679) yn dod i rym ar 25 Mai 2018.

5.10.14 Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn fesur rheoli sy'n bwriadu cryfhau ac union fesurau diogelu data ar gyfer pob unigolyn o fewn yr Undeb Ewropeaidd (UE). Bwriad y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yw rhoi rhagor o reolaeth o ddata personol i unigolion a hwyluso'r amgylchedd rheoleiddio. Pan ddaw'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol i rym, bydd yn cymryd lle'r Cyfarwyddyd Diogelu Data 1995 (dan Ddeddf Diogelu Data 1998).

- 5.10.15 Cafodd adroddiad ei gyflwyno i'r Cabinet mewn cyfarfod a gafodd ei gynnal ar [22 Mawrth 2018](#) gan gynnig trosolwg o waith rhagarweiniol sy'n cael ei gyflawni yn barod ar gyfer 25 Mai 2018, gan gytuno i Bolisi Diogelu Data ac i benodi aelod o staff cyfredol i rôl Swyddog Diogelu Data.

### Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- 5.10.16 Yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18, doedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddim wedi cynnal archwiliad mewn perthynas â'r Cyngor. Cafodd ei nodi bod 10 atgyfeiriad<sup>7</sup> wedi cael ei ystyried yn rahn o Weithdrefn Cwynion a Phryderon y Cyngor. Roedd deilliannau'r atgyfeiriad yma'n cynnwys: dim camau gweithredu ar gyfer 8 atgyfeiriad ac mae 2 atgyfeiriad yn cael ei adolygu ar hyn o bryd (cawson nhw eu derbyn ym mis Mawrth 2018).
- 5.10.17 Cafodd ei nodi bod gweithdrefn datrys problemau cynnar wedi cael ei greu, trwy'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn perthynas â chwyn pellach. Cafodd ei ddatrys trwy anfon llythyr ymddiheuro gan y Cyngor a chafodd taliad bach ei wneud er mwyn cydnabod hyn.

### **Rheolaeth ariannol cyhoeddus cadarn**

- 5.10.18 Mae'r Cyngor wedi arddangos ei ymrwymiad i gynllunio a rheolaeth ariannol cryf a chyfrifol, ac mae wedi cefnogi hyn trwy ddarparu cyflawniad ariannol cadarn yn ystod cyfnod o Mae hyn oherwydd:
- Un o egwyddorion trawsbynciol allweddol o fewn Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw: '*Byw ar yr hyn sydd gennym ni*', hynny yw pennu pwysigrwydd cynllunio ariannol a rheoli cadarn yn ein sefydliad;
  - Mae gan y Cyngor gyfres o weithdrefnau sy'n cefnogi cynllunio ariannol cadarn a rheoli, er enghraifft 'Rheolau Gweithdrefn Y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi' a 'Rheolau'r Weithdrefn Ariannol'. Yn achos yr ail un, cafodd ei nod bod y ddogfen ddim wedi cael ei diweddarau yn ystod y ddau flynedd diwethaf ac felly mae angen ei hadolygu;
  - Roedd y Cyngor wedi pennu Cyllideb Refeniw yn 2017/18 ar ôl ystyried bwlch sylweddol yn y gyllideb, gan sicrhau arbedion mewn meysydd sydd ddim yn cael effaith ar wasanaethau rheng flaen. Roedd y Cyngor hefyd wedi parhau i ddefnyddio dull cyfrifol er mwyn mynd i'r afael â chynnydd mewn Treth y Cyngor, gan ystyried adborth preswylwyr yn rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb refeniw. Penodd cynydd o 2.25% mewn Treth y Cyngor, roedd hyn yn is na'r cynnydd ar gyfartaledd o 3.04% ac yn unol â'r uchelgais sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Corfforaethol;

---

<sup>7</sup>Atgyfeiriadau – atgyfeiriad yw achos lle mae aelod o'r cyhoedd yn cwyno i'r Ombwdsmon heb gweithdrefn cwynion yr Awdurdod Lleol yn gyntaf. Felly, mae'r Ombwdsmon yn cyfeirio'r achosion yma yn ôl i'r Awdurdod Lleol i'w hystyried yn unol â'i weithdrefn cwynion.

- Cafodd canlyniadau cyflawniad ariannol eu cyhoeddi bob tri mis yn ystod y flwyddyn a'u craffu gan Gynghorwyr. Mae'r canlyniadau cyflawniad ariannol, ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2017 a Rhagfyr 2017, yn rhagweld bydd y Cyngor yn cyflawni tanwariant o £0.487miliwn ar ei gyllideb refeniw, yn erbyn cyllideb o £458.940miliwn (amrywiant o 0.1%);
- Roedd y Cyngor wedi adolygu'i gyfrifon yn barhau trwy gydol 2017/18 ac roedd modd iddo rddhau £7.0miliwn o adnoddau o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y Cyngor ar [29 Tachwedd 2017](#) ac roedd yn cefnogi buddsoddiad ym meysydd o flaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol. Caiff ei nodi bod rhyddhau cyllid un-tro o ganlyniad i gydnabod arbedion yn gynnar neu trwy asesu cronfeydd wrth gefn penodol y Cyngor wedi bod yn ddull cyson sy'n galluogi buddsoddi sylweddol ychwanegol yn ystod y blynyddoedd diwethaf;
- Ar 31 Mawrth 2017, mae'r Cyngor yn ariannol hyfyw o ganlyniad i hyn: mae wedi cynnal balans ei Gronfa wrth gefn Cyffredinol ar y lefel isaf posibl (yn ôll asesiad Prif Swyddog Cyllid y Cyngor); mae gan y Cyngor hanes o bennu a darparu cyllidebau refeniw â balans ers sawl blwyddyn; ac roedd gan y Cyngor ar ei gyfrifon diwedd blwyddyn yn dilyn archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cafodd ei nodi bod y Cyngor hefyd yn cymryd camau gweithredu er mwyn bodloni anghenion deddfwriaeth wedi'i diweddarau sy'n gofyn i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru baratoi drafft o'i Datganiad o Gyfrifon yn gynharach er mwyn cynnal archwiliad allanol yn gynharach; a
- Roedd gan y Cyngor trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig cadarn a oedd yn rhagweld gwariant yn y dyfodol a lefelau cyllid mewn modd cadarn, roedd y Cyngor wedi cyhoeddi diweddariad yn ystod y flwyddyn.

### Cynigon er gwella

- 5.10.19 Adolygu Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor er mwyn asesu a yw'n parhau i fod yn addas i bwrpas. Os oes angen adolygu'r ddogfen, dylai'r newidiadau yma cael eu hadrodd i Gynghorwyr etholedig fel bod modd iddyn nhw adolygu a chymeradwyo'r newidiadau cyn iddyn nhw gael eu cyhoeddi.
- 5.10.20 Adolygu a diweddarau Rheolau'r Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, pan fo angen, a rhoi gwybod i Gynghorwyr am y newidiadau yma fel bod modd iddyn nhw eu trafod a'u cymeradwyo.



## 5.11 GWEITHREDU ARFERION DA O RAN TRYLOYWDER, RHOI GWYBOD AC ARCHWILIO ER MWYN SICRHAU ATEBOLRWYDD EFFEITHIOL

### Gweithredu arfer da

5.11.1 Mae'r Cyngor wedi gweithredu dull agored a chyson ar gyfer rhoi gwybod am ei waith, fel sydd wedi'i nodi yn adrannau cynharach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gyda'r bwriad o helpu i sicrhau bod modd i randdeiliaid deall yr wybodaeth yma a fel bod gyda nhw'r cyfle i herio cyflawniad, cynlluniau a phenderfyniadau'r Cyngor.

5.11.2 Mae adolygiad o'r sampl o wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno i'r Cyngor, Cabinet, Pwyllgorau Caffael a'r Pwyllgor Archwilio wedi dangos bod:

- Adroddiadau Blynyddol a Chynlluniau yn cael eu cyhoeddi'n gyhoeddus, gan gynnig trosolwg o gyflawniad ar lefel y Cyngor neu mewn perthynas ag ardal busnes penodol, er enghraifft:
  - Cafodd Datganiad o Gyfrifon wedi'i archwilio y Cyngor ar gyfer 2016/17 ei gyflwyno i'r Cyngor a'i gymeradwyo ar [20 Medi 2017](#) yn unol â'r amserlen statudol;
  - Mae'r Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol yn nodi asesiad o gyflawniad y Cyngor ar gyfer 2016/17 a chynlluniau ar gyfer 2017/18. Cafodd yr asesiadau yma eu cyflwyno i'r Cyngor ar [19 Gorffennaf 2017](#). Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru ddyletswydd statudol i adolygu trefniadau'r Cyngor yn y maes yma a chyflwynodd 'Dystysgrif cydymffurfiaeth' i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2017;
  - Adroddiadau Blynyddol / Cynlluniau a gafodd eu cyflwyno i'r Cabinet: [Adroddiad Blynyddol Cynhalwyr Cwm Taf 2016/17](#), [Bwrdd Rhianta Corfforaethol – Adroddiad Blynyddol](#), [Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol](#) ac [Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol](#).
- Mae cofnodion cyfarfodydd yn cadarnhau bod swyddogion penodedig wedi mynychu cyfarfodydd Pwyllgor cyflwyno adroddiadau ar lafar ac ateb cwestiynau. Ar sawl achlysur cafodd ei nodi bod y newyddion diweddaraf wedi cael ei

### Cynnig er Gwella

5.11.3 Yn rhan o'r adolygiad uchod, cafodd ei nodi bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ddim wedi cael ei gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon a doedd y datganiad ddim yn annibynnol. Er mwyn cynyddu amlygrwydd / ymwybyddiaeth o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, dylai'r ddogfen yma fod yn ddogfen annibynnol ar wefan y Cyngor.

## Sicrhau Ansawdd ac Atebolrwydd Mewnol

### Archwiliad Mewnol

- 5.11.4 Roedd Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn destun asesiad allanol yn ystod 2016/17. Pwrpas yr asesiad yma oedd pennu cydymffurfiaeth neu diffyg cydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Roedd yr asesiad allanol (sydd angen cael ei gynnal unwaith bob 5 mlynedd) wedi nodi bod yr wasanaeth '*yn cydymffurfio â'r Safonau ym mhob un o'r meysydd sylweddol, dydy effaith y meysydd lle nad oes cydymffurfiaeth ddim yn sylweddol*'. Cafodd deilliannau'r asesiad allanol yma eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio mewn cyfarfod a gafodd ei gynnal ar [20 Mawrth 2017](#) (Atodiadau 3A a B).
- 5.11.5 Mae gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18. Cafodd y Siarter yma'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar [20 Mawrth 2017](#). Mae'r Siarter yn nodi safbwynt y Gwasanaeth o fewn y sefydliad, er enghraifft, yr awdurdod sydd gan y gwasanaeth er mwyn cael mynediad i gofnodion, personél ac eiddo ffisegol. Yn dilyn adolygiad o adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn, cafodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu yn unol â'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Siarter.

### Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru

- 5.11.6 Mae gan y Gyngor broses ar gyfer cytuno a monitro'r broses o roi argymhellion/cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella ar waith. Cafodd ei nodi bod Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu cyflwyno i'r Cabinet ac yna i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod y flwyddyn. Cafodd cyfrifoldebau'r ddau Bwyllgor eu trafod yn yr adroddiadau.
- 5.11.7 Yn ystod 2017/18, roedd y Cyngor hefyd wedi datblygu rhan o'i wefan a oedd yn nodi pob un o'r adroddiadau rheoleiddio sydd wedi cael eu derbyn gan y Cyngor ers Rhagfyr 2015.

## 5.12 TREFNIADAU LLYWODRAETHU ALLWEDDOL ERAILL

### **Amgen Cymru Ltd**

- 5.12.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn berchen ar 100% o hawliau pleidleisio cwmni Amgen Cymru Ltd, sydd, yn ei dro, yn berchen ar 100% o hawliau pleidleisio cwmni Amgen Rhondda. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn berchen ar 100% o'r rhandaliadau dewisol yng nghwmni Amgen Rhondda Ltd. Prif weithgarwch cwmni Amgen Cymru yw darparu gwasanaethau rheoli gwastraff a gwasanaethau i gael gwared ar wastraff. Mae cwmni Amgen Rhondda yn gyfrifol am stiwardio safle tirlenwi Nant y Gwyddon.

- 5.12.2 Mae cyfarwyddwyr y cwmnïau yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn, gan gynnwys system reoli fewnol drylwyr, ar waith.
- 5.12.3 Penderfynodd y Cyngor i gael gwared ar statws "hyd braich" y cwmnïau yn 2009/2010, felly mae nifer o agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor, megis polisiau, prosesau a dulliau rheoli, yn berthnasol ar gyfer y cwmnïau yma.
- 5.12.4 Yn ystod 2017/18, dydy cyfarwyddwyr cwmni Amgen, archwilwyr mewnol nag archwilwyr allanol ddim wedi nodi unrhyw broblemau sylweddol o ran llywodraethu.

### **Cronfa Bensiwn**

- 5.12.5 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf. Er bod y trefniadau llywodraethu sydd wedi'u nodi yn y datganiad yma yr un mor berthnasol ar gyfer cyfrifoldebau'r Cyngor o ran y Gronfa Bensiwn, mae rhagor o ofynion penodol ar gyfer Cronfeydd Pensiwn sydd wedi'u nodi mewn nifer o ddogfennau allweddol:
- Datganiad Cydymffurfio Llywodraethu sy'n nodi safle'r Gronfa yn erbyn safonau ymarfer gorau'r Llywodraeth;
  - Datganiad Polisi Llywodraethu sy'n cynnig trosolwg o strwythur llywodraethu, gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu â chyflogwyr y cynllun;
  - Datganiad Polisi Cyfathrebu sy'n rhoi manylion am y gwasanaethau cyfathrebu a gwybodaeth y mae modd i gyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun, a'r rheiny sy'n aelodau o'r cynllun, fanteisio arnyn nhw;
  - Strategaeth Gweinyddu Pensiynau sy'n bwriadu gwella effeithlonrwydd darpariaeth y safonau ansawdd cytûn a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol;
  - Datganiad Strategaeth Fuddsoddi sy'n nodi sut y caiff buddsoddiadau'r gronfa eu rheoli;
  - Datganiad Strategaeth Cyllido sy'n rhoi crynodeb o sut y byddwn ni'n ariannu ein rhwymedigaethau pensiwn.
- 5.12.6 Mae modd cael gafeael ar yr holl ddogfennau yma fan hyn: [www.rctpensions.org.uk](http://www.rctpensions.org.uk)
- 5.12.7 Cyflwynodd Deddf Bensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus nifer o newidiadau i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys rhai newidiadau sylweddol ar gyfer llywodraethu cynlluniau o'r fath. Yn unol â'r Ddeddf, sefydlodd y Cyngor Fwrdd Pensiwn Lleol er mwyn cynorthwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ei rôl fel Awdurdod Gweinyddu ('Rheolwr Cynllun' yn):
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Prif Reoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion sy'n cael eu gosod mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Rheolydd Pensiynau; a
  - Sicrhau llywodraethu a gweinyddu effeithiol ac effeithlon o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Rheolwr Cynllun.
- 5.12.8 Mae'r Bwrdd Pensiwn yn cynnwys dau aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr a dau aelod sy'n cynrychioli'r aelodau.
- 5.12.9 Yn 2016/17 sefydlodd y Cyngor Bwyllgor Cronfa Bensiwn ffurfiol (yn amodol ar ddarpariaethau Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) er mwyn goruchwyllo ei gyfrifoldebau mewn perthynas â gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf. Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn gytbwys yn wleidyddol ac yn cynnwys 5 o aelodau etholedig.
- 5.12.10 Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am faterion rheoli strategol sy'n ymwneud â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, ac mae'r holl faterion gweithredol yn parhau i gael eu dynodi i Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen (yn ei swydd fel Swyddog Adran 151, neu i'r Dirprwy Swyddog Adran 151 yn ei absenoldeb). Caiff y gwaith yma ei gefnogi gan Banel Cyngori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu, sy'n cynnig cymorth gan swyddog priodol, cynghorwr annibynnol a chymorth proffesiynol.
- 5.12.11 Cafodd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn bedwar cyfarfod yn ystod blwyddyn y Cyngor 2017/18.
- 5.12.12 Ar ddechrau 2017, cafodd Cydbwyllgor Llywodraethu ei sefydlu, yn unol â chytundeb rhwng awdurdodau, sy'n gyfrifol am oruchwyllo Partneriaeth Bensiynau Cymru, sef cronfa fuddsoddi gydweithredol yr wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r wyth Cadeirydd sy'n rhan o Bwyllgor Cronfa Bensiwn Cymru, neu eu dirprwy enwebiedig (aelod etholedig) yn mynychu cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu ac yn cael eu cefnogi gan weithgor o swyddogion. Ym mis Ionawr 2018, penododd Partneriaeth Bensiynau Cymru 'Weithredwr' er mwyn sefydlu a chynnal adnodd buddsoddi ar y cyd at ddefnydd cyllid y Cynllun Pensiwn Awdurdod Lleol yn unig.

Dyma grynodedb o amcanion cyfuno Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Darparu swm cyson o elw dros ben ar ffioedd;
- Amrywiaethu risg rheolwyr;
- Lleihau ffioedd cyfartalog y rheolwyr;
- Cyflawni effeithlonrwydd treth trwy adennill treth wrth gefn ar ddifidendau (ar gyfer is-gronfeydd ecwiti heb fod yn y DU);
- Bodloni terfynau amser y Llywodraeth drwy sefydlu proses o gyflwyno un is-gronfa i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol; a
- Rhannu costau trosglwyddo mewn modd teg i mewn i is-gronfeydd.

## 6. **ASESIAD CYFFREDINOL O DREFNIADAU'R CYNGOR**

6.1 Yn seiliedig ar yr asesiad a gafodd ei gyflawni, ystyrir fod trefniadau Llywodraethu'r Cyngor yn addas at y diben ac yn dangos sut y mae gwaith ac adnoddau'r Cyngor wedi cyfrannu at bennu blaenoriaethau a gwireddu deilliannau'r Cynllun Corfforaethol. Caiff y canlyniad cyffredinol yma ei atgyfnerthu gan:

- Trefniadau cadarn i er mwyn helpu Cyngorwyr a Swyddogion etholedig i wireddu'u cyfrifoldebau mewn modd effeithlon, yn ogystal â chynnal safonau uchel o ymddygiad wrth gyflawni busnes ar ran y Cyngor;
- Rhoi prosesau ar waith er mwyn diweddarau dogfennau sy'n ymwneud â llywodraethu, megis y 'Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgwrwobrwyath a Llygru' a threfniadau 'Chwythu'r chwiban', codi ymwybyddiaeth o'r dogfennau yma o fewn y Cyngor a llunio adroddiadau cyhoeddus ar gyflawniad y Cyngor yn y meysydd yma;
- Dull gweithredu agored o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynllunio a darparu gwasanaethau. Mae nifer o'r rhan yn digwydd mewn partneriaeth ag eraill;
- Trefniadau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd: wedi'u cefnogi gan drefniadau rheoli gwasanaeth, rheoli arian a chraffu cadarn; wedi'i lywio gan adborth o ymgynghoriadau lle y bo hynny'n briodol; wedi'u profi yn erbyn gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Adroddiadau parhaus am flaenoriaethau ac uchelgais dealladwy, fel sydd wedi'i amlinellu yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor, gydag adroddiadau cynnydd yn dangos deilliannau a chyflawniad sy'n gwella'n gyffredinol yn ogystal â chynnal sefydlogrwydd ariannol;
- Adroddiadau cyson am gyflawniad y Cyngor, gydag enghreifftiau lle mae Pwyllgorau Craffu yn adolygu ac yn herio eithriadau;
- Dull gweithredu "tymor canolig" o ran cynllunio ariannol, sydd wedi helpu i lywio penderfyniadau strategol a blaenoriaethu adnoddau drwy gynildeb ariannol parhaus yn y sector cyhoeddus;
- Y Cyngor yn meddu ar hanes o roi argymhellion o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar waith yn y gorffennol.

6.2 Er gwaethaf y safle cyffredinol yma, mae'r asesiad wedi nodi manau lle mae angen gwneud gwelliannau er mwyn atgyfnerthu effeithiolrwydd trefniadau cyfredol y Cyngor. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn Adran 7.

## 7. CYNIGION ER GWELLA

7.1 Yn ogystal â chwblhau asesiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, mae Tabl 4 yn amlinellu'r cynigion er gwella.

Tabl 4 – Cynigion er Gwella

<b>Egwyddor/Maes Craidd</b>	<b>Rhif y Paragraff</b>	<b>Mater a Nodwyd</b>	<b>Argymhelliad</b>	<b>Amserlen ar gyfer Gweithredu</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>
<b>Y Fframwaith Llywodraethu</b>	4.3	Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn cynnwys nifer o godau a dogfennau, a dydyn nhw ddim yn cael eu cyfuno i greu cod llywodraethu lleol sydd wedi'i nodi yn y fframwaith cenedlaethol.	Yn unol â'r fframwaith cenedlaethol, dylai'r Cyngor lunio dogfennau o'i drefniadau, a'u cyhoeddi, o fewn cod llywodraethu lleol, a hynny yn dilyn adolygiad a chymeradwyaeth gan Gyngorwyr etholedig.	Chwarter 2 2018/19	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cyflawni a Gwella
<b>Ymddwyn yn onest, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a pharchu'r gyfraith</b>	5.5.18	Cafodd nifer o gamau eu cymryd er mwyn codi ymwybyddiaeth o bolisiau a strategaethau o fewn y Cyngor; serch hynny, chaiff gwybodaeth ddim ei chasglu ynglŷn â lefel y ddealltwriaeth.	Polisiau a Strategaethau – cyflawni gwaith ymgynghori o fewn y Cyngor er mwyn asesu lefel yr ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o'r Polisi Chwythu'r Chwiban, Y Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygru, y Polisi Anrhegion a Lletygarwch a'r trefniadau sefydlu.	Chwarter 3 2018/19	Pennaeth Datblygu'r Gyfundrefn
	5.5.19	Cwynion a Sylwadau – does dim dadansoddiadau cyson yn cael eu cynnal a'u darparu i Wasanaethau er mwyn cefnogi trefniadau rheoli cyflawniad, er	Sylwadau, canmoliaeth a chwynion (sydd ddim yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol) – cyflwyno trefniadau sy'n sicrhau bod modd i wasanaethau fanteisio ar	Chwarter 2 2018/19	<b>Pennaeth Materion Cyfreithiol – Gwasanaethau</b>

		enghraifft, dadansoddiadau o nifer y cwynion, a'u math, ac unrhyw themâu sy'n codi'n gyson.	ddadansoddiadau rheolaidd o gwynion.		<b>Corfforaetho l a Llywodraeth ol</b>
--	--	---	--------------------------------------	--	--

<b>Egwyddor/Maes Craidd</b>	<b>Rhif y Paragraff</b>	<b>Mater a Nodwyd</b>	<b>Argymhelliad</b>	<b>Amserlen ar gyfer Gweithredu</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>
<b>Diffinio deilliannau mewn perthynas â buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy</b>	5.7.4	Doedd cynlluniau gweithredu blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol Drafft ddim yn rhan o'r broses cyn graffu yn 2017/18.	Dylai'r cynlluniau gweithredu blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol Drafft ar gyfer 2018/19 wynebu proses cyn graffu er mwyn asesu sail y targedau dangosyddion cyflawniad a ph'un a fydd y camau sydd wedi'u nodi yn helpu i wireddu deilliannau sydd wedi'u diffinio, ymhlith pethau eraill.	Chwarter 1 2018/19	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyflawniad a Gwella a Rheolwr Cyflawniad
<b>Datblygu capasiti'r gwasanaeth, gan gynnwys gallu'r arweinwyr ac unigolion o fewn y gwasanaeth</b>	5.9.10	Er y caiff ffurflenni gwerthuso eu defnyddio er mwyn mesur gwerth yr hyfforddiant a gweithgareddau datblygu, nifer cyfyngedig o adborth sydd ar gael.	Yn sgil y nifer cyfyngedig o hyfforddiant a gaiff ei ddarparu ynglŷn â hyfforddiant, ymgysylltu â hyfforddeion er mwyn nodi dulliau eraill o gael adborth er mwyn sicrhau bod yr adnoddau yn darparu'r budd gorau.	Chwarter 1 2018/19 ymlaen	Pennaeth Datblygu'r Gyfundrefn
<b>Rheoli risg a chyflawniad drwy ddulliau rheoli mewnol trylwyr a dulliau rheoli arian cyhoeddus cryf</b>	5.10.19	Cafodd prosesau rheoli risg y Cyngor eu hadolygu yn 2017/18 a chafodd gwelliannau eu cyflwyno er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau ymhellach. Serch hynny, chafodd y ddogfen Rheoli Risg ddim ei hadolygu/diweddaru.	Adolygu dogfen Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor er mwyn asesu p'un a yw e'n addas at y diben o hyd ai peidio. Os bydd angen adolygu'r ddogfen, dylai staff gyflwyno'r newidiadau yma i'r Cynghorwyr eu hadolygu a'u cymeradwyo cyn iddyn nhw gael eu hail-gyhoeddi.	Chwarter 3 2018/19	Pennaeth Materion Archwilio Mewnol a Rhaglenni Datblygu Caffael
	5.10.20	Dydy dogfen Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y	Adolygu a diweddarau Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor yn ôl yr angen a rhoi gwybod i Gynghorwyr etholedig am	Chwarter 2 2018/19	Cyfarwyddwr Gwasanaeth



		Cyngor ddim wedi'i adolygu ers 2 flynedd.	ddiwygiadau er mwyn iddyn nhw eu hystyried/cymeradwyo.		– Materion Cyflawniad a Gwella
--	--	---	--	--	--------------------------------

Egwyddor/Maes Craidd	Rhif y Paragraff	Mater a Nodwyd	Argymhelliad	Amserlen ar gyfer Gweithredu	Swyddog Cyfrifol
Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol	5.11.3	Dydy'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ddim yn ddogfen annibynnol ar wefan y Cyngor.	Er mwyn gwneud y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn fwy amlwg neu godi ymwybyddiaeth ohono, dylai hon fod yn ddogfen annibynnol ar wefan y Cyngor.	Chwarter 2 2018/19	Pennaeth Materion Archwilio Mewnol a Rhaglenni Datblygu Caffael
<b><u>CYNIGION ER GWELLA I'W TROSGLWYDDO O 2016/17</u></b>					
Ymddwyn yn onest, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a pharchu'r gyfraith	Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17	Cwynion a Sylwadau – does dim diweddariadau cyson yn cael eu llunio er mwyn crynhoi'r cwynion a'r pryderon sydd ddim yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol, na'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd.	Yn unol â'r amserlen a gafodd ei llunio yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/17, dylai'r cam yma fod wedi'i gwblhau erbyn 30 Mehefin 2018.	Chwarter 1 2018/19	Pennaeth Materion Cyfreithiol – Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethol
Rheoli risg a chyflawniad drwy dulliau rheoli mewnol trylwyr a dulliau rheoli arian cyhoeddus cryf	Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17	Pwyllgor Archwilio – does dim hunanasesiad wedi'i gynnal yn erbyn y safonau sydd wedi'u hamlinellu yn nogfen CIPFA: 'Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities and Police – 2013 Edition'.	Dylai Pwyllgor Archwilio'r Cyngor, ar y cyd â'r Pennaeth Materion Archwilio Mewnol, gynnal hunanasesiad yn erbyn y safonau sydd wedi'u nodi yn nogfen CIPFA: 'Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities and Police. 2013 Edition'.	I'w lenwi pan fydd canllawiau wedi'u diweddarau ar gael	Pennaeth Materion Archwilio Mewnol a Rhaglenni Datblygu Caffael

		Mae'r broses yma wedi'i oedi am ein bod ni'n aros am ganllawiau sydd wedi'u diweddarau.			
--	--	---	--	--	--

7.2 Mae Uwch Arweinwyr y Cyngor wedi derbyn y cynigion er gwella ac maen nhw wedi ymrwymo i'w rhoi nhw ar waith yn ystod 2017/18. Mae'r Uwch Arweinwyr hefyd wedi cadarnhau y caiff y newyddion diweddaraf am gynnydd ei rannu â Phwyllgor Archwilio'r Cyngor yn ystod y flwyddyn er mwyn galluogi'r Cyngorwyr i adolygu a chraffu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Arweinydd: \_\_\_\_\_

Prif Weithredwr: \_\_\_\_\_

**ATODIAD A**

**DATGANIAD SEFYLLFA AR GYNNYDD SYDD WEDI'I WNEUD ER MWYN GWEITHREDU'R CYNIGION ER GWELLA AR GYFER 2016/17**

Egwyddor Graidd	Mater a Nodwyd	Argymhelliad	Amserlen ar gyfer Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Datganiad Sefyllfa
<p><b>Ymddwyn yn onest, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a pharchu'r gyfraith</b></p>	<p>Cafodd y weithdrefn 'Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyath a Llygru' ei diweddarau yn ddiwethaf yn 2013.</p>	<p>Dylai Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyath a Llygru'r Cyngor gael ei adolygu a'i ddiwygio lle bynnag y bo hynny'n berthnasol, a dylai'r Pwyllgor priodol ei archwilio a'i gymeradwyo. Mae hyn hefyd yn berthnasol am y Weithdrefn. Ar ôl hynny, dylai'r ddogfen sydd wedi'i diweddarau gael ei defnyddio i godi ymwybyddiaeth ym mhob rhan o'r Cyngor.</p>	<p>Chwarter 3 2017/18</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyllid Gweithrediadol</p>	<p>Wedi'i Gwblhau (wedi'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio 27/11/17 – <a href="#">dolen</a> i'r adroddiad</p>
	<p>Cwynion a Sylwadau – does dim diweddariadau cyson yn cael eu llunio er mwyn crynhoi'r cwynion a'r pryderon sydd ddim yn ymwneud â'r gwasanaethau</p>	<p>Dylai diweddariad cyson (e.e. bob blwyddyn) gael ei lunio o'r holl gwynion a sylwadau sydd ddim yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol y mae'r Cyngor yn ei dderbyn a'r camau a gafodd eu cymryd. Dylai'r adroddiad yma gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor priodol ei adolygu a chymryd camau pellach os yw hynny'n berthnasol.</p>	<p>Chwarter 1 2018/19</p>	<p><b>Pennaeth Materion Cyfreithiol – Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethol</b></p>	<p><b>Gwneud Cynnydd Da</b></p>

	cymdeithasol, na'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd.				
<b>Diffinio deilliannau mewn perthynas â buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.</b>	Dydy'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ddim yn dynodi Cynllun Cyfalaf y Cyngor dros feysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol	Yn rhan o waith diweddarau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn 2017/18, dylai adnoddau Cynllun Cyfalaf y Cyngor gael ei ddynodi dros flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol er mwyn arddangos neu flaenoriaethu'r adnoddau.	Chwarter 2 2017/18	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cyflawniad a Gwella	Wedi'i gwblhau (wedi'i adrodd i'r <a href="#">Cabinet 18/7/17</a> yn rhan o Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor)

<b>Egwyddor Graidd</b>	<b>Mater a Nodwyd</b>	<b>Argymhelliad</b>	<b>Amserlen ar gyfer Gweithredu</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>	<b>Datganiad Sefyllfa</b>
<b>Datblygu gallu arweinydd y sefydliad ac unigolion eraill</b>	Datblygiad/hyfforddiant i Gynghorwyr/gweithwyr – lle caiff hyfforddiant gweithredol ei ddarparu, dydy'r effaith/budd ddim yn cael ei nodi bob amser.	Pan gaiff gweithgarwch datblygu/hyfforddiant ei gynnal, dylai'r wybodaeth gael ei chasglu yn barhaus er mwyn helpu i arddangos pa mor effeithiol yw'r hyfforddiant yn y tymor hir a helpu i lywio anghenion yn y dyfodol.	Chwarter 3 2017/18	Pennaeth Datblygu'r Gyfundrefn	Wedi'i gwblhau yn rhannol.  Holiadur ar waith ond dim ond swm cyfyngedig o adborth sydd ar gael. I'w gario ymlaen i 2018/19.

<p><b>Rheoli risg a chyflawniad drwy ddulliau rheoli mewnol trylwyr a dulliau rheoli arian cyhoeddus cryf</b>  <b>Rheoli risg a chyflawniad drwy ddulliau rheoli mewnol trylwyr a dulliau rheoli arian cyhoeddus cryf</b></p>	<p>Rheoli Risg – Dydy Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor ddim wedi'i hadolygu na'i ddiweddarau ers 2014.</p>	<p>Dylai Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor gael ei hadolygu a'i diweddarau lle bo hynny'n berthnasol, cyn iddi gael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor priodol.</p>	<p>Chwarter 3 2017/18</p>	<p>Pennaeth Archwilio Mewnol</p>	<p>Wedi'i gwblhau. Cafodd trefniadau rheoli risg y Cyngor eu hadolygu a'u diweddarau ar y cyd â Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen a'r Prif Weithredwr yn ystod chwarter gyntaf 2017/2018.</p>
---	--	--	-------------------------------	--	--

Egwyddor Graidd	Mater a Nodwyd	Argymhelliad	Amserlen ar gyfer Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Datganiad Sefyllfa
<p><b>Rheoli risg a chyflawniad drwy ddulliau rheoli mewnol trylwyr a dulliau rheoli arian cyhoeddus cryf</b></p> <p><b>Rheoli risg a chyflawniad drwy ddulliau rheoli mewnol trylwyr a dulliau rheoli arian cyhoeddus cryf</b></p>	<p>Pwyllgor Archwilio – does dim hunanasesiad wedi'i gynnal yn erbyn y safonau sydd wedi'u hamlinellu yn nogfen CIPFA 'Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities and Police – 2013 Edition'.</p>	<p>Dylai Pwyllgor Archwilio'r Cyngor, ar y cyd â'r Pennaeth Materion Archwilio Mewnol, gynnal hunanasesiad yn erbyn y safonau sydd wedi'u nodi yn nogfen CIPFA: 'Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities and Police. 2013 Edition'.</p>	<p>Chwarter 4 2017/18</p>	<p>Pennaeth Archwilio Mewnol</p>	<p>I'w gario ymlaen i 2018/19.</p> <p>Dylai dogfen CIPFA, 'Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities and Police. 2013 Edition' fod wedi'i ddiweddarau a'i ailgyhoeddi yn ystod chwarter 4 o 2017/2018. Serch hynny, ar adeg cyhoeddi'r datganiad llywodraethu yma, doedd dim diweddariad wedi'i ryddhau. O ganlyniad i hyn, caiff y gwaith yma ei gynnal yn ystod 2018/19 (ar ôl derbyn y canllawiau sydd wedi'u diweddarau).</p>

Egwyddor Graidd	Mater a Nodwyd	Argymhelliad	Amserlen ar gyfer Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Datganiad Sefyllfa
<p><b>Rheoli risg a chyflawniad drwy ddulliau rheoli mewnol trylwyr a dulliau rheoli arian cyhoeddus cryf</b></p> <p><b>Rheoli risg a chyflawniad drwy ddulliau rheoli mewnol trylwyr a dulliau rheoli arian cyhoeddus cryf</b></p>	<p>Rheoli Gwybodaeth – does dim diweddariad wedi'i ddarparu sy'n amlinellu gwaith a chyflawniad y Cyngor yn y maes yma.</p>	<p>Dylai'r Cyngor ddarparu adroddiad rheolaidd (e.e. bob blwyddyn) ynglŷn â'i waith a'i gyflawniad ym maes Rheoli Gwybodaeth a sicrhau bod modd arolygu'r gwaith a chraffu arno.</p>	<p>Chwarter 4 2017/18</p>	<p>Pennaeth TGCh</p>	<p>Wedi'i gwblhau.</p> <p>Cafodd trosolwg o drefniadau gweithredu/llywodraethu Rheoli Gwybodaeth y Cyngor ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ei gyfarfod ar <u>14 Tachwedd 2017</u>.</p> <p>Ar ôl derbyn yr adroddiad yma, penderfynodd y Pwyllgor i dderbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â threfniadau Rheoli Gwybodaeth cyffredinol y Cyngor. Mae disgwyl i hwn gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar ddechrau blwyddyn newydd y Cyngor.</p>

\*\*\*\*\*



## **Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf**

### **Hanes y Gronfa**

Cafodd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ei sefydlu o 1 Ebrill 1996 pan gafodd Llywodraeth Leol ei ad-drefnu yng Nghymru o dan y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru), 1995. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yn agored i bob gweithiwr Llywodraeth Leol ac eithrio athrawon, sydd â'u cynllun eu hunain. Mae'r cynllun hefyd ar agor i weithwyr mewn sefydliadau eraill sydd wedi'u derbyn yn y Gronfa.

Mae Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn cynnig buddiannau i weithwyr o Gynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful, yn ogystal â gweithwyr o tua 40 o gyrff eraill. Mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r Gronfa yn cynnwys:

- Cyrff rhestredig, sef awdurdodau lleol a chyrrff tebyg y mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a dderbynnir, sef sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Gronfa o dan gytundeb derbyn rhwng y Gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae cyrrff a dderbynnir yn cynnwys cyrrff gwirfoddol, elusennol a chyrrff tebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol yn dilyn contractio gwaith allanol i'r sector preifat.

### **Gweinyddu'r Gronfa a Buddsoddiadau**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gyfrifoldeb dros ddehongli deddfwriaeth pensiynau, creu a chadw cofnodion, cyfrifo a thalu budd-daliadau a darparu gwybodaeth i weithwyr, cyflogwyr a chyrrff perthnasol eraill.

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn gyfrifol am drefnau gwaith rheoli strategol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn unol â'i gylch gorchwyl.

Mae Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen (ac yntau'n Swyddog S151) a gaiff ei gefnogi gan Banel Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa, wedi dirprwyo cyfrifoldeb am yr holl faterion gweithredol o ddydd i ddydd.

Caiff Panel Gweinyddu a Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn yw Cyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen Rhondda Cynon Taf, ac mae'r aelodau'n cynnwys dau ymgynghorydd buddsoddiadau annibynnol ac uwch-swyddogion cyllid eraill.

Bydd y panel yn cyfarfod bob chwarter i ystyried materion gweinyddu a buddsoddi ac i bennu polisi yn ôl sefyllfa'r farchnad ac i holi a herio'r Rheolwyr Materion Buddsoddi am eu gweithgarwch a'u cyflawniad. Ar ddyddiad y Datganiad Asedau Net roedd chwech o Reolwyr Materion Buddsoddi yn cyflawni'r gwaith o reoli buddsoddiadau asedau'r Gronfa o ddydd i ddydd:

- Baillie Gifford (Ecwiti Byd-eang ac Ecwiti Alpha Uchel)
- Newton (Ecwiti Alpha Uchel)
- BlackRock (Ecwiti'r DU ac Ecwiti Goddefol)
- Invesco (Ecwiti'r DU)

- BMO Global Asset Management (Bondiau)
- CBRE (Eiddo)

Cafodd y Bwrdd Pensiynau ei sefydlu yn unol â gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, er mwyn helpu Cyngor Rhondda Cynon Taf, ac yntau'n "Rheolwr Cynllun", i lywodraethu a gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf mewn modd effeithiol ac effeithlon.

### **Partneriaeth Pensiynau Cymru**

Ar 15 Mawrth 2017, cymeradwyodd y Cyngor y gwaith o sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd i oruchwylio'r broses cyfuno buddsoddiadau ar gyfer yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru wedi penodi Link Fund Solutions Ltd. (Link) i sefydlu a chynnal cerbyd buddsoddiadau ar y cyd at ddefnydd Cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi cydrannu asedau ar draws ystod o fathau o asedau. Bydd cronfeydd y CPLIL yn cadw rheolaeth lawn dros benderfyniadau dyrannu asedau strategol.

O 31 Mawrth 2018 does dim asedau wedi'u trosglwyddo i'r cerbyd buddsoddi ar y cyd newydd.

**Cyfrif y Gronfa**

2016/17			2017/18	
£'000		Note:	£'000	£'000
	<b>Cyfraniadau</b>			
(83,216)	Cyfraniadau gan y Cyflogwyr	8.0	(93,945)	
(25,388)	Cyfraniadau gan yr Aelodau	8.0	(26,052)	
<b>(108,604)</b>				<b>(119,997)</b>
	<b>Trosglwyddiadau wedi'u derbyn gan Gronfeydd Pensiwn eraill</b>			
0	Trosglwyddiadau grŵp wedi'u derbyn gan gronfeydd neu gynlluniau eraill		(17,545)	
(3,939)	Trosglwyddiadau unigol allan o gronfeydd neu gynlluniau eraill		(4,246)	
				<b>(21,791)</b>
(3,599)	<b>Incwm arall</b>		(2,960)	
				<b>(2,960)</b>
<b>(116,142)</b>				<b>(144,748)</b>
	<b>Buddion</b>			
97,391	Pensiynau		100,162	
18,504	Cymudiad o bensiynau a buddion chyfandaliadau adeg ymddeol		16,736	
2,573	Buddion Cyfandaliadau marwolaeth		2,846	
<b>118,468</b>		8.0		<b>119,744</b>
	<b>Taliadau i weithwyr a adawodd</b>			
244	Ad-daliadau i weithwyr a adawodd y Cynllun neu'r Gronfa		221	
101	Taliadau i aelodau a oedd yn ymuno â'r Cynllun neu'r Gronfa		37	
0	Trosglwyddiadau grŵp i gynlluniau eraill		1,088	
8,094	Trosglwyddiadau unigol i gynlluniau eraill		6,680	
<b>8,439</b>				<b>8,026</b>
<b>126,907</b>				<b>127,770</b>
10,765	Ychwanegiadau / (Alldyniadau) Net o ganlyniad i ymdrin ag aelodau		(16,978)	
				<b>(16,978)</b>
11,499	Treuliau Rheoli'r Buddsoddiadau	9.0	10,779	
				<b>10,779</b>
<b>22,264</b>	<b>Ychwanegiadau / (Alldyniadau) Net yn cynnwys Treuliau Rheoli'r Gronfa</b>			<b>(6,199)</b>
	<b>Incwm Buddsoddiadau</b>			
(32,203)	Difidend soddgyfrannau		(36,566)	
(20,067)	Incwm o fondiau		(20,128)	
(2,539)	Incwm o gronfeydd buddsoddi		(2,944)	
(7,230)	Incwm o gronfeydd buddsoddi (eiddo)		(6,541)	
(38)	Llog ar adneuon arian parod		(41)	
<b>(62,077)</b>				<b>(66,220)</b>
				<b>Parhad trosodd...</b>

(477,314)	<b>(Elw) a cholledion ar waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau</b>		(135,030)	
				<b>(135,030)</b>
744	<b>Trethi ar Incwm</b>		886	
				<b>886</b>
<b>(538,647)</b>	<b>Enillion Net ar Fuddsoddiadau</b>			<b>(200,364)</b>
<b>(516,383)</b>	<b>(Cynnydd) / Gostyngiad Net ar Asedau sydd ar gael ar gyfer buddion yn y</b>			<b>(206,563)</b>
<b>(2,483,148)</b>	<b>Asedau Net Agoriadol</b>			<b>(2,999,531)</b>
<b>(2,999,531)</b>	<b>Asedau Net wrth Gau</b>			<b>(3,206,094)</b>

**Datganiad o'r Gwir Asedau**

31/03/2017			31/03/2018	
£'000		Note:	£'000	£'000
	<b>Asedau Buddsoddi</b>	4.0		
1,823,693	Soddyfrannau		1,973,190	
566,144	Bondiau		581,747	
81,025	Cronfeydd buddsoddi - Cwmnïau Buddsoddi Penagored		117,649	
280,565	Cronfeydd buddsoddi - Cronfeydd â chyfyngiadau		276,219	
169,498	Cronfeydd buddsoddi - Eiddo		167,831	
<b>2,920,925</b>				<b>3,116,636</b>
<b>63,023</b>	<b>Adneuon Arian parod</b>			<b>80,192</b>
	<b>Balansau buddsoddi eraill</b>			
6,284	Llog Cronedig		6,331	
11,113	Dyledwyr buddsoddi		7,093	
2,575	Treth mae modd Adennill		1,871	
<b>19,972</b>				<b>15,295</b>
<b>3,003,920</b>				<b>3,212,123</b>
	<b>Rhwymedigaethau</b>			
<b>(10,220)</b>	Credydwyr buddsoddi			<b>(8,498)</b>
<b>2,993,700</b>	<b>Asedau Buddsoddi Net</b>			<b>3,203,625</b>
	<b>Asedau Cyfredol</b>			
5,209	Cyfrandaliadau sy'n ddyledus oddi wrth gyflogwyr a gweithwyr	10.0	5,750	
3,055	Balansau arian parod		0	
20	Symiau sy'n ddyledus oddi wrth CBSRCT		0	
1,300	Asedau eraill		479	
<b>9,584</b>				<b>6,229</b>
	<b>Rhwymedigaethau Cyfredol</b>			
<b>(3,753)</b>	Rhwymedigaethau Cyfredol			<b>(3,760)</b>
<b>2,999,531</b>	<b>Asedau net y cynllun sydd ar gael i'r gronfa buddion ar ddiwedd y cyfnod</b>			<b>3,206,094</b>

Mae'r cyfrifon yma'n crynhoi trafodion y cynllun ac yn cynnwys y gwir asedau hynny sydd at ddefnydd yr ymddiriedolwyr. Dydy'r cyfrifon yma ddim yn cynnwys ymrwymadau talu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae crynodeb o sefyllfa actiwaraidd y cynllun, sy'n rhoi ystyriaeth i'r ymrwymadau yma, wedi'i gynnwys yn nodyn 3. Dylech chi ddarllen y cyfrifon yma ar y cyd â'r Adroddiad Gwerthuso Actiwaraidd.

## **1.0 Cyflwyniad**

Rydyn ni wedi paratoi'r cyfrifon yma yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol (CIPFA) 2017/18 sy'n seiliedig ar safonau IFRS ar gyfer y sector cyhoeddus yn y DU. Mae Adroddiad y Gronfa Bensiwn fwy manwl ar gael ar gais oddi wrth Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen.

## **2.0 Polisiau Cyfrifo**

### **2.1 Cysyniad Croniadau**

Mae'r cysyniad cronïadau yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dosbarthau materol incwm a gwariant, ac eithrio gwerthoedd trosglwyddo ag arian. Caiff y rhain eu cyfrif yn ystod blwyddyn lle daw'r dyddiad trosglwyddo i rym, neu yn ystod y flwyddyn lle mae'r actwari yn prisia'r trosglwyddiad os yw'r hwyrach na hynny. Mae'r dosbarthau yma'n cynnwys cyfraniadau cronfa, incwm buddsoddiadau, buddion a dalwyd, costau gweinyddu, ffioedd rheolaeth ar fuddsoddiadau a ffioedd ymgynghorwyr.

### **2.2 Prisio Buddsoddiadau Offerynnau Ariannol**

Yn nhermau 'Gwerth Teg', mae pris wedi'i nodi ar gyfer pob buddsoddiad mewn marchnad weithredol, ac eithrio Cronfeydd Eiddo ar y Cyd. Mae gwariannau rhestredig wedi'u prisiau yn ôl IAS 39, gan ddefnyddio prisiau canol y farchnad o Farchnadoedd Stoc cydnabyddedig ar 31 Mawrth 2018. Mae gwarantau llog sefydlog wedi'u prisiau'n "lân", ac eithrio llog cronedig. Mae prisiau Sterling mewn perthynas â gwariannau sy'n cael eu henwi mewn arian tramor wedi'u seilio ar gyfraddau cyfnewid ar 31 Mawrth 2018.

Mae cronfeydd o fuddsoddiadau eiddo yn cael eu prisiau drwy dechnegau prisio dibynadwy i bennu 'Gwerth Teg'. Mae pris buddsoddiadau mewn eiddo yn seiliedig ar brisiadau annibynnol proffesiynol. Does dim angen dyfarniadau na thybïaethau sylweddol ar unrhyw ased er mwyn pennu 'Gwerth Teg'.

### **2.3 Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol**

Mae modd i aelodau o'r cynllun ddewis rhoi cyfraniadau ychwanegol tuag at eu pensiwn o'u cyflogau. Yn unol â rheol 5(2)(b), Rheoliadau Cronfa Bensiwn (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016, rydyn ni heb gynnwys Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol yn rhan o'r cyfrifon.

£1,245k (£1,210k yn 2016/17) oedd cyfanswm Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol yn ystod y flwyddyn. Gwerth ar y farchnad y Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol sy'n cael eu buddsoddi ar wahân ar ddyddiad y fantolen oedd £7,604k (£8,094k yn 2016/17).

Mae dau ddarparwr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, a dim ond un oedd yn gallu darparu ffigurau dros dro.

## **2.4 Costau Prynu a Gwerthu**

Mae costau trafodion buddsoddiadau wedi'u cynnwys yn rhan o gostau o brynu neu wedi'u cynnwys yn rhan o wir elw/colledion gwerthiannau, yn unol â'r hyn sy'n addas. Mae costau trafodion yn cynnwys ffioedd, comisiynu a dyletswyddau. Gwerthu costau trafodion yn 2017/18 oedd £0.7m (£0.7m yn 2016/17).

Yn ogystal â'r costau uniongyrchol sy wedi'u nodi uchod, mae costau anuniongyrchol sy'n codi trwy gynnig pris ar fuddsoddiadau sy'n rhan o gronfeydd buddsoddi yn gymwys. Dydy'r cynllun ddim yn cael gwybodaeth am gostau anuniongyrchol ar wahân.

## **2.5 Trethu**

Ac yntau'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig, mae'r Gronfa Bensiwn wedi'i heithrio rhag talu treth incwm a threth cynnydd cyfalaf gwledydd Prydain. Ac eithrio'r achosion hynny lle bod caniatâd rhag talu treth wedi'i roi, mae incwm mewn gwledydd tramor yn ostyngedig i dreth sy'n cael ei chadw'n ôl yn y wlad mae'n deillio ohoni.

Rydyn ni'n cyfri'r dreth does dim modd ei hadennill yn wariant yng Nghyfrif y Gronfa, a chaiff unrhyw dreth y mae modd ei hadennill ei dangos fel Ased yn y Datganiad o'r Gwir Asedau.

Mae atebolrwydd bychan o ran treth incwm ar ad-daliadau cyfraniadau a phensiynau cyfwerth (pensiynau bach wedi'u trosi i gyfandaliadau). Mae'r taliadau yma'n cael eu talu i adran Cyllid a Thollau ei Mawrhydi bob 3 mis.

Mae modd adennill TAW ar holl weithgareddau, felly mae'r cyfrifon wedi'u cyflwyno heb gynnwys TAW.

## **3.0 Sefyllfa Actwaraidd**

Cynhaliodd Actiwari'r Gronfa, AON Hewitt, brisiad actiwaraidd o'r Gronfa ar 31 Mawrth 2016 yn unol â Rheoliad 36 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2013. Caiff prisiadau actiwaraidd eu cynnal bob dwy flynedd a chaiff nifer o ragdybiaethau allweddol eu gwneud.

Mae'r fethodoleg i gyfrifo atebolrwydd y Gronfa Bensiwn yn adlewyrchu tybiaethau ac amcangyfrifon yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddwyd, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau a dychweliad disgwylid ar asedau'r Gronfa Bensiwn.

Pan fo prisiad yn datgelu diffyg (neu warged), caiff cyfraddau cyfraniad cyflogwyr eu haddasu i geisio adfer cymhareb ariannu o 100%. Mae'r cyfnod adennill ar gyfer pob cyflogwr wedi'i osod gan yr Awdurdod Gweinyddol mewn ymgynghoriad â'r Actiwari.

Nod polisi cyllido'r cynllun yw sicrhau bod:

- Cyfraddau cyfraniad cyflogwr yn aros mor gyson â phosibl ac am gost resymol i'r cyflogwyr a'r trethdalwyr.
- Digon o adnoddau ar gael i fodloni'r holl rwymedigaethau wrth iddyn nhw fod yn ddyledus.
- Rhwymedigaethau cyflogwyr yn cael eu rheoli'n effeithiol trwy geisio cyngor actiwaraidd rheolaidd.
- Incwm o fuddsoddiadau yn cael ei ddefnyddio yn y modd gorau o fewn paramedrau risg rhesymol.

Mae canlyniad y prisiad 2016 i'w weld yn y tabl isod:

	31/03/2016	31/03/2013
	£'m	£'m
Targed Cyllid	3,064	2,665
Gwerth Marchnad Asedau	2,485	2,080
Diffyg Cyllid	579	585
Cymhareb Cyllid	81%	78%

Cyfradd cyfraniad gwasanaeth y cyflogwr cyfan yn y dyfodol yw 17.1% o dâl pensiynadwy. I adfer y gymhareb gyllido i 100% gan ddefnyddio cyfnod adennill o 22 mlynedd, rydyn ni'n cyfrifo bod cyfradd gyfraniad cyflogwyr cyfan yn 24.3%.

Bydd cyfraddau cyfraniad sy'n daladwy gan bob cyflogwr cynllun yn amrywio yn dibynnu ar eu hamgylchiadau penodol. Bydd rhai cyflogwyr hefyd yn gwneud cynnydd mewn cyfraniadau dros gyfnod o hyd at 3 blynedd. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adroddiad actiwaraidd.

Mae cyfraddau cyfraniad wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r Dull Uned Rhagamcanedig ar gyfer y rhan fwyaf o gyflogwyr. Cafodd y Dull Oedran Cyrhaeddiad ei ddefnyddio ar gyfer rhai cyflogwyr sydd ddim yn caniatáu i weithwyr newydd ymuno â'r Gronfa. Mae'r rhagdybiaethau allweddol a wnaed wedi'u rhestru yn y tabl canlynol:



Rhagdybiaeth	Prisiad 2016	Prisiad 2013
	% y flwyddyn	% y flwyddyn
Cyfradd Cyfartalog Disgownt Mewn Gwasanaeth	4.5%	5.6%
Cyfradd Cyfartalog Disgownt Gadael Gwasanaeth	4.5%	5.6%
Chwyddiant RPI	3.1%	3.3%
Chwyddiant CPI	2.0%	2.4%
Codiadau Tâl Pensiynadwy	3.25%	3.9%
Rhagdybiaeth o farwolaethau ar ôl ymddeol - tabl sylfaen	Tablau arferol SAPS gyda ffactorau graddio Dynion 100% Merched 100%	Tablau arferol SAPS gyda ffactorau graddio Dynion 100% Merched 95%
Rhagdybiaeth o farwolaethau ar ôl ymddeol - gwelliannau yn y dyfodol	Rhagamcaniadau craidd CMI 2014 gyda chyfradd gwella tymor hirdymor o 1.5% y flwyddyn	Rhagamcaniadau craidd CMI 2012 gyda chyfradd gwella tymor hirdymor o 1.5% y flwyddyn

Yn ychwanegol at y prisiad ariannu tair blynedd, mae actiwari'r Gronfa hefyd yn ymgymryd â phrasiad o rwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, ar sail IAS 19, bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol wrth i'r prisiad ariannu gael ei gyflwyno ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried newidiadau yn niferoedd aelodaeth ac yn diweddarau tybiaethau i'r flwyddyn gyfredol. Dydy'r prisiad hwn ddim yn cael ei wneud ar yr un sail â'r hyn a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer gosod cyfraddau cyfraniad y Gronfa a dydy Cyfrifon y Gronfa ddim yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol.

Er mwyn asesu gwerth y buddion ar y sail yma, mae'r actiwari wedi diweddarau'r rhagdybiaethau actiwaraidd (a nodir isod) o'r rhai a gafodd eu defnyddio at ddibenion cyllido.

Mae'r actiwari hefyd wedi defnyddio buddion iechyd gwael a marwolaethau gwerthfawr yn unol â IAS 19.

Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatgelu'r berthynas rhwng gwerth presennol actiwaraidd buddion ymddeol a addawyd a'r gwir asedau.

	Gwerth ar 31/03/2016	Gwerth ar 31/03/2013
	£'m	£'m
Gwerth Teg asedau net	2,485	2,079
Gwerth presennol actiwaraidd y buddion sydd wedi'u addo adeg ymddeol	3,471	3,200
Gwarged / (diffyg) yn y Gronfa fel sy wedi'i fesur ar gyfer Pwrpasau IAS 26	(985)	(1,121)

Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae'r rhwymedigaethau uchod yn cael eu cyfrifo ar sail IAS 19 ac felly byddan nhw'n wahanol i ganlyniadau prisiad cyllido tair blynedd bob blwyddyn 2016 oherwydd mae IAS 19 yn pennu

cyfradd ddisgownt yn hytrach na chyfradd sy'n adlewyrchu cyfraddau'r farchnad.

#### 4.0 **Dadansoddiad o'r Buddsoddiadau ar sail Gwerth Teg**

	2016/17		2017/18	
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b><u>Soddgyfrannau</u></b>				
Y DU	446,452		473,325	
Tramor	1,377,241		1,499,865	
		<b>1,823,693</b>		<b>1,973,190</b>
<b><u>Bondiau</u></b>				
Y DU	504,792		552,838	
Tramor	61,352		28,909	
		<b>566,144</b>		<b>581,747</b>
<b><u>Yn gysylltiedig â mynegai</u></b>				
Y DU	0		0	
Tramor	0		0	
		<b>0</b>		<b>0</b>
<b><u>Cronfeydd buddsoddi</u></b>				
Y DU	164,456		156,755	
Tramor - arall	197,134		237,113	
		<b>361,590</b>		<b>393,868</b>
<b><u>Cronfeydd buddsoddi - eiddo</u></b>				
Y DU - arall	162,407		165,342	
Tramor - arall	7,091		2,489	
		<b>169,498</b>		<b>167,831</b>
<b>Cyfanswm y buddsoddiadau hirdymor</b>		<b>2,920,925</b>		<b>3,116,636</b>

Dyw'r Gronfa ddim yn ymgymryd ag unrhyw drefniadau ar gyfer rhoi stoc ar fenthyg. Mae'r buddsoddiadau i gyd, ar wahân i eiddo, wedi'u nodi'n fuddsoddiadau a ddyfynnwyd, sy wedi'u pennu'n fuddsoddiadau ar sail gwerth teg a bu dim gwaith ailddosbarthu. Mae gwerthoedd yr asedau sy wedi'u cario yn y fantolen yr un peth â'r Gwerth Teg uchod.

Mae'r buddsoddiadau uchod yn Offerynnau Ariannol wedi'u dynodi'n "Werth Teg drwy Elw a Cholled". Mae pob incwm yn sgil buddsoddi, elw/colled ar waredu buddsoddiadau, a newidiadau yng ngwerth y buddsoddiadau yng Nghyfrif y Gronfa yn codi o Offerynnau Ariannol wedi'u dynodi yn "Werth Teg drwy Elw a Cholled", ac eithrio llog ar Arian Parod. Mae arian parod yn Offerynnau Ariannol wedi'u dynodi'n "Fenthyciadau a Derbyniadau".

Mae'r soddgyfrannau a'r arian parod wedi'u crybwyll wedi'u categorio yn hierarchaeth gwerth teg lefel 1. Mae bondiau a chronfeydd buddsoddi (eiddo) wedi'u categorio yn hierchiaeth gwerth teg lefel 2.

## 5.0 Dyranid Asedau Rheolwr y Gronfa

Mae manylion gwerth marchnad buddsoddiadau Rheolwyr y Gronfa i'w gweld yn y tabl canlynol:

Rheolwr y Gronfa	Gwerth y Farchnad		Cyfran y Gronfa	
	31/03/2017 £'000	31/03/2018 £'000	31/03/2017 %	31/03/2018 %
Baillie Gifford (Soddgyfrannau)	656,126	734,706	22.0	22.9
Baillie Gifford (Soddgyfrannau High Alpha)	661,065	748,744	22.2	23.4
Newton (Soddgyfrannau High Alpha)	493,328	502,347	16.5	15.7
Invesco (Soddgyfrannau'r DU)	146,034	137,544	4.9	4.3
BlackRock (Soddgyfrannau'r DU)	138,748	139,837	4.7	4.4
BlackRock (Soddgyfrannau Goddefol)	134,531	138,755	4.5	4.3
BMOgam (Bondiau)	573,558	589,971	19.2	18.4
CBRE (Eiddo)	173,373	174,860	5.8	5.4
Mewnol	7,005	36,861	0.2	1.2
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,983,768</b>	<b>3,203,625</b>	<b>100</b>	<b>100</b>

Doedd dim buddsoddiad unigol yn cyfrif am fwy na 5% o asedau'r Gronfa.

Mae gwerth marchnad y buddsoddiadau yn y tabl yma'n cynnwys buddsoddiadau tymor byr fel gweddill arian neu adneuon arian felly mae'n wahanol i gyfanswm y buddsoddiadau tymor hir yn unig, fel sydd wedi'i nodi yn 4.0.

Rydyn ni'n ceisio mynd i'r afael ag elfennau o risg buddsoddiadau trwy gyflogi nifer o reolwyr y gronfa mewn ymgais i reoli risg rheolwyr, a gyda mandadau sy'n cynnwys ystod o asedau gan gynnwys soddgyfrannau, bondiau ac eiddo. Mae disgwyl i reolwyr gynnal casgliad eang o gyfrifon buddsoddi a chydymffurfio â rheoliadau buddsoddi Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau ychwanegol sy'n rhan o'u mandadau. Mae'r sector gwladol a diwydiant yn amrywio buddsoddiadau gwaelodol ymhellach.

Caiff cyflawniad pob rheolwr ei fesur bob chwarter yn erbyn targed sydd wedi'i ddynodi yn erbyn meincnod penodol. Yn ei hanfod, mae hyn yn rhwystro rheolwyr rhag symud i ffwrdd yn rhy bell oddi wrth y nod, ond yn caniatáu peth hyblygrwydd i chwyddo elw ar fuddsoddiadau ar yr un pryd.

## 6.0 Treuliau annisgwyl

Mae ymrwymadau wrth gefn gwerth £555k (£449k yn 2016/17 ar gyfer cyfraniadau y mae modd eu had-dalu i weithwyr sydd wedi gadael ac sydd heb hawlio ad-daliadau.

## 7.0 Cysoni Prisiad Asedau Buddsoddi

Mae'r prisiau buddsoddi agoriadol a chau wedi'i nodi isod.

	Gwerth y Farchnad 01/04/17	Pryniannau	Gwerthu ar Gost Llyfr Hanesyddol	Newid yng ngwerth y farchnad	Gwerth y Farchnad 31/03/18
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Bondiau	566,144	575,712	(540,066)	(20,043)	581,747
Soddyfrannau	1,823,693	399,348	(247,229)	(2,622)	1,973,190
Cronfeydd buddsoddi	361,590	27,061	(428)	5,645	393,868
Cronfeydd buddsoddi - eiddo	169,498	9,134	(21,846)	11,045	167,831
	<b>2,920,925</b>	<b>1,011,255</b>	<b>(809,569)</b>	<b>(5,975)</b>	<b>3,116,636</b>
Adneuon Arian Parod	63,023			141,005	80,192
Dyledwyr Buddsoddi	19,972				15,295
Credydwyr Buddsoddi	(10,220)				(8,498)
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,993,700</b>			<b>135,030</b>	<b>3,203,625</b>

## 8.0 Cyfraniadau a Dderbyniwyd a Buddion Taladwy

Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfraniadau a dderbyniwyd a'r buddion a dalwyd.

Math o Gorff	Cyfraniadau Gweithwyr		Cyfraniadau gan y Cyflogwyr		Pensiynau, Cyfandaliadau a Buddion	
	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gweinyddu	8,018	8,197	28,285	33,402	31,017	31,034
Wedi'i ganiatáu	3,376	3,442	14,076	13,907	13,654	13,776
Wedi'l amserlennu	13,994	14,413	40,855	46,636	73,797	74,934
<b>Cyfanswm</b>	<b>25,388</b>	<b>26,052</b>	<b>83,216</b>	<b>93,945</b>	<b>118,468</b>	<b>119,744</b>

Mae cyfraniadau cyflogwyr yn cynnwys £9,649k o gyfraniadau ariannu diffyg (£8.179k yn 2016/17). Does dim cyfraniadau estynedig.

## 9.0 Treuliau Rheoli'r Buddsoddiadau

Dyma dreuliau rheolwyr y Gronfa a wynebodd y Gronfa Bensiwn yn 2017/18:

	<b>2016/17</b>	<b>2017/18</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Costau Gweinyddu	1,748	1,828
Treuliau Rheoli'r Buddsoddiadau	9,456	8,642
Costau Goruchwylio a Llywodraethu	295	309
<b>Cyfanswm</b>	<b>11,499</b>	<b>10,779</b>

Mae hyn yn cyfateb i 0.27% (0.33% yn 2016/17) o werth Cronfa Bensiwn ar 31 Mawrth, 2018.

Dyma dreuliau rheoli'r buddsoddiadau a wynebodd y gronfa yn 2017/18:

	<b>2016/17</b>	<b>2017/18</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Treuliau Rheolwyr	6,479	6,265
Ffioedd yn ymwneud â chyflawniad	2,033	1,452
Ffioedd Ceidwaid	264	201
Costau Trafodion	680	724
<b>Cyfanswm</b>	<b>9,456</b>	<b>8,642</b>

## **10.0 Trafodion â Phartion Perthynol**

Yng nghwrs cyflawni'i swyddogaethau yn awdurdod gweinyddu, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn rhoi gwasanaethau i'r Gronfa. Cododd y Cyngor ffioedd o £1.6m (£1.5m yn 2016/15) am hynny. Mae'r treuliau yma'n bennaf ynghylch y gweithwyr hynny sy'n cael eu cyflogi i ofalu am gynnal gwasanaeth pensiynau.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd cyfraniadau a oedd yn ddyledus oddi wrth Gyrrff Cyflogwyr gwerth £5.8 miliwn (£5.2 miliwn yn 2016/17). Roedd £4.4 miliwn yn gyfraniadau cyflogwyr, a £1.4 miliwn yn gyfraniadau gweithwyr.

Mae rhai aelodau o Banel Gweinyddu a Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn, Bwrdd y Gronfa Bensiwn a Phwyllgor y Gronfa Bensiwn hefyd yn aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf.

Mae gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn swyddogaeth y Cyngor llawn, gyda chyfrifoldeb am benderfyniadau beunyddiol yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen. Yn hyn o beth, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gyfadran ddatgan unrhyw fuddiannau gyda phartion cysylltiedig. Mae modd dod o hyd i'r datguddiad ym mhrif gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae modd dod o hyd i daliadau Aelodau a Swyddogion ym mhrif gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

## **11.0 Aelodaeth y Gronfa**

Aelodaeth y Gronfa ar 31 Mawrth:

	<b>2017</b>	<b>2018</b>
Cyflogwyr Gweithredol	49	49
Cyfranwyr	23,918	24,109
Pensiynwyr	16,315	16,609
Dibynyddion	2,640	2,653
Buddiolwyr Gohiriedig	24,641	25,956

## **12.0 Arian wedi'i Drosglwyddo gan Grwpiau**

Trosglwyddodd y Gronfa £1.1 miliwn i Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg mewn perthynas â Swyddfa Gofnodion Morgannwg.

Cafodd y Gronfa £7.8 miliwn gan Gronfa Bensiwn Gwent Ehangach (Torfaen) mewn perthynas â Phrifysgol De Cymru, yn ogystal â £9.7 miliwn o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg mewn perthynas â Chydwasanaethau Addysg Consortiwm Canolbarth y De.

## **13.0 Natur a Gradd y Risgiau sy'n Deillio o Gytundebau Ariannol**

Ystyr cytundeb ariannol yw unrhyw fath o gontract sy'n rhoi cychwyn ar ased ariannol ar gyfer un corff ac atebolwydd ariannol (neu gytundeb ecwiti) ar gyfer corff arall. Mae tair prif ffordd y mae modd i'r Gronfa Bensiwn wynebu risg gan gytundebau ariannol:

- Risg o ran Credyd
- Risg o ran Hylifedd
- Risg o ran y Farchnad

Y nod cyffredinol yw lleihau'r risg y bydd gwerth y Gronfa'n dirywio, a manteisio i'r eithaf ar y cyfle i wneud enillion o fewn paramedrau risg rhesymol.

Mae'r Datganiad o'r Strategaeth Ariannu yn nodi risgiau allweddol i'r Gronfa Bensiwn, yn ogystal â'r gwrthfesuerau a gafodd eu cymryd i leihau'r risgiau.

### **13.1 Risg o ran Credyd**

Risg Credyd yw'r posibilrwydd y bydd gwrthbarti yn methu â chyflawni ei ddyletswydd i'r Gronfa Bensiwn, gan beri colled ariannol. Ystyr 'gwrthbarti' yw banciau a sefydliadau ariannol sy'n gyfrifol am y buddsoddiadau, cyflogwyr o fewn y Gronfa a Rheolwyr Materion Buddsoddi. Caiff y risg y bydd gwrthbartïon yn methu â chyflawni eu dyletswyddau ei reoli mewn nifer o ffyrdd:

- Rhaid i wrthbartïon ar gyfer buddsoddiadau arian parod gan yr Awdurdod Gweinyddu fodloni'r meini prawf manwl sydd wedi'u

hamlinellu yn Strategaeth Rheoli Trysorlys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

- Mae'n bosibl y bydd gofyn i gyflogwyr sy'n cymryd rhan ddarparu arian bond er mwyn mynd i'r afael â'r risg i'r Gronfa os fydd dim modd iddyn nhw gyflawni eu dyletswyddau o ran cyfraniadau pensiwn.
- Mae Rheolwyr Materion Buddsoddi yn rheoli cronfeydd sydd wedi'u hagor yn enw'r Gronfa Bensiwn, nid yn enw'r Rheolwyr Materion Buddsoddi. Os fydd dim modd i'r Rheolwr Materion Buddsoddi gyflawni'i ddyletswyddau, fydd buddsoddiadau'r Gronfa ddim yn cael eu hystyried yn rhan o'u portffolio asedau.

Does dim gwrthbartïon wedi methu â chyflawni eu dyletswyddau o ran y Gronfa Bensiwn dros y bum mlynedd ddiwethaf. Roedd yr Awdurdod Gweinyddu yn cadw £30.8 miliwn o flaendal arian parod ar gyfer y Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2018, a hynny ar gyfer y sefydliadau sydd wedi'u nodi isod.

Sefydliad	Balans ar 31/03/18 £'000	Dyddiad aeddfedu
Cyngor Stockport	2,200	03/04/2018
Swyddfa Rheoli Dyledion	3,300	04/04/2018
Cyngor Ardal Metropolitan Wakefield	5,000	05/04/2018
Swyddfa Rheoli Dyledion	5,000	06/04/2018
Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu Throseddu Heddlu Humberside	4,000	09/04/2018
Swyddfa Rheoli Dyledion	5,000	10/04/2018
Cyngor Bournemouth	1,000	11/04/2018
Swyddfa Rheoli Dyledion	5,330	11/04/2018
<b>Cyfanswm</b>	<b>30,830</b>	

Mae Strategaeth Reoli 'r Trysorlys yn gosod cyfyngiad o £15 miliwn ar gyfer blaendal arian parod gydag Awdurdodau Lleol unigol.

### 13.2 Risg o ran Hylifedd

Ystyr 'risg o ran hylifedd' yw'r risg na fydd modd i'r Gronfa Bensiwn gyflawni ei ddyletswyddau ariannol pan fyddan nhw'n ddyledus. Caiff y risg yma ei reoli drwy:

- Cynnal model monitro a rhagweld arian parod trylwyr.
- Sicrhau bod modd i'r Gronfa Bensiwn gael gafael ar arian parod yn y tymor byr a'r tymor canolig er mwyn talu pensiynau drwy reoli llif arian parod drwy fuddsoddiadau yn y farchnad arian.
- Cymryd cyngor actiwaraidd er mwyn gosod cyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr bob tair blynedd, a hynny er mwyn bodloni'r gofynion cyllido hirdymor i dalu pensiynau ac ymrwymadau eraill.

Mae modd i'r Awdurdod Gweinyddu gael mynediad ar unwaith i falansau arian parod y Gronfa Bensiwn, a gaiff eu rheoli'n fewnol ac sydd o fewn ei fanc ei hun, sef Barclays. Yn ogystal â hynny, mae'r Awdurdod yn

buddsoddi arian parod y Gronfa Bensiwn mewn taliadau tymor byr gyda'r Swyddfa Rheoli Dyledion, neu gyrrff cyhoeddus eraill yn y DU, am gyfnodau sydd fel arfer yn llai na 3 mis.

### 13.3 Risg o ran y Farchnad

Ystyr 'risg y farchnad' yw'r risg y bydd asedau buddsoddi yn colli eu gwerth o ganlyniad i symudiadau mewn marchnadoedd buddsoddi e.e. prisiau asedau, cyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid. Caiff hyn ei reoli drwy sicrhau bod y Gronfa'n buddsoddi mewn amrywiaeth o asedau sydd wedi'u amrywio yn ôl Rheolwr Materion Buddsoddi, dosbarth yr ased a rhanbarth daearyddol.

Yn dilyn dadansoddiad o'r data hanesyddol, mae cwmni State Street, sy'n gofalu am y Gronfa, wedi darparu rhagolwg o'r symudiadau posibl yn y farchnad ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Caiff effaith bosibl y symudiadau ei ddangos yn y tabl canlynol:

Math o asedau	31/03/18 Gwerth	Newid %	Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar ostyngia
	£'000		£'000	£'000
Mandad Soddgyfran Craidd	873,461	9.41	955,654	791,268
Mandad Soddgyfran Byd-eang	1,251,091	9.71	1,372,572	1,129,610
Mandad Soddgyfran y DU	277,381	8.73	301,596	253,166
Mandad Bond	589,971	5.67	623,422	556,520
Mandad Eiddo	174,860	2.43	179,109	170,611
Mandad Mewnol	36,861	0	36,861	36,861
<b>Total</b>	<b>3,203,625</b>		<b>3,469,214</b>	<b>2,938,036</b>

Caiff risg y Gronfa o ran cyfraddau llog ei fonitro'n gyson gyda chyngor cynghorwyr trysorlys yr Awdurdod Gweinyddu. Mae modd i newidiadau mewn cyfraddau llog effeithio ar incwm y Gronfa a gwerthoedd asedau eraill.

O gymryd yn ganiataol y bydd pob newidyn, yn arbennig cyfraddau cyfnewid, ddim yn newid, byddai symudiad o 1% mewn cyfraddau llog ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 yn cael yr effaith canlynol:

Math o asedau	31/03/18 Gwerth	Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar ostyngia
	£'000		
Gwarantau bondiau	581,747	587,564	575,930
Adneuon arian parod a balansau	86,989	87,859	86,119
<b>Cyfanswm</b>	<b>668,736</b>	<b>675,423</b>	<b>662,049</b>

Ystyr 'risg o ran arian' yw'r perygl i werthoedd incwm a buddsoddiadau yn seiliedig ar newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor. Mae'r Gronfa yn



agored i'r risg yma o ganlyniad i fuddsoddiadau sydd ddim mewn punnoedd sterling mewn amrywiaeth o asedau.

Byddai symudiad o 9.8% yn y cyfraddau cyfnewid yn cael yr effaith ganlynol:

<b>Math o asedau</b>	<b>31/03/18</b>	<b>Gwerth ar</b>	<b>Gwerth ar</b>
	<b>Gwerth</b>	<b>gynnydd</b>	<b>ostyngia</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Soddyfrannau Gwledydd Tramor	1,736,978	1,907,202	1,566,754
Bondiau Gwledydd Tramor	28,909	31,742	26,076
Cronfeydd Tramor - Eiddo	2,489	2,733	2,245
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,768,376</b>	<b>1,941,677</b>	<b>1,595,075</b>

## **Adroddiad yr archwilydd annibynnol, Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

### **Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

#### **Barn**

Rydw i wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnwys y Datganiad Symud i gronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm Cynhwysol a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifo arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i ddefnyddio i baratoi am hyn yn cydymffurfio a'r gyfraith a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, 2017-18, a hynny yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwirioneddol a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 31 Mawrth 2018, a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn 2017-18.

#### **Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r ddeddf berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau yma eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer yr adran o'r adroddiad sy'n trafod archwilio datganiadau ariannol. Rydw i'n annibynnol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn unol â'r gofynion moesol sy'n berthnasol ar gyfer fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesol y Cyngor Adrodd Ariannol. Rydw i wedi cyflawni fy nyletswyddau moesol eraill mewn perthynas â'r gofynion yma. Rydw i o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydw i wedi'i gasglu yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

#### **Casgliadau sy'n ymwneud â materion parhaus**

Does gen i ddim byd i adrodd arno mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae gofyn i mi roi gwybod i chi amdanyn nhw yn sgil yr ISAs (DU), lle:

- dydy hi ddim yn briodol defnyddio sail atebolrwydd gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu

- Dydy'r swyddog ariannol cyfrifol ddim wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd materol a nodwyd a allai daflu amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis (o leiaf) o'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### **Gwybodaeth arall**

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a'r adroddiad archwilydd gan i ar sail hynny. Dydy fy marn ar y datganiadau ariannol ddim yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodwyd yn glir fel arall yn ddiweddarach yn fy adroddiad, dydw i ddim yn mynegi unrhyw gasgliad o sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall i nodi anghysonderau o bwys â'r datganiadau ariannol archwilyddig ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd, i bob golwg, yn gwbl anghywir ar sail ar yr wybodaeth a gaffaelwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n anghyson iawn â hi. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau materol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### **Adroddiad ar ofynion eraill**

#### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, y seiliedig ar y gwaith a gyflawnais i'n rhan o'm harchwiliad:

- Mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei gyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017-18;
- Mae'r wybodaeth sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y datganiadau eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, a chafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei baratoi yn unol â'r canllawiau yma.

#### **Materion rydw i'n adrodd arny'n nhw drwy eithriad**

Yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r Cyngor, a'r amgylchedd, a gefais wrth gynnal yr archwiliad, dydw i ddim wedi nodi unrhyw gamasesiadau yn yr Adroddiad Naratif nag yn yr Adroddiad Llywodraethu Blynyddol.

Does gen i ddim byd i adrodd arno ynglŷn â'r materion canlynol, y byddaf yn eu hadrodd i chi os ydw i o'r farn:

- bod cofnodion cyfrifo digonol ddim wedi'u cadw;
- bod y datganiadau ariannol ddim yn cydfynd â'r cofnodion cyfrifo; neu
- fy mod i ddim wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arna i ar gyfer cynnal yr archwiliad.

#### **Tystysgrif o Gwblhau'r Archwiliad**

Rydw i'n nodi fy mod wedi cynnal archwiliad o gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## **Cyfrifoldebau**

### **Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ar gyfer datganiadau ariannol**

Y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun gwirioneddol a theg, a phennu unrhyw fesurau rheoli mewnol sydd eu hangen er mwyn galluogi'r datganiad o gyfrifon i gael ei lunio heb unrhyw gamddatganiadau – boed hynny drwy dwyll bwriadol neu gamgymeriad. Mae'r Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon (sydd wedi'i amlinellu ar dudalen 15) yn rhoi rhagor o fanylion am hyn.

Wrth lunio'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor i barhau yn fater parhaus, gan ddatgelu materion sy'n ymwneud â hynny a defnyddio'r sail barhaus o gyfrifo oni bai fod hynny'n cael ei ystyried yn amhriodol.

### **Cyfrifoldeb yr archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nodau yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol ai peidio, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gaiff ei gynnal yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wallau a chân nhw eu hystyried yn ddeunydd, os oes modd disgwyl yn rhesymol iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gaiff eu cymryd ar sail y datganiadau ariannol hyn (boed hynny'n unigol neu ar y cyfan).

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Anthony J Barrett  
Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru      Caerdydd  
[Dyddiad]

24 Heol y Gadeirlan  
CF11 9LJ

## **Adroddiad yr archwilydd annibynnol, Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn ei swyddogaeth fel awdurdod gweinyddol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf**

### **Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

#### **Barn**

Rydw i wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad o'r gwir asedau a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu sylweddol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i ddefnyddio i baratoi am hyn yn cydymffurfio a'r gyfraith a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, 2017-18, a hynny yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, ac o'r swm a'r cyfosodiad ar y dyddiad hwnnw o'i asedau a'i rhwymedigaethau
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â'r gofynion cyfreithiol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn 2017-18.

#### **Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r ddeddf berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau yma eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer yr adran o'r adroddiad sy'n trafod archwilio datganiadau ariannol. Rydw i'n annibynnol ar y Gronfa Bensiwn yn unol â'r gofynion moesol sy'n berthnasol ar gyfer fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesol y Cyngor Adrodd Ariannol. Rydw i wedi cyflawni fy yletswyddau moesol eraill mewn perthynas â'r gofynion yma. Rydw i o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydw i wedi'i gasglu yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

#### **Casgliadau sy'n ymwneud â materion parhaus**

Does gen i ddim byd i adrodd arno mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae gofyn i mi roi gwybod i chi amdanyn nhw yn sgil yr ISAs (DU), lle:

- dydy hi ddim yn briodol defnyddio sail atebolrwydd gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- Dydy'r swyddog ariannol cyfrifol ddim wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd materol a nodwyd a allai daflu amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r Gronfa Bensiwn i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis (o leiaf) o'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

#### **Gwybodaeth arall**

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiadau blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a'r adroddiad archwilydd gan i ar sail hynny. Dydy fy marn ar y datganiadau ariannol ddim yn cynnwys y

wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodwyd yn glir fel arall yn fy adroddiad, dydw i ddim yn mynegi unrhyw gasgliad o sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall i nodi anghysonderau o bwys â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd, i bob golwg, yn gwbl anghywir ar sail ar yr wybodaeth a gaffaelwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n anghyson iawn â hi. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau materol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### **Adroddiad ar ofynion eraill**

#### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, y seiliedig ar y gwaith a gyflawnais i'n rhan o'm harchwiliad:

- Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y datganiadau eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, a cafodd yr adroddiad blynyddol ei baratoi yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

#### **Materion rydw i'n adrodd arny'n nhw drwy eithriad**

Yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r gronfa bensiwn, a'r amgylchedd, a gefais wrth gynnal yr archwiliad, dydw i ddim wedi nodi unrhyw gamasesiadau yn yr adroddiad blynyddol.

Does gen i ddim byd i adrodd arno ynglŷn â'r materion canlynol, y byddaf yn eu hadrodd i chi os ydw i o'r farn:

- bod cofnodion cyfrifo digonol ddim wedi'u cadw;
- bod y datganiadau ariannol ddim yn cydfynd â'r cofnodion cyfrifo; neu
- fy mod i ddim wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arna i ar gyfer cynnal yr archwiliad.

#### **Tystysgrif o Gwblhau'r Archwiliad**

Rwy'n ardystio fy mod i wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### **Cyfrifoldebau**

#### **Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ar gyfer datganiadau ariannol**

Y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, sy'n rhoi darlun gwirioneddol a theg, a phennu unrhyw fesurau rheoli mewnlol sydd eu hangen er mwyn galluogi'r datganiadau ariannol i gael ei lunio heb unrhyw gamddatganiadau – boed hynny drwy dwyll bwriadol neu gamgymeriad. Mae'r Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y datganiadau ariannol (sydd wedi'i amlinellu ar dudalen 15) yn rhoi rhagor o fanylion am hyn.

Wrth lunio'r datganiadau ariannol, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r gronfa bensiwn i barhau yn fater parhaus, gan ddatgelu materion sy'n ymwneud â hynny a defnyddio'r sail barhaus o gyfrifo oni bai fod hynny'n cael ei ystyried yn amhriodol.

#### **Cyfrifoldeb yr archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nodau yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol ai peidio, boed hynny oherwydd

twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gaiff ei gynnal yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wallau a chân nhw eu hystyried yn ddeunydd, os oes modd disgwyl yn rhesymol iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gaiff eu cymryd ar sail y datganiadau ariannol hyn (boed hynny'n unigol neu ar y cyfan).

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Anthony J Barrett  
Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru      Caerdydd  
[Dyddiad]

24 Heol y Gadeirlan  
  
CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a sicrhau ei chywirdeb; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau y gellid bod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf.

## Geirfa

### **Croniad**

Mae cronriad yn swm a gaiff ei ddangos yn y cyfrifon sy'n cynrychioli incwm neu wariant sy'n ymwneud â'r cyfnod cyfrifyddu, sydd ddim wedi'i dderbyn neu'i dalu mewn gwirionedd ar ddyddiad y Fantolen.

### **Actiwari**

Mae actiwari yn unigolyn neu sefydliad sy'n cyfrifo premiymau a rhwymedigaethau o ran yswiriant a rhwymedigaethau pensiwn.

### **Gwasanaethau Asiantaeth**

Mae Gwasanaethau asiantaeth yn wasanaethau a gaiff eu darparu gan sefydliad allanol, neu'n wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ar gyfer sefydliad allanol.

### **Amorteiddio**

Taliadau i refeniw am y gostyngiad amcangyfrifedig yng ngwerth ased anniriaethol.

### **Dull Oedran a Gyrhaeddwyd**

Dull actiwaraidd o gyfrifo cyfradd cyfraniad i'r Gronfa Bensiwn. Mae e'n cyfrifo gwerth presennol y buddion amcangyfrifedig i'w cronni i'r aelodau dros eu haelodaeth ddisgwyliedig sy'n weddill, wedi'i fynegi fel canran o'u tâl pensiynadwy disgwyliedig yn y dyfodol.

### **Archwilio**

Mae archwiliad yn archwiliad annibynnol o weithgareddau.

### **Cyllideb**

Mae cyllideb (neu amcangyfrif) yn gynllun o incwm a gwariant, yn seiliedig ar ba Dreth Gyngor sydd wedi'i osod. Mae'r gwariant gwirioneddol yn cael ei fonitro wedyn yn erbyn y cynllun yma.

### **Gwariant Cyfalaf**

Gwariant cyfalaf yw'r swm a gaiff ei wario ar asedau hirdymor. Mae'r rhain yn asedau a fydd yn cael eu defnyddio am sawl blwyddyn wrth ddarparu gwasanaethau ac maen nhw'n eitemau fel adeiladau, offer a cherbydau.

### **Derbyniad Cyfalaf**

Mae derbyniadau cyfalaf yn golygu elw o werthu asedion hirdymor fel tir neu adeiladau.

### **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o fewn y Fargen Ddinesig yn cynnwys 10 awdurdod lleol; Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Torfaen; a Bro Morgannwg.

### **Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)**

Mae CIPFA yn gyfrifol am gyhoeddi canllawiau ariannol i gyrff cyhoeddus.



### **Credydwr**

Mae credydwr yn sefydliad/unigolyn sydd ag arian yn ddyledus iddo gan y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer nwyddau/gwasanaethau a gafodd eu derbyn.

### **Asedau Cyfredol**

Mae'r rhain yn asedau tymor byr sydd ar gael i'r Cyngor eu defnyddio yn y cyfnod cyfrifo canlynol.

### **Ymrwymadau Cyfredol**

Mae'r rhain yn ymrwymadau tymor byr y mae disgwyl i'r Cyngor eu talu yn y cyfnod cyfrifo canlynol.

### **Dyledwr**

Mae dyledwr yn sefydliad/unigolyn sydd ag arian yn ddyledus i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer nwyddau/gwasanaethau a gafodd eu derbyn.

### **Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO)**

Mae'r Swyddfa Rheoli Dyledion yn Asiantaeth Weithredol gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys rheoli dyledion ac arian ar gyfer Llywodraeth y DU, benthycu i Awdurdodau Lleol a rheoli rhai cronfeydd yn y sector cyhoeddus.

### **Cynllun â Buddion wedi'u Diffinio**

Mae Cynllun â Buddion wedi'u Diffinio yn un sy'n seiliedig ar fudd-daliadau ymddeol ar Enillion Ad-werthfawr Cyfartaledd Gyrfa.

### **Cynllun Cyfraniad wedi'i Ddiffinio**

Mae cynllun cyfraniad wedi'i ddiffinio yn fath o gynllun ymddeol lle caiff swm cyfraniad blynyddol y cyflogwr ei nodi. Seilir y buddion ar y symiau sydd wedi'u credydu i'r cyfrifon yma (trwy gyfraniadau cyflogwyr ac, os yn berthnasol, cyfraniadau cyflogeion) ynghyd ag unrhyw enillion o ran buddsoddi. Dim ond cyfraniadau cyflogwr i'r cyfrif sydd wedi'u gwarantu, nid y buddion yn y dyfodol.

### **Ysgolion Dirprwyedig**

Mae ysgol ddirprwyedig yn ysgol a gaiff ei rheoli'n annibynnol gan ei Gorff Llywodraethol. Mae cronfeydd yr ysgolion hyn yn cael eu cadw y tu allan i falansau Cronfa'r Cyngor.

### **Cost Hanesyddol Dibrisiedig**

Caiff Cost Hanesyddol Dibrisiedig ei nodi trwy gofnodi pris prynu ased a lleihau'r gwerth dros ei fywyd economaidd defnyddiol.

### **Cost Amnewid Dibrisiedig**

Mae Cost Amnewid Dibrisiedig yn amcangyfrif o werth y farchnad ar gyfer defnydd presennol ynghyd â chostau amnewid gros cyfredol ac eithrio lwfansau ar gyfer dirywiad.

### **Dibrisiant**

Dibrisiant yw'r amcangyfrif o golled mewn gwerth asedau tymor hir diriaethol sydd wedi'u cyflwyno yn y Fantolen.

### **Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi**

Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu neilltuo at ddiben penodol.

### **Hierarchaeth Gwerth Teg**

Lefel 1 – Asedau a rhwymedigaethau ar lefel 1 yw'r rheiny lle mae gwerthoedd teg yn deillio o brisiau a gaiff eu dyfynnu heb eu haddasu mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg.

Lefel 2 – Asedau a rhwymedigaethau ar lefel 2 yw'r rhai lle dydy prisiau marchnad sydd wedi'i dyfynnu ddim ar gael.

### **Blwyddyn Ariannol**

Dyma'r cyfnod cyfrifyddu. Ar gyfer awdurdodau lleol, mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

### **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi**

Gwasanaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

### **Amhariad**

Mae amhariad yn digwydd pan fo gwerth ased hirdymor yn disgyn islaw'r gwerth y mae arno ar hyn o bryd yn y Fantolen a'r Gofrestr Asedau.

### **Y Safon Gyfrifeg Ryngwladol (IAS)**

Rheoliadau Ariannol i'w dilyn fel y'u gosodir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IASB).

### **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**

Caiff y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol eu cynhyrchu gan IASB (Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol) gyda'r nod o sicrhau cysondeb o fewn y gwledydd sy'n mabwysiadu'r safonau.

### **Rhestrau Eiddo**

Mae rhestrau eiddo yn ddefnyddiau crai a gaiff eu prynu ar gyfer eu defnyddio o ddydd i ddydd. Caiff gwerth yr eitemau yma sydd ddim wedi'u defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol eu dangos fel asedau cyfredol yn y Fantolen.

### **Prydlesi**

Mae hwn yn ddull o ariannu gwariant trwy dalu'r perchennog i ddefnyddio eiddo neu offer am nifer o flynyddoedd.

### **Daliwr Prydles**

Defnyddiwr neu rentwr yr ased neu'r eiddo ar brydles. Yn achos prydlesi cyfalaf, y daliwr prydles hefyd yw'r 'dyledwr' i'r prydleswr.

### **Prydleswr**

Perchennog neu ddeiliad y teitl yr ased neu'r eiddo ar brydles. Y prydleswr hefyd yw'r benthyciwr a'r parti sydd wedi'i ddiogelu rhag prydlesi cyfalaf a phrydlesau gweithredu.

### **Rhwymedigaeth**

Rhwymedigaeth i drosglwyddo buddion economaidd o ganlyniad i drafodion neu ddigwyddiadau yn y gorffennol.

### **Ased Hir-dymor**

Mae'r rhain yn asedau sy'n cael eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau (fel arfer am fwy na blwyddyn).

### **Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw**

Mae Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw yn dâl yn erbyn adnoddau refeniw sy'n cynrychioli ad-dalu dyled. Mae e'n ddull o dalu am Wariant Cyfalaf a gaiff ei ariannu gan fenthyca.

### **Prisiad Cyfwerth Modern**

Mae Prisiad Cyfwerth Modern yn ddull o brisio sy'n cyfrifo cost adeiladu adeiladau a strwythurau cyfatebol modern, a'u dibrisio i gyfrif am oedran a bywyd economaidd yn y dyfodol.

### **Ardrethi Annomestig**

Ardrethi Annomestig, neu'r Gyfradd Fusnes, yw'r tâl i ddeiliaid eiddo busnes. Pennir Ardrethi Annomestig gan y llywodraeth ganolog ac mae'n ganran o werthoedd ardrethol. Mae'r ganran yr un fath ledled Cymru. Mae'r cyfanswm a gaiff ei gasglu wedi'i rannu rhwng awdurdodau unigol yn gymesur â'u poblogaethau oedolion.

### **Gwir Werth Adnabyddadwy**

Pris gwerthu ased, wedi'i ostwng gan y gost berthnasol (uniongyrchol) o'i werthu.

### **Gwerthoedd Teg Anghylchol**

Mae'r rhain yn ymwneud ag asedau sy'n cael eu mesur ar werth teg oherwydd amgylchiadau penodol. Mae'r asedau sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer asedau a gaiff eu dal i'w gwerthu yn cael eu gwerthuso am y pris isaf o ran gwerth anghylchol, ac eithrio cost i'w werthu, a'i werth cario.

### **Prydlesi Gweithredol**

Mae'r rhain yn brydlesi lle mae risgiau perchnogaeth yr ased yn aros gyda'r perchennog.

### **Cyllideb Gyfunol**

Mae cyllideb gyfunol yn fecanwaith ariannol, lle mae partneriaid, sef cyrff sector cyhoeddus statudol fel arfer, yn atgyfnerthu cyllid i ffurfio cronfa a rennir ar wahân. Defnyddir y gronfa yma wedyn i dalu am nwyddau, gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer grŵp cleientiaid penodol.

### **Digwyddiadau yn dilyn Lluio'r Fantolen**

Eitemau sy'n codi ar ôl dyddiad y Fantolen. Mae'r rhain yn eitemau doedd ddim yn bodoli ar yr adeg y cafodd y Fantolen ei llunio, ond y dylid ei datgelu os ydyn nhw'n berthnasol i ddealltwriaeth y cyfrifon.

### **Preseptau**

Dyma'r swm a gaiff ei dalu i gorff anstatudol (er enghraifft, cyngor cymuned).

### **Addasiad y Flwyddyn Flaenorol**

Addasiadau sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol yn deillio o newidiadau mewn polisiau cyfrifyddu neu o gywiro gwallau perthnasol.

### **Dull Uned Rhagamcanedig**

Dull actiwaraidd o gyfrifo rhwymedigaethau cynllun pensiwn sy'n caniatáu ar gyfer cynnydd arfaethedig yn y dyfodol mewn tâl pensiynadwy hyd at ymddeoliad neu ddyddiad gadael gwasanaeth.

### **Darpariaeth**

Mae darpariaeth yn rhwymedigaeth i drosglwyddo buddion economaidd o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth, ond does dim modd penderfynu ar y swm neu'r amseriad yn gywir eto.

### **Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus**

Asiantaeth y Llywodraeth yw hon sy'n darparu benthyciadau i awdurdodau lleol am gyfnodau rhwng 1 a 50 mlynedd.

### **Gwerth Teg Cylchol**

Mae'r rhain yn ymwneud ag asedau a gaiff eu mesur ar ddiwedd pob cyfnod cyfrifo, o fewn rhaglen dreigl y prisiadau.

### **Partïon Cysylltiedig**

Mae parti cysylltiedig yn bodoli lle mae un parti yn rheoli neu'n dylanwadu ar un arall.

### **Straen ar Gronfeydd**

Pan fydd gweithiwr yn ymddeol yn gynnar ac y caiff pensiwn ei dalu ar unwaith, heb ostyngiad actiwaraidd, caiff at yr incwm cyfraniad a gollwyd a'r gost llog sy'n deillio o'r llif arian cynyddol cysylltiedig yn gynyddol ei gyfeirio ato fel cost straen pensiwn. Caiff y gost straen pensiwn ei phennu trwy gyfrifiad actiwaraidd.

### **Is-brydles**

Mae is-brydles yn brydles rhwng tenant sydd eisoes yn dal prydles i le neu eiddo masnachol a rhywun (yr is-ddaliwr prydles) sy'n dymuno defnyddio rhan o ofod y tenant, neu ei holl ofod. Ystyrir bod y tenant yn ddaliwr is-brydles.

### **Cronfa Ymddiriedolaeth**

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth yn dal arian ar ran unigolyn neu sefydliad. Mae ymddiriedolwyr yn gweinyddu'r arian i'r perchnogion.

### **Ysgolion Gwirfoddol sy'n cael eu Cynnal**

Yn bennaf, ysgolion crefyddol neu ysgolion ffydd yw ysgolion gwirfoddol ac sy'n cael eu cynnal, er y gall unrhyw un wneud cais am le. Mae'r corff llywodraethu yn cyflogi'r staff ac yn gosod meini prawf o ran derbyn disgyblion. Fel arfer mae sefydliad elusennol yn gyfrifol am dir ac adeiladau'r ysgol, sefydliad crefyddol fel arfer, ac mae'r corff llywodraethol yn cyfrannu at gostau'r adeilad a chostau chynnal a chadw.

### **Ysgol Wirfoddol sy'n cael eu Rheoli**

Mae ysgolion gwirfoddol sy'n cael eu Rheoli yn debyg i ysgolion gwirfoddol sy'n cael eu cynnal, ond maen nhw'n yn cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol. Mae'r awdurdod lleol yn cyflogi staff yr ysgol ac yn gosod y meini prawf o ran derbyn disgyblion. Fel arfer mae sefydliad elusennol yn gyfrifol am dir ac adeiladau'r ysgol, sefydliad crefyddol fel arfer, ac mae'r sefydliad hwnnw hefyd yn penodi rhai aelodau o'r corff llywodraethu.

### **Llywodraeth Cymru (LIC)**

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion. Fe'i gefnogir gan Wasanaeth Sifil sy'n gweithio ar draws meysydd datganoledig o fywyd cyhoeddus, megis iechyd, addysg a'r amgylchedd.